# ADRODDIAD BLYNYDDOL CHWARAEON CYMRU

## ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL DOSBARTHIAD Y LOTERI

## 2020/21





Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI CYNGOR CHWARAEON CYMRU 2020-21

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 26 (1) ac Adran 26 (3) Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1998).

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 21 Gorffennaf 2021.

HC 544

# CYNGOR CHWARAEON CYMRU

**1 EBRILL 2020 – 31 MAWRTH 2021 - ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL**

## HANES A CHEFNDIR STATUDOL

Enwebodd Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) Gyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu, Chwaraeon Cymru) fel y corff cyfrifol am ddosbarthu'r cyllid a gynhyrchir gan y loteri i chwaraeon yng Nghymru. Mae dyletswyddau Chwaraeon Cymru wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau Loteri'n cael eu gweithredu yn unol â'r cyfarwyddiadau cyfrifo a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn unol ag Adran 26(1) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a'r Datganiad o Ofynion Ariannol a gyhoeddwyd o dan Adran 26(3) y Ddeddf.

## RHEOLAETH

Rheolir a gweinyddir swyddogaeth y Loteri drwy Gyngor Chwaraeon Cymru a'r panelau a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru er mwyn helpu gyda dosbarthu cyllid y Loteri i achosion da yng Nghymru

## SWYDDFA GOFRESTREDIG

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn craffu ar wariant cyhoeddus i'r Senedd ac mae'n annibynnol ar y llywodraeth a'r gwasanaeth sifil.

Rydym yn helpu'r Senedd i ddwyn y llywodraeth i gyfrif ac rydym yn defnyddio ein gwybodaeth i helpu pobl sy'n rheoli ac yn llywodraethu cyrff cyhoeddus i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol (C&AG), Gareth Davies, yn Swyddog yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn arwain yr NAO. Rydym yn archwilio cyfrifon ariannol adrannau a chyrff cyhoeddus eraill. Rydym hefyd yn archwilio ac yn adrodd ar werth am arian sut mae arian cyhoeddus wedi'i wario.

Yn 2020, arweiniodd gwaith yr NAO at effaith ariannol gadarnhaol tdrwy gostau is, gwell darpariaeth o wasanaeth, neu fuddion eraill i ddinasyddion, o £926 miliwn.

© Hawlfraint y Goron 2021

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol.

I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

ISBN: 978-1-5286-2237-0

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf.

Argraffwyd yn y DU ar ran Rheolwr Swyddfa Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# NEGES GAN LAWRENCE CONWAY, CADEIRYDD

## GYDA CHEFNOGAETH LLYWODRAETH CYMRU, A CHAN WEITHIO GYDA'R GYMUNED CHWARAEON LEDLED CYMRU, RYDYM WEDI BOD YN GWNEUD POPETH POSIBL I GEISIO SICRHAU Y BYDD CHWARAEON YNG NGHYMRU MEWN SEFYLLFA I FFYNNU ETO AR ÔL Y PANDEMIG.

Rwy'n ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am ba mor gyflym mae wedi galluogi i ni ailddefnyddio cyllid ac am yr adnoddau ychwanegol sylweddol iawn sydd wedi dod ar gael i ni i gefnogi'r sector drwy'r argyfwng. Yn ogystal, mae'r hyblygrwydd mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i ni i sianelu adnoddau i ymdrin â sefyllfaoedd sy'n dod i'r amlwg wrth iddynt godi wedi bod yn eithriadol bwysig.

Mae'r gefnogaeth hon gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag arian y Loteri Genedlaethol sydd wedi cael pwrpas newydd, wedi ein galluogi ni i ddiwallu anghenion ein partneriaid, diogelu cannoedd o glybiau chwaraeon rhag gorfod cau, achub cyfleusterau rhag cau'n barhaol, a hefyd helpu clybiau a sefydliadau i ailddechrau gweithgareddau pan mae wedi bod yn ddiogel gwneud hynny.

Cyn eleni, nid oeddem wedi cefnogi busnesau sy'n gwneud elw erioed. Roeddent yn gynulleidfa newydd i ni, ond gwnaethom fentro i dir newydd oherwydd mai dyma'r peth iawn i'w wneud. Ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i gefnogi'r rhan hon o'r sector chwaraeon ac roeddem yn falch iawn o wneud hynny.

Ymhell cyn i'r pandemig ddechrau, roeddem wedi canolbwyntio ar leihau'r anghydraddoldeb sy'n bodoli o ran cyfranogiad mewn chwaraeon. Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dangos bod angen y ffocws hwn yn awr yn fwy nag erioed, felly mae'n rhaid i ni ddyblu ein hymdrechion i ddileu'r rhwystrau sy'n atal cyfranogiad mewn chwaraeon ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd.

Un peth cadarnhaol sydd wedi deillio o'r sefyllfa bresennol yw ei fod yn rhoi cyfle unigryw i ni wneud newidiadau a allai wella'r ffordd y mae chwaraeon yn cael eu darparu yn y dyfodol. Os nad oedd yn gweithio o'r blaen, gadewch i ni ei wneud yn well.

Hoffwn hefyd longyfarch ein Prif Swyddog Gweithredol, Sarah Powell, ar ei phenodiad yn Brif Swyddog Gweithredol Gymnasteg Prydain. Bydd Sarah yn gadael Chwaraeon Cymru ym mis Hydref, ac rwyf eisiau diolch iddi am ei gwaith caled a'i hymrwymiad yn ystod ei hamser gyda Chwaraeon Cymru. Rydym yn dymuno'r gorau i chi yn eich rôl newydd.

**LAWRENCE CONWAY,**
**CADEIRYDD CHWARAEON CYMRU**

# TROSOLWG PERFFORMIAD

***PAN LANSIWYD EIN STRATEGAETH NEWYDD GENNYM DDWY FLYNEDD YN ÔL, GWNAETHOM YMRWYMIAD I FOD YN FWY HYBLYG ER MWYN CYFLAWNI EIN GWELEDIGAETH O GYMRU LLE MAE PAWB YN ACTIF. YCHYDIG A WYDDEM NI BRYD HYNNY Y BYDDAI'R ANGEN I ESBLYGU AC ADDASU'N GYFLYM YN CAEL EI BROFI I'R GRADDAU A WELWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN DDIWETHAF.***

Rwy'n hynod falch o ddweud bod fy nghydweithwyr wedi ymateb i'r her gyda phroffesiynoldeb ac ymroddiad aruthrol. Diolch i'w hymroddiad, eu sgiliau a'u gwytnwch diflino, rydym wedi gallu cefnogi pob rhan o'r gymuned chwaraeon mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Hoffwn hefyd fynegi fy niolchgarwch i bob aelod o'r teulu chwaraeon yng Nghymru am y ffordd maent wedi dod at ei gilydd i gefnogi eraill. Maent i gyd wedi chwarae rhan hanfodol o ran cadw pobl yn ddiogel ac yn iach drwy gadw at y rheolau ac addasu i'r cyfarwyddyd wrth iddo esblygu.

Wrth gwrs, nid yw'n amser i ni orffwys ar ein rhwyfau eto. Nid oes neb yn gwybod am ba hyd y teimlir effeithiau'r argyfwng ofnadwy hwn, a'r gwir effaith a gaiff hyn ar y clybiau, y busnesau a'r bywoliaethau niferus sy'n galluogi chwaraeon i ffynnu ar hyd a lled Cymru.

Fodd bynnag, mae'r pwysigrwydd mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i ymarfer corff yn ystod y pandemig yn gwneud i mi gredu'n gryf y bydd mwy o ffocws yn cael ei roi ar sicrhau ein bod yn dod yn genedl fwy actif a bod pawb yn cael gwell mynediad at yr holl fanteision sy'n deillio o fod yn actif, yn gorfforol ac yn feddyliol. Bydd chwaraeon yn parhau i uno ac ysbrydoli'r genedl a chwarae rhan ganolog yn adferiad Cymru.

Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, byddwn yn defnyddio'r gwe
flwyddyn ddiwethaf hon wrth i ni adfer, ailymgysylltu ac a
sector, gan weithio'n ddiflino i sicrhau bod pawb yn gallu r
chwaraeon drwy gydol eu hoes.

***SARAH POWELL, PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL CHWARAEON CYMRU***

**"BYDD CHWARAEON YN PARHAU I UNO AC YSBRYDOLI'R GENEDL A CHWARAE RHAN GANOLOG YN ADFERIAD CYMRU."**





# EBRILL 2020 – CADW PEN Y TEULU CHWARAEON UWCH WYNEB Y DŴR

**ROEDD ANGEN DYBRYD AM GYMORTH ARIANNOL AR LAWER O GYMUNEDAU CYMRU EISOES YNG NGWANWYN 2020 GAN EU BOD YN DIODDEF WEDI RHAI O'R LLIFOGYDD GWAETHAF ERS CYN COF DROS Y GAEAF.**

Roedd caeau a chlybiau chwaraeon ledled y wlad dan sawl troedfedd o ddŵr wrth i afonydd orlifo eu glannau pan adawodd Storm Dennis lwybr o ddinistr ym mis Chwefror 2020.

Fodd bynnag, roedd storm arall yn cyniwair, a phan darodd difrifoldeb argyfwng byd-eang y coronafeirws y DU fis yn ddiweddarach, ac wedyn realiti'r cyfyngiadau symud cenedlaethol, roedd angen ar fyrder am achubiaeth ariannol i helpu chwaraeon yng Nghymru i ddelio â'r anawsterau uniongyrchol roedd pawb yn eu hwynebu.

Wrth i gyfarfodydd droi'n alwadau zoom a phawb yn addasu i weithio gartref ym mis Mawrth 2020, aeth gweithlu Chwaraeon Cymru ati'n gyflym iawn i gefnogi sector chwaraeon Cymru ym mhob ffordd bosibl.

## CEFNOGAETH I GLYBIAU

Lai na thair wythnos ar ôl i'r wlad gael cyfarwyddyd i aros gartref i achub bywydau, ac wedi i chwaraeon cymunedol ddod i stop, roedd 'Cronfa Cymorth Mewn Argyfwng' newydd sbon wedi'i sefydlu. Mae'n broses a allai gymryd misoedd o dan amgylchiadau arferol, ond neilltuwyd staff ac adnoddau'n gyflym fel bod modd rhoi cefnogaeth ar waith ar adeg pan oedd ei hangen fwyaf ar y sector.

Gan ddefnyddio arian Llywodraeth Cymru, cefnogodd y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng glybiau chwaraeon nid-er-elw a oedd naill ai wedi profi problemau llifogydd diweddar neu a oedd yn debygol o fod angen cymorth ariannol ar unwaith am y 12 wythnos ddilynol, fel eu bod yn gallu parhau i fod yn rhan bwysig o'u cymunedau. Yn ystod pedwar diwrnod cyntaf y gronfa, derbyniodd Chwaraeon Cymru fwy na 150 o geisiadau. Erbyn i'r Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng gau ym mis Mehefin 2020, roedd cannoedd o glybiau wedi'u hachub rhag dod i ben diolch i ddyfarnu mwy na £600,000.

## CEFNOGAETH I BARTNERIAID

I gydnabod y cyfnod cythryblus, hysbyswyd partneriaid craidd Chwaraeon Cymru (cyrff rheoli cenedlaethol, awdurdodau lleol a phartneriaid cenedlaethol eraill fel yr Urdd) bod ganddynt fwy o hyblygrwydd o ran sut roeddent yn dewis defnyddio'r £25.77m mewn cyllid 'cytundeb partneriaeth' uniongyrchol a rannwyd â hwy ar ddechrau 2020/21.

Cafodd y partneriaid hwb arall ar ddiwedd mis Ebrill 2020 gan gyhoeddiad Chwaraeon Cymru y byddai hefyd yn rheoli Cronfa Cadernid Chwaraeon gwerth £8.1m a oedd yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a chyllid wedi cael pwrpas newydd gan y Loteri Genedlaethol.

Y prif amcan oedd defnyddio'r Gronfa Cadernid Chwaraeon i ddiogelu chwaraeon yng Nghymru ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â'i gwneud yn bosibl datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o gadw pobl yn actif yn ystod yr argyfwng.

Bu ymgysylltu helaeth â phartneriaid Chwaraeon Cymru i ddarganfod eu hanghenion. Roedd cyfarfodydd a fforymau ar-lein rheolaidd ar draws y sector yn helpu Chwaraeon Cymru i sicrhau dealltwriaeth dda o'r heriau roedd partneriaid yn eu hwynebu i sicrhau y gellid gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau. Yn seiliedig ar yr wybodaeth a gasglwyd, daeth yn amlwg y gellid rhannu anghenion amrywiol y sector yn dri grŵp gwahanol;

- Roedd angen un ffrwd gyllido i ddarparu cymorth ychwanegol i bartneriaid a gyllidir gan Chwaraeon Cymru (Awdurdodau Lleol, Cyrff Rheoli Cenedlaethol a sefydliadau partner cenedlaethol) yn seiliedig ar eu hanghenion unigol.

- Roedd angen ail ffrwd gyllido i gefnogi'r naw Ymddiriedolaeth Hamdden nid-er-elw sy'n gweithredu yng Nghymru ac sy'n chwarae rhan hanfodol yn y seilwaith chwaraeon, gan ddarparu ystod eang o weithgareddau a rheoli amrywiaeth o gyfleusterau.

- Yn drydydd, penderfynwyd y dylid cael ffrwd gyllido 'agored' wedi'i chynllunio i gefnogi clybiau a sefydliadau. Hon oedd Cronfa Cymru Actif, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2020.

Drwy'r Gronfa Cadernid Chwaraeon, buddsoddwyd £1,454,984 mewn 14 o Gyrff Rheoli Cenedlaethol, derbyniodd naw Ymddiriedolaeth Hamdden £521,000 a dyfarnwyd £279,378 i bum partner cenedlaethol. Defnyddiwyd y rhan fwyaf o'r cyllid naill ai i ddiogelu cyllid sefydliadau neu i baratoi ar gyfer chwaraeon yn dychwelyd yn ddiogel.






# CRONFA CYMORTH MEWN ARGYFWNG - CIPOLWG

**NIFER Y CEISIADAU:** 737

**NIFER Y CEISIADAU A GEFNOGWYD:** 342

**SWM A DDYFARNWYD:** £605,240

## Y PUM ARDAL I DDERBYN Y SWM MWYAF O GYLLID CYMORTH MEWN ARGYFWNG

1. **Sir Benfro** – 33 cais llwyddiannus, £59,230 wedi'i ddyfarnu.
2. **Caerffili** – 15 cais llwyddiannus, £40,889 wedi'i ddyfarnu.
3. **Abertawe** – 24 cais llwyddiannus, £39,928 wedi'i ddyfarnu.
4. **Caerdydd** – 20 cais llwyddiannus, £37,901 wedi'i ddyfarnu
5. **Sir Gaerfyrddin** – 24 cais llwyddiannus, £37,897 wedi'i ddyfarnu.

## Y PUM CAMP I DDERBYN Y SWM MWYAF O GYLLID CYMORTH MEWN ARGYFWNG

1. **Bowls** – 81 cais llwyddiannus, £130,103 wedi'i ddyfarnu.
2. **Criced** – 69 cais llwyddiannus, £110,067 wedi'i ddyfarnu.
3. **Pêl Droed** – 76 cais llwyddiannus, £96,223 wedi'i ddyfarnu.
4. **Golff** – 18 cais llwyddiannus, £78,538 wedi'i ddyfarnu.
5. **Rygbi'r Undeb** - 14 cais llwyddiannus, £43,637 wedi'i ddyfarnu.

## Y GRONFA CYMORTH MEWN ARGYFWNG AR WAITH

Roedd clwb pêl droed Brickfield Rangers yn Wrecsam yn un o'r cannoedd o glybiau a achubwyd gan y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng. Gan ei fod yn dibynnu fel rheol ar danysgrifiadau aelodau ac arian y bar i helpu i dalu'r biliau, roedd y ffaith nad oedd unrhyw gemau na hyfforddiant drwy gydol misoedd cyntaf pandemig y coronafeirws yn golygu prin ddim incwm.

*Heb grant o £800 o'r Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng, byddai'r clwb wedi cael anhawster parhau. Wrth siarad ym mis Mehefin 2020, dywedodd cadeirydd y clwb Paul Hooson: "Mae arian Chwaraeon Cymru wedi bod yn achubiaeth. Dydw i ddim yn dweud y byddai'r clwb wedi diflannu hebddo, ond mae wedi golygu ein bod ni wedi gallu talu'r biliau a dal ati.*

# SICRHAU CYFLEOEDD DATBLYGU I HYFFORDDWYR

**ARWEINIODD Y CYFYNGIADAU AR GYFARFODYDD WYNEB YN WYNEB TRADDODIADOL YN YSTOD 2020/21 AT Y SECTOR HYFFORDDI YNG NGHYMRU YN EDRYCH AR LAWER O FFYRDD NEWYDD AC ARLOESOL O DDARPARU CYFLEOEDD DATBLYGU DIFYR I HYFFORDDWYR.**

Dyma rai enghreifftiau o sut defnyddiwyd cyllid Chwaraeon Cymru gan bartneriaid i greu dull mwy cyfun o ddysgu...

## ATHLETAU CYMRU

Diolch i gefnogaeth ariannol gan Chwaraeon Cymru, a gyda Ffederasiynau Athletau'r Gwledydd Cartref fel partneriaid prosiect, datblygodd a gweithredodd Athletau Cymru blatfform dysgu ar-lein ar gyfer addysgu hyfforddwyr a swyddogion. Ochr yn ochr â hyn, datblygwyd gwefan dysgu cyfunol a phlatfform gweminarau i wella hygyrchedd i fynychwyr cyrsiau yn ogystal â rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt gael mynediad i weithdai o leoliad o'u dewis.

## YMDDIRIEDOLAETH CYMDEITHAS BÊL DROED CYMRU

Gan ddefnyddio cyllid Chwaraeon Cymru, llwyddodd Ymddiriedolaeth Cymdeithas Bêl Droed Cymru i barhau i ddatblygu ei ap / platfform digidol newydd i wella profiad y chwaraewyr a'r hyfforddwyr ar draws y gêm. Cynhyrchwyd adnoddau digidol ganddynt i roi cefnogaeth barhaus ac addysg anffurfiol, darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol, cysylltu'r gymuned bêl droed ledled Cymru, a galluogi rhyngweithio dyddiol â hyfforddwyr ar lawr gwlad.



# MAI 2020 – YMGYRCH #CYMRUACTIF A SUT LLWYDDODD TECHNOLEG I'N CADW NI MEWN CYSYLLTIAD

***O FEWN DYDDIAU I ORFODI'R CYFYNGIADAU SYMUD LEDLED Y DU, LANSIODD CHWARAEON CYMRU YMGYRCH #CYMRUACTIF I ROI YSBRYDOLIAETH AC AWGRYMIADAU I HELPU'R CYHOEDD YNG NGHYMRU I GYNNAL EU CYMHELLIANT A PHARHAU I FOD YN ACTIF YN YSTOD Y PANDEMIG.***

Tynnwyd sylw at fanteision bod yn actif ar lefel genedlaethol gydag ymarfer corff yn cael ei gydnabod fel un o ddim ond yr ychydig resymau hanfodol dros adael y tŷ. Gan mai dim ond un daith gerdded, rhedeg neu feicio y dydd y tu allan i'r tŷ neu'r ardd oedd yn cael ei chaniatáu o dan y cyfyngiadau symud cychwynnol, dechreuodd ymgyrch **#CymruActif** gyda ffocws ar rywbeth a fyddai'n datblygu i fod yn ffenomenon yn 2020 – ymarfer gartref.

## FFYRDD CREADIGOL O GADW'N ACTIF

Ymunodd Chwaraeon Cymru â'r farchnad ffitrwydd cartref gyda detholiad o fideos ymarfer corff hawdd eu dilyn gyda blas Cymreig ac yn addas ar gyfer tair lefel wahanol o ffitrwydd. Gwnaeth y fideos ysgafn, cyffredinol ac uwch unigol yr union beth roeddent yn ei addo. Roedd yr opsiynau ysgafn yn dilyn ymarferion cymeradwy'r GIG i gyflymu curiad y galon yn dda, tra oedd gan yr ymarferion cyffredinol ac uwch apêl ychwanegol o fod wedi'u cynllunio gan hyfforddwyr cryfder a chyflyru Chwaraeon Cymru sy'n cefnogi athletwyr elitaidd. Cyflwynwyd pob fideo dwyieithog naill ai gan athletwr presennol neu gyflwynydd chwaraeon, a ddangosodd pa mor hygyrch oedd yr ymarferion dyddiol.

Neilltuwyd adran gyfan o wefan Chwaraeon Cymru (yn y Gymraeg ac yn Saesneg) i ymgyrch Cymru Actif, gan gynnwys nid yn unig y casgliad o fideos ymarfer corff yn y cartref, ond hefyd cynnwys fideo a gynhyrchwyd gan bartneriaid, yn ogystal â chyngor am faeth, pwyntiau'n atgoffa am fanteision ymarfer corff, ac amrywiaeth o syniadau i gadw plant yn actif ac yn ddiddan.

Roedd adnoddau arbenigol 'Chwarae i Ddysgu' ac 'Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig' Chwaraeon Cymru', a ddefnyddir mewn ysgolion a lleoliadau addysg ledled y wlad, ar gael am ddim ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud. Dangoswyd i bawb sut gallent ddefnyddio ychydig o greadigrwydd i ddod o hyd i ffyrdd newydd o fod yn actif, dim ots beth oedd eu hamgylchiadau.

## CYRFF A MEDDYLIAU IACH

Roedd yr ymgyrch hefyd yn canolbwyntio llawer ar iechyd meddwl a chadw meddylfryd positif. Gweithiodd seicolegwyr Chwaraeon Cymru gyda rhai o'r enwau mwyaf yn y byd chwaraeon yng Nghymru a siaradodd yn agored am sut roeddent yn gofalu am eu hiechyd meddwl a'u lles yn ystod y cyfyngiadau symud.

Crëwyd wythnosau thema i helpu i gadw'r ymgyrch yn ffres ac i adeiladu momentwm. Roedd rhai o'r themâu'n cynnwys edrych ar arwyr cymunedol chwaraeon a ffocws ar gefnogaeth i bobl hŷn. Gan gadw at ethos strategaeth Chwaraeon Cymru, roedd ymgyrch **#CymruActif** yn rhywbeth i'r sector cyfan ei gefnogi, gyda'r undod hwnnw'n ei gwneud yn haws i'r cyhoedd dorri drwy'r sŵn ar y cyfryngau cymdeithasol i ddod o hyd i'r adnoddau ymarfer corff a'r wybodaeth hanfodol yr oedd arnynt eu hangen. Roedd awdurdodau lleol, Cyrff Rheoli Cenedlaethol, clybiau, ysgolion a byrddau iechyd ymhlith y rhai a oedd naill ai'n rhannu cynnwys cyfryngau cymdeithasol Chwaraeon Cymru neu'n defnyddio'r hashnod **#CymruActif** wrth bostio eu cynnwys eu hunain. O fewn pythefnos i lansio'r ymgyrch, roedd yr hashnod wedi cyrraedd 1.5m o ddefnyddwyr ar y cyfryngau cymdeithasol.

Wrth i gyfyngiadau Covid newid, newidiodd yr ymgyrch hefyd, gan ddarparu gwybodaeth hawdd ei deall am sut roedd y canllawiau diweddaraf yn effeithio ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Byddwch yn actif, yn ddiogel, oedd y neges allweddol wrth i chwaraeon ailddechrau ac roedd y cyfarwyddyd yr un mor glir pan fu'n rhaid i weithgareddau oedi unwaith eto adeg y Nadolig.

## *RYDYCH CHI AR 'MUTE'*

Parhaodd gwefan Atebion Clwb Chwaraeon Cymru i gynnig cyngor ymarferol i glybiau, fel sut i ddod ag aelodau'r clwb at ei gilydd yn rhithwir yn ystod y cyfyngiadau symud. Wrth i nosweithiau hyfforddi droi'n nosweithiau cwis, bu'n rhaid i lawer o hyfforddwyr nad oeddent yn gyfarwydd â thechnoleg yn flaenorol ymgyfarwyddo'n gyflym â galwadau zoom a pheryglon y botwm 'mute'. Roedd y cyfan yn rhan o'r hyn mae hyfforddwyr yn ei wneud i sicrhau bod aelodau'r clwb yn teimlo'n rhan o rywbeth mwy – cymuned.

Tynnodd gwefan Atebion Clwb sylw at esiamplau dirifedi o sut roedd clybiau ledled Cymru'n mynd yr ail filltir yn ystod y cyfnod hwn i gadw mewn cysylltiad. Sicrhaodd Clwb Pêl Droed Rhydaman bod y tynnu coes cyfeillgar yn parhau drwy sefydlu twrnamaint gemau FIFA rhithwir a gododd fwy na £1500 ar gyfer y GIG a banc bwyd yn ardal y clwb llwyddiannus. Cynigiodd Valleys Gymnastics ychydig o hwyl drwy chwilio am hen luniau o'r hyfforddwyr a herio'r aelodau i Ddyfalu'r Babi, ac roedd Clwb Pêl Rwyd Cerdded Llanilltud Faerdref ymhlith y clybiau hynny a ddefnyddiodd grwpiau facebook caeëdig i helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd.



# MEHEFIN 2020 – DEALL EFFAITH COVID-19

### YMUNODD CHWARAEON CYMRU Â SAVANTA COMRES I GYNNAL TRI AROLWG A GYNHALIWYD AR WAHANOL ADEGAU YN YSTOD Y PANDEMIG (YM MIS MAI 2020, MIS HYDREF 2020 A MIS MAWRTH 2021)

Rhoddodd yr arolygon gipolwg rhyfeddol ar sut oedd y gwahanol gyfyngiadau'n effeithio ar weithgarwch corfforol a chwaraeon, yn ogystal ag agweddau pobl yng Nghymru tuag at ymarfer corff yn ystod ac ar ôl y cyfnodau o gyfyngiadau symud llym.

Comisiynodd Chwaraeon Cymru hefyd Ganolfan Diwydiant ac Ymchwil Chwaraeon Prifysgol Sheffield Hallam i werthuso effaith Covid-19 ar swyddi, gwariant a maint yr economi chwaraeon. Dyma'r canfyddiadau allweddol...

# UCHAFBWYNTIAU AROLWG MIS MAI 2020

### CYNHALIWYD YR AROLWG HWN RHWNG 8 A 12 MAI 2020 PAN OEDD CYMRU O DAN GYFYNGIADAU SYMUD AC NID OEDD CHWARAEON TREFNUS YN BOSIBL YN YR AWYR AGORED NA DAN DO. ROEDD CANOLFANNAU HAMDDEN A CHAMPFEYDD AR GAU.


### LEFELAU GWEITHGARWCH

- Yn ddiddorol, roedd yn ymddangos bod y rhaniad gwrywaidd-benywaidd arferol mewn gweithgarwch wedi'i wyrdroi yn ystod y cyfyngiadau symud. Dywedodd cyfran uwch o ferched (36%) na dynion (32%) eu bod wedi gwneud mwy o ymarfer corff neu weithgarwch corfforol yn ystod yr wythnos ddiwethaf o gymharu ag wythnos nodweddiadol cyn cyfyngiadau COVID-19.
- Roedd bron i ddwy ran o dair o oedolion yng Nghymru'n teimlo ei bod yn bwysicach nag erioed i fod yn actif yn ystod y cyfnod hwn, gyda cherdded, ymarferion yn y cartref a loncian y mathau mwyaf poblogaidd o ymarfer corff yn ystod y cyfyngiadau symud.

## ANGHYDRADDOLDEB

- Awgrymodd yr ymchwil bod y cyfyngiadau symud cyntaf wedi gwaethygu'r bwlch rhwng pobl actif a phobl segur yng Nghymru, gyda'r rhai o gefndiroedd mwy difreintiedig yn dioddef fwyaf.
- Ymhlith yr oedolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch, dywedodd 39% eu bod yn gwneud mwy o weithgarwch a 32% eu bod yn gwneud llai. Fodd bynnag, ar gyfer oedolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, roedd 29% yn gwneud mwy ac roedd 33% yn gwneud llai.


# PWY YW'R MWYAF ACTIF?





Arolwg ComRes a Chwaraeon Cymru Mai 2020

# LEFELAU GWEITHGARWCH YN YSTOD Y CYFYNGIADAU SYMUD

## OEDOLION





**YN YMARFER MWY NAG ARFER**





**YN YMARFER LLAI NAG ARFER**

## PLANT




**YN YMARFER MWY NAG ARFER**




**YN YMARFER LLAI NAG ARFER**

Arolwg ComRes a Chwaraeon Cymru Mai 2020

### PLANT A PHOBL IFANC


- Awgrymodd canlyniadau'r arolwg bod y rhaniad anghydraddoldeb yn amlycach fyth ymhlith plant. Er i 9% o oedolion yn gyffredinol ddweud nad oedd eu plant yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol neu ymarfer corff ar ddiwrnod arferol yn ystod y cyfyngiadau symud, i'r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, roedd y ffigur yn 14%.

- Yn gyffredinol, dywedodd 26% o rieni bod eu plant yn gwneud mwy o weithgarwch nag arfer yn ystod y cyfyngiadau symud, a dywedodd 35% bod eu plant yn gwneud llai. Fodd bynnag, dim ond 23% o rieni o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ddywedodd bod eu plant yn fwy actif nag arfer, o gymharu â 36% a ddywedodd eu bod yn gwneud llai.

### GWEITHGARWCH YN YSTOD Y CYFYNGIADAU SYMUD

- Roedd ychydig o dan draean (30%) o bobl wedi gwneud rhyw fath o weithgarwch corfforol yn y cartref yn ystod yr wythnos y cawsant eu harolygu, naill ai drwy ddilyn ymarfer fideo neu ar-lein, neu drwy greu eu sesiwn eu hunain. Roedd y math hwn o weithgaredd ffitrwydd yn fwy poblogaidd fyth ymhlith pobl ifanc 16 i 34 oed, gan fod hanner y grŵp oedran hwn wedi dweud eu bod wedi gwneud ymarfer cartref yn ystod yr wythnos a arolygwyd.


# RHOI CYNNIG AR RYWBETH NEWYDD




**O OEDOLION WEDI DOD O HYD I FFYRDD NEWYDD O FOD YN ACTIF ERS YR ARGYFWNG.**

Arolwg ComRes a Chwaraeon Cymru Mai 2020

## Y PUM GWEITHGAREDD NEWYDD MWYAF POBLOGAIDD ...




- 22% CERDDED
- 6% YMARFER/SESIYNAU YMARFER /FFITRWYDD
- 6% LONCIAN/ RHEDEG
- 4% BEICIO
- 4% GARDDIO

## LLES

- Dywedodd dau o bob tri oedolyn (67%) eu bod yn ymarfer i helpu i reoli eu hiechyd corfforol, tra bod 62% yn cadw'n actif i helpu i ofalu am eu hiechyd meddwl. Fodd bynnag, er gwaethaf y parodrwydd cyffredinol i fod yn actif, dim ond 56% o oedolion ddywedodd eu bod yn teimlo bod ymarfer corff yn bleserus ac yn rhoi boddhad yn ystod y cyfyngiadau symud. Ymhlith y rhesymau dros hyn mae'r ffaith bod 40% o oedolion wedi dweud nad ydynt yn teimlo bod ymarfer corff ar eu pen eu hunain yn bleserus. Roedd merched, oedolion iau, a'r rhai o raddau economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o ddweud hyn.

# UCHAFBWYNTIAU AROLWG MIS HYDREF 2020

**CYNHALIWYD YR AROLWG HWN RHWNG 9 A 12 HYDREF 2020 PAN NAD OEDD UNRHYW GYFYNGIADAU AR DEITHIO I YMARFER CORFF, ROEDD CHWARAEON AWYR AGORED YN CAEL EU CANIATÁU OND ROEDDENT YN GYFYNGEDIG I GRWPIAU O FAINT PENODOL, ROEDD CANOLFANNAU HAMDDEN A CHAMPFEYDD AR AGOR AC ROEDD GWEITHGAREDDAU DAN DO WEDI'U CYFYNGU I GRWPIAU O FAINT PENODOL. ROEDD HYN CYN Y CYFNOD ATAL BYR CENEDLAETHOL.**

## YN ÔL I NORMAL?

- Roedd yn ymddangos bod lefelau cyffredinol y gweithgarwch corfforol ymhlith oedolion yn debyg ym mis Hydref 2020 i'r rhai cyn i'r cyfyngiadau COVID-19 cyntaf gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2020.

- Er bod tystiolaeth i awgrymu polareiddio gweithgarwch yn ystod cyfyngiadau symud gwanwyn 2020 (gyda chynnydd yn nifer y bobl yn gwneud 'dim gweithgarwch corfforol' a gweithgarwch corfforol 'bob dydd'), awgrymodd arolwg mis Hydref 2020 wyrdroi'r duedd hon gyda mwy o oedolion yn gwneud 'rhywfaint' o weithgarwch yn ystod y cyfnod hwn.

- Dywedodd llai o oedolion eu bod wedi cael 'mwy o amser' (58%) i fod yn actif yn gorfforol yn ystod y cyfnod hwn o gymharu ag yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol ym mis Mai 2020 (66%).

## PLANT A PHOBL IFANC

- Roedd yr adborth o'r arolwg hwn yn awgrymu bod plant yng Nghymru yn gwneud mwy o chwaraeon / gweithgarwch corfforol y tu allan i'r ysgol ym mis Hydref 2020 na chyn cyflwyno cyfyngiadau COVID-19 am y tro cyntaf. Yr eithriad i hyn oedd oedolion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is a oedd yn fwy tebygol o ddweud bod eu plentyn /plant bellach yn gwneud llai o weithgarwch ar ddiwrnod nodweddiadol yn ystod y penwythnos.

## CEISIO GWYBODAETH DDIBYNADWY

- Roedd oedolion yng Nghymru yn fwyaf tebygol o droi at y GIG, cynghorau lleol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol / meddygon teulu i gael gwybodaeth ddibynadwy am sut i fod yn actif. Dywedodd 83% y cant o'r rhai a gafodd wybodaeth ei bod yn 'glir'.

## TEIMLO'N DDIOGEL

- Parciau oedd y lleoliad lle'r oedd oedolion yn fwyaf tebygol o deimlo'n hyderus i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol ym mis Hydref 2020 – dywedodd 61% eu bod yn teimlo'n hyderus i gymryd rhan yn y gofod hwn.

### ROEDD DIFFYG HYDER O RAN DYCHWELYD I DDEFNYDDIO CYFLEUSTERAU HAMDDEN YN YSTOD Y CYFNOD HWN

Dywedodd **25%** eu bod yn teimlo'n hyderus yn dychwelyd i byllau nofio.

Dywedodd **25%** eu bod yn hyderus i ddychwelyd i gampfeydd

Roedd gan **20%** o bobl hyder i ddychwelyd i neuaddau chwaraeon.

- Er bod diffyg hyder o ran dychwelyd i ddefnyddio cyfleusterau, dywedodd y rhan fwyaf o'r oedolion a oedd yn defnyddio cyfleusterau canolfannau hamdden eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn eu defnyddio. O blith y rhai oedd wedi defnyddio campfeydd / ystafelloedd iechyd a ffitrwydd dan do, dywedodd 82% eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r cyfleuster. Roedd 81% o'r bobl a oedd wedi defnyddio pyllau nofio hefyd yn teimlo'n gyfforddus.



# UCHAFBWYNTIAU AROLWG MIS MAWRTH 2021

## CYNHALIWYD YR AROLWG HWN RHWNG 12 AC 16 MAWRTH 2021 PAN OEDD CYMRU'N CYMRYD CAMAU CYNNAR ALLAN O GYFYNGIADAU SYMUD Y GAEAF.

Dyma'r wythnos gyntaf i'r rheol aros gartref gael ei disodli gan aros yn lleol, oedd yn golygu y gallai pobl deithio i ymarfer corff. Nid oedd chwaraeon awyr agored trefnus yn cael eu caniatáu eto ond roedd rhai cyfleusterau chwaraeon awyr agored fel cyrsiau golff a chyrtiau tennis newydd ailagor.

### LEFELAU GWEITHGARWCH

Dywedodd dynion a merched eu bod wedi gwneud llai o ymarfer corff ym mis Mawrth 2021 o gymharu â chyn COVID-19. Er nad oedd yn ymddangos bod llawer o wahaniaeth cyffredinol mewn lefelau gweithgarwch ar gyfer y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch (35% yn fwy, 35% yn llai), roedd y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud llai na chyn y pandemig ar hyn o bryd (24% yn fwy, 37% yn llai).

Er bod oedolion yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud llai o weithgarwch o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig, mae'r rhai sydd â chyflwr neu salwch tymor hir yn llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud llai bellach (18% yn fwy, 51% yn llai).

Mae **53%** o oedolion yn colli'r mathau o weithgarwch roeddent yn gallu eu gwneud cyn i'r pandemig ddechrau

Mae **40%** o oedolion yn poeni ar hyn o bryd am adael y tŷ i ymarfer corff neu fod yn actif.

### DYCHWELYD I CHWARAEON


Dywed dwy ran o dair o oedolion y bydd dod allan o'r cyfyngiadau symud yn ei gwneud yn haws iddynt fod yn actif. Yn gyffredinol, dywedodd 60% o oedolion eu bod yn bwriadu cynyddu faint o weithgarwch corfforol maent yn ei wneud wrth i Gymru ddod allan o'r cyfyngiadau symud.

Yn gyffredinol, mae oedolion yn fwy tebygol o deimlo'n hyderus ynghylch dychwelyd i gyfleusterau awyr agored ond mae'r pryderon am ddychwelyd i gyfleusterau dan do yn parhau'n gymharol uchel ac nid yw'r rhan fwyaf o oedolion yn teimlo'n hyderus am ddychwelyd i'r lleoliadau hyn.


### Y PRYDERON MWYAF AM DDYCHWELYD I CHWARAEON, YMARFER CORFF A GWEITHGARWCH CORFFOROL OEDD:

1. BOD YN AGOS AT BOBL / GORMOD O BOBL – 14%
2. DAL COVID – 11%
3. CYNNYDD MEWN ACHOSION / TON ARALL – 4%
4. POBL DDIM YN CADW AT Y RHEOLAU – 3%

# CYFRAN YR OEDOLION YN CYMRYD RHAN DRWY GYDOL Y PANDEMIG



# CYFRANOGIAD RHEOLAIDD (UNWAITH Y MIS O LEIAF) YN ÔL MATH O WEITHGAREDD





Arolwg ComRes a Chwaraeon Cymru Mawrth 2021


kalas
BRITISH CYCLING
BREEZE
BREEZE
CHAMPION

# PA MOR HYDERUS MAE OEDOLION YN TEIMLO AM DDYCHWELYD I WAHANOL LEOLIADAU CHWARAEON?

Arolwg ComRes a Chwaraeon Cymru Mawrth 2021



## GWIRFODDOLI MEWN CHWARAEON

### MAE 1 O BOB 20 OEDOLYN (5%) WEDI GWIRFODDOLI MEWN CHWARAEON YN YSTOD Y DEUDDEG MIS DIWETHAF.

Fodd bynnag, canfu arolwg mis Mawrth 2021 bod **28%** o oedolion yn dweud eu bod yn debygol o wirfoddoli yn ystod y deuddeg mis nesaf.

## SUT DEFNYDDIWYD CANLYNIADAU'R AROLYGON

Roedd y data oedd yn dangos sut bu i rywfaint o'r anghydraddoldeb gweithgarwch corfforol waethygu oherwydd y pandemig yn hynod werthfawr wrth gynllunio Cronfa Cymru Actif gan eu bod yn tynnu sylw at y ffaith y dylid targedu'r cyllid at ardaloedd mwy difreintiedig. Cadarnhaodd canlyniadau arolwg mis Hydref 2020 bod y dull hwn o weithredu'n gywir hefyd.

Rhoddwyd yr holl ganlyniadau i'r sector er mwyn helpu i ddylanwadu ar benderfyniadau yn y dyfodol. Yn ogystal â thynnu sylw Aelodau'r Senedd atynt, i ddangos sut roedd y pandemig yn effeithio ar lefelau gweithgarwch pobl, cafodd y canfyddiadau eu bwydo i Lywodraeth Cymru hefyd fel sail i ymatebion polisi i'r pandemig.

Drwy gydol rhan olaf 2020, defnyddiwyd gwybodaeth yr arolygon hefyd i gefnogi dychweliad chwaraeon, gan alluogi partneriaid i ddeall mwy am ble roedd angen iddynt feithrin hyder pobl mewn rhai lleoliadau. Roedd data mis Hydref 2020 yn arbennig o ddefnyddiol i ddarparwyr hamdden eu hystyried wrth edrych ar y ffordd orau o roi sicrwydd i gwsmeriaid bod ganddynt yr holl fesurau angenrheidiol ar waith er mwyn iddynt deimlo'n ddiogel. Rhagwelir y bydd canfyddiadau arolwg mis Mawrth 2021 yr un mor ddefnyddiol wrth i gymdeithas agor mwy yng Ngwanwyn 2021.





## BETH OEDD EFFAITH COVID-19 AR YR ECONOMI CHWARAEON YNG NGHYMRU?

Roedd amcangyfrifon a wnaed gan Ganolfan Ymchwil Diwydiant Chwaraeon Prifysgol Sheffield Hallam (SIRC) yn nodi gwerth cyn pandemig gwariant defnyddwyr sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru yn £1.26bn, GVA sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn £1.195bn ac amcangyfrif o gyflogaeth chwaraeon fel 31,100 o swyddi Cyfwerth â Llawn Amser (FTE).

Amcangyfrifodd SIRC bod gwariant defnyddwyr ar chwaraeon yng Nghymru wedi gostwng £303.4m yn ystod 2020. Gwelwyd gostyngiad yng ngwariant y defnyddwyr ar chwaraeon mewn rhai ardaloedd yn fwy nag eraill ac mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd yn y gwariant ar weithgareddau chwaraeon anffurfiol fel rhedeg a beicio yn ystod y cyfyngiadau symud (e.e. bu cynnydd o 16% mewn gwariant ar feiciau).

Gostyngodd y GVA sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru 20% yn 2020 (tua dwywaith dirywiad economi gyffredinol y DU), sy'n golygu bod y GVA yng Nghymru wedi gostwng £209m. Yng Nghymru, y GVA a gynhyrchir drwy chwaraeon gwylwyr welodd y gostyngiad mwyaf o ran canran (-43%).

Byddai'r holl amodau hyn wedi bod yn llawer gwaeth heb y buddsoddiad cychwynnol o £22.7 miliwn mewn pecynnau cefnogi chwaraeon, yn ogystal â phecynnau anuniongyrchol eraill fel cronfa galedi'r awdurdodau lleol. Heb fuddsoddiad, amcangyfrifir y gallai'r GVA cysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru fod wedi gostwng deirgwaith yn fwy nag economi'r DU. Byddai'r sector gwirfoddol yng Nghymru, er enghraifft, wedi gweld gostyngiad mwy fyth heb y cyfraniad hwn (-80% heb gyfraniad o gymharu â -50% gyda chyfraniad). Yn ogystal, byddai 15,200 o swyddi chwaraeon (FTE) wedi bod mewn perygl o gael eu colli heb gefnogaeth y cyhoedd.

# GORFFENNAF 2020 – CRONFA CYMRU ACTIF YN HELPU I BARATOI CLYBIAU I AILDDECHRAU

**ERBYN DECHRAU'R HAF, ROEDD CYNLLUNIAU WEDI DATBLYGU'N DDA I LAWER O CHWARAEON AILDDECHRAU, AC I ERAILL ROEDD Y FFOCWS O HYD AR DDIOGELU AMGYLCHEDDAU CHWARAEON AR GYFER DYCHWELYD YN Y DYFODOL PELLACH.**

## DIOGELU A PHARATOI

Lansiwyd Cronfa Cymru Actif ym mis Gorffennaf 2020 gyda dwy ffrwd gyllido ar wahân – Diogelu a Pharatoi. Gan ddefnyddio arian Llywodraeth Cymru a chyllid wedi cael pwrpas newydd gan y Loteri Genedlaethol, roedd y gronfa'n galluogi clybiau cymunedol a sefydliadau nid-er-elw i wneud cais am arian grant rhwng £300 a £50,000.

Ar y pryd, nid oedd yn hysbys faint yn union o faich ariannol fyddai'n cael ei roi ar chwaraeon penodol er mwyn ailddechrau chwaraeon ochr yn ochr â'r Coronafeirws. Fodd bynnag, rhoddodd sgyrsiau gyda phartneriaid a rhywfaint o'r wybodaeth a gafwyd o'r Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng syniad i Chwaraeon Cymru o ba geisiadau i'w disgwyl.

Rhagwelwyd y byddai'r ceisiadau 'Diogelu' ar gyfer helpu i dalu rhent, costau cyfleustodau, yswiriant, a llogi cyfleusterau neu offer. Roedd disgwyl i geisiadau 'Paratoi' gael eu cyflwyno ar gyfer symiau i dalu am brotocolau glanhau gwell a mesurau diogelwch, yn ogystal ag addasiadau y gallai fod eu hangen i adeiladau cyn y gallai pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau'n ddiogel yn unol â chanllawiau iechyd a gofynion cadw pellter cymdeithasol.

## CYRRAEDD Y CYMUNEDAU MEWN ANGEN MWYAF

Un o dargedau allweddol Cronfa Cymru Actif oedd cyrraedd clybiau a sefydliadau mewn ardaloedd difreintiedig wrth i ymchwil ComRes Savanta a gynhaliwyd ym mis Mai 2020 ganfod mai'r cymunedau hynny oedd wedi cael eu taro galetaf gan y cyfyngiadau symud. Cafodd y chwe awdurdod lleol a oedd yn cynnwys yr ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd yng Nghymru (Blaenau Gwent, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Torfaen, Merthyr Tudful a Sir Ddinbych) eu targedu'n benodol.

Cynhaliwyd ymgyrch hysbysebu wedi'i thargedu (ar-lein ac all-lein) a gofynnwyd i bartneriaid Chwaraeon Cymru i gyd ystyried sut gallent sicrhau bod y gronfa'n cyrraedd y cymunedau hynny oedd â'r angen mwyaf. Anogwyd partneriaid i edrych ar sut roeddent eisoes yn ymgysylltu â'r clybiau yn eu hardaloedd mwyaf difreintiedig ac ystyried beth arall gallent ei wneud.

Sefydlwyd Cronfa Cymru Actif i gefnogi clybiau drwy gydol y pandemig ac anogwyd y clybiau i wneud cais unwaith roeddent wedi cael cyfle i ystyried yn llawn pa gefnogaeth yr oedd arnynt ei hangen fwyaf. Rhagwelwyd y byddai'r ceisiadau 'Paratoi' yn dod mewn tonnau wrth i gyfarwyddyd pellach gael ei ddarparu ar gyfer dychwelyd i chwaraeon yn ddiogel.

# Y PUM CAIS 'PARATOI' MWYAF POBLOGAIDD:

**Cyfarpar diogelu personol cyffredinol** a deunyddiau glanhau fel hancesi gwlyb, masgiau, bibiau, teclynnau a gorsafoedd diheintio, yn ogystal â thermometrau.

**Costau llogi cyfleusterau hyfforddi** – angen gofod hyfforddi a sesiynau ychwanegol yn aml o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar nifer y cyfranogwyr mewn ardal hyfforddi.

**Arwyddion newydd** a marciau llawr i wneud pobl yn ymwybodol o'r rheolau Covid y dylent eu dilyn.

Angen **offer ychwanegol** o ganlyniad i grwpiau maint llai. Er enghraifft, roedd clybiau pêl droed angen goliau a pheli ychwanegol.

**Cyrsiau hyfforddi** i helpu i uwchsgilio'r hyfforddwyr ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i gymarebau hyfforddwyr i gyfranogwyr llai.

# ASTUDIAETH ACHOS:

## CLWB HOCI YN CAEL CEFNOGAETH I CHWARAE ETO

Fel cymaint o glybiau eraill ar lawr gwlad yng Nghymru, bu'n rhaid i Glwb Hoci Dynion Dinbych addasu i'r normal newydd yn sgil y rheolau iechyd a diogelwch llymach a gyflwynwyd gan y pandemig.

Pan ailddechreuodd y clwb gynnig hyfforddiant, gwelodd bod y cyfyngiadau Covid o ran nifer y bobl a ganiatawyd ar ei gae pob tywydd awyr agored ar yr un pryd yn creu problemau ariannol. Diolch byth, roedd cyllid Cymru Actif ar gael i barhau i wneud hoci'n fforddiadwy i deuluoedd mewn ardal ddifreintiedig yn gymdeithasol.

Dywedodd y prif hyfforddwr Liam Bell: *"Ein prif gost ni yw archebu'r cae. Gyda niferoedd cyfyngedig mae'n eithaf anodd talu cost y cae hwnnw. Mae'n anodd oherwydd gyda'r plant fe fyddem wedi cael tua 60 ym mhob seesiwn, felly fe fyddem wedi gorfod dyblu'r pris ar gyfer y plant oni bai fod y grant gennym. Mae'r grant yn helpu i wneud iawn am y diffyg incwm gan nad ydym yn gallu cael pawb allan yn hyfforddi ar yr un pryd. Rydyn ni hefyd wedi gorfod gwario mwy ar offer diogelwch fel diheintydd dwylo."*

**"ROEDD CYLLID CYMRU ACTIF YN HANFODOL I WNEUD HOCI'N FFORDDIADWY O HYD"**

LIAM BELL, PRIF HYFFORDDWR,
CLWB HOCI DYNION DINBYCH



# AWST 2020 – DYCHWELYD I CHWARAEON

## *WRTH I GYFRADDAU'R CORONAFEIRWS OSTWNG, ROEDD YN BOSIBL AILGYFLWYNO LLAWER O'R GWEITHGAREDDAU MAE'R CYHOEDD YNG NGHYMRU MOR HOFF OHONYNT YN DDIOGEL.*

Roedd datblygu cyfarwyddyd diogelwch ar gyfer dychweliad diogel chwaraeon wedi bod yn dasg enfawr ar y cyd. Dechreuodd o ddifrif ym mis Mai 2020 ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei map ffordd yn diffinio sut gellid dechrau llacio'r cyfyngiadau mewn gwahanol feysydd ym mywyd Cymru.

Yn unol ag adolygiadau bob tair wythnos Llywodraeth Cymru o'r cyfyngiadau, cyflwynwyd argymhellion i swyddogion Llywodraeth Cymru i'w trafod a'u hystyried er mwyn dylanwadu ar eu cyfarwyddyd 'dychwelyd i chwaraeon'.

Chwaraeon a sefydliadau unigol sy'n gyfrifol am ddehongli'r cyfarwyddyd hwnnw a datblygu protocolau. Yn ystod misoedd yr haf yn arbennig, gwnaed ymdrech enfawr ar draws y sector i ddarparu'r holl wybodaeth angenrheidiol fel bod gan glybiau cymunedol bopeth yr oedd arnynt ei angen er mwyn ailddechrau'n ddiogel.

Yn ystod ychydig fisoedd cythryblus, roedd gan y sector dirlun oedd yn newid yn barhaus i ymrafael ag ef, a oedd yn cynnwys cyfyngiadau symud lleol, gofyniad cyfreithiol i wisgo masgiau wyneb dan do, a'r cyfnod atal byr, cyn i chwaraeon a gweithgarwch corfforol cymunedol ddod i stop estynedig unwaith eto ym mis Rhagfyr 2020. Drwy gydol y cyfnod hwn, daeth arferion gweithio ar y cyd â llawer o fanteision, o ran rhannu dysgu a chreu achos cadarn a phwyllog dros lacio unrhyw reoliadau.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ganiatâd i Chwaraeon Cymru i ganiatáu i athletwyr elitaidd ddychwelyd i hyfforddi. Llwyddodd Grŵp Chwaraeon Cenedlaethol dan arweiniad Chwaraeon Cymru, gyda chynrychiolwyr o Gymdeithas Chwaraeon Cymru, Gemau'r Gymanwlad Cymru a Llywodraeth Cymru, i reoli'r broses dynodi statws elitaidd ar gyfer dychwelyd yn bwyllog ac yn raddol i chwaraeon grŵp a thîm cystadleuol.









# MEDI 2020 - CEFNOGAETH I ATHLETWYR PERFFORMIAD YN YSTOD YR ARGYFWNG

**YN GYNNAR YN YSTOD Y PANDEMIG, DAETH YR ANGEN AM GYFARWYDDYD PENODOL I GYNORTHWYO ATHLETWYR ELITAIDD I DDYCHWELYD I CHWARAEON A / NEU YMARFER CORFF YN GLIR YN FUAN IAWN.**

Cydweithiodd grŵp o arbenigwyr gwyddoniaeth a meddygaeth o Athrofa Chwaraeon Cymru â'u cydweithwyr yn y gwledydd cartref i gynllunio dogfen gyfarwyddyd 'dychwelyd i chwaraeon' ar gyfer Cyrff Rheoli Cenedlaethol a'u hyfforddwyr, yn ogystal â chyfarwyddyd ar gyfer addasu hyfforddiant yn ystod y pandemig.

## CANIATÂD I ATHLETWYR ELITAIDD

Ochr yn ochr â Chymdeithas Chwaraeon Cymru, Gemau'r Gymanwlad Cymru a Llywodraeth Cymru, sefydlodd Chwaraeon Cymru Grŵp Chwaraeon Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2020 a oedd yn gyfrifol am benderfynu pa grwpiau o athletwyr y dylid eu dynodi fel rhai â statws 'athletwyr elitaidd', a chael caniatâd wedyn i hyfforddi, cystadlu a theithio i wneud hynny tra oedd Cymru ar Lefel Rhybudd Pedwar / yng nghanol y cyfyngiadau symud. Roedd rhaid i geisiadau i'r grŵp gael eu gwneud gan Gyrff Rheoli Cenedlaethol a gweithiodd y grŵp gan gadw at feini prawf llym yn seiliedig ar gynrychiolaeth ar lefel Olympaidd, Paralympaidd, Cymanwlad a Rhyngwladol Hŷn.

## FFOCWS PERSON-GANOLOG AR TOKYO

Roedd Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Tokyo yn ffocws blaenoriaeth i dîm Athrofa Chwaraeon Cymru yn ystod 2020/21, ond roedd yr ymarferwyr yn gorfod pwyso a mesur yn ofalus o ran diogelu iechyd y cyhoedd (ac athletwyr) a hefyd cefnogi partneriaid i wella perfformiad eu hathletwyr. Roedd gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a darparu amgylcheddau diogel rhag Covid yn ganolog i hyn.

Roedd ymreolaeth yr athletwyr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Roedd dull person-ganolog o weithredu gyda'r athletwyr yn eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus am reoli'r goddefgarwch risg yma i Covid-19 a'u nodau perfformiad. Roedd heriau gwahanol, unigryw i risgiau iechyd pob athletwr unigol.

Drwy gydol y cyfnodau o gyfyngiadau amrywiol, chwaraeodd Chwaraeon Cymru ei ran i sicrhau bod gan athletwyr elitaidd fynediad i'r offer yr oedd arnynt ei angen i hyfforddi'n ddiogel gartref, tra oedd hyfforddwyr ac ymarferwyr yn darparu cymorth rhithwir. Darparwyd adnoddau helaeth ar gyfer yr athletwyr, fel cyfres o argymhellion hunanofal i gynorthwyo gyda lles ac iechyd meddwl, yn ogystal â chyngor am faeth.

Yn naturiol, roedd sesiynau o bell yn addas i rai athletwyr yn fwy nag eraill. Er enghraifft, roedd cefnogaeth rithwir i nofwyr blaenllaw Cymru yn effeithiol iawn, gyda'r gallu i siarad â phobl yn hamddenol yn eu cartrefi eu hunain yn fuddiol. I eraill, roedd yn bwysig dychwelyd i ddarpariaeth wyneb yn wyneb cyn gynted ag y byddai lefel y risg yn caniatáu.

Roedd sesiynau o bell yn brofiad dysgu i bawb oedd yn rhan ohonynt, ac mae'n amlwg y bydd y gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod anodd hwn yn helpu i ddarparu gwasanaeth llawer mwy cyfeillgar i athletwyr wrth symud ymlaen, oherwydd yr hyblygrwydd a'r elfen defnyddiwr-gyfeillgar mae technoleg yn eu cynnig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i ni yma yng Nghymru; gwlad lle gall yr athletwyr fod ar wasgar yn ddaearyddol.

## DULL O DDATBLYGU ATHLETWYR SY'N CAEL EI ARWAIN FWY GAN WYBODAETH

Byddai'r gallu i gael llawer iawn o ddata perfformiad manwl gywir, credadwy a dilys yn cynnig cyfleoedd gwych i chwaraeon yng Nghymru fabwysiadu dull o ddatblygu athletwyr sy'n cael ei arwain fwy gan wybodaeth.

Yn dilyn cam archwilio cychwynnol – a oedd yn cynnwys sgyrsiau gyda chydweithwyr Chwaraeon Cymru ym mhob cwr o'r byd yn ogystal â thimau chwaraeon proffesiynol – mae Bocsio Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru wedi ymrwymo bellach i gontractau tymor byr gyda Fusion Sports, darparwr System Rheoli Athletwyr (AMS) arobryn.

Er bod y ddwy raglen berfformiad yng nghamau cynnar mabwysiadu'r AMS, mae'r manteision eisoes i'w gweld. Mae'r manteision hyn wedi cynnwys gwell dealltwriaeth o nifer yr achosion o anafiadau i ddau athletwr sy'n paratoi ar gyfer Gemau Tokyo.

Wrth i Chwaraeon Cymru barhau i weithio gyda Bocsio Cymru a Chwaraeon Anabledd Cymru i ymgorffori'r AMS yn eu harferion dyddiol yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn rhoi amser i werthuso'r ffordd orau o ddefnyddio technoleg o'r fath i ddiwallu anghenion partneriaid eraill hefyd.



# HYDREF 2020 - Y GWAITH A WNAED I WNEUD CYFLEUSTERAU'N DDIOGEL RHAG COVID

***DAETH CADW PELLTER CYMDEITHASOL A GWEITHDREFNAU DIHEINTIO'N ARFER CYFFREDIN WRTH I WEITHGAREDDAU AWYR AGORED AILAGOR YN HAF 2020, AC ROEDD ARGAELEDD EHANGACH ARCHEBION AR-LEIN YN GAM POSITIF ARALL YMLAEN.***

Bu'n rhaid i bobl aros ychydig yn hirach i ddychwelyd i fwynhau gweithgareddau dan do, ond pan roddwyd y golau gwyrdd iddynt ailagor ddechrau mis Awst 2020, gwnaed llawer iawn o ymdrech y tu ôl i'r llenni ledled y wlad i wneud adeiladau'n ddiogel rhag Covid.

Crëwyd 'hwb cyfleusterau' hefyd, wedi'i gyllido gan y Gronfa Cadernid Chwaraeon, a oedd yn galluogi rhannu gwybodaeth a manylion hanfodol ar draws y sector. Darparodd hyn adnodd i'w groesawu i bartneriaid gan gyfrannu hefyd at hyder defnyddwyr a'r Llywodraeth.

## CYFNOD CLO OND HEB EIN CLOI ALLAN

Wrth i gyfyngiadau symud lleol yn hydref 2020 arwain at gyfyngiadau teithio rhyng-sirol newydd, penderfynodd darparwyr llywodraeth leol a hamdden ledled Gwent gyfuno eu hadnoddau mewn ymgais i sicrhau nad oedd y cyfnod clo'n golygu cloi pobl allan.

Penderfynodd Newport Live – ymddiriedolaeth elusennol sy'n darparu gwasanaethau chwaraeon, hamdden a diwylliannol ar draws y ddinas – weithio gyda darparwyr eraill i gynnig un tocyn ar draws yr ardal fel nad oedd y cyfyngiadau lleol yn atal pobl rhag defnyddio eu lleoliad agosaf.

Y canlyniad oedd Gwent Live, sefydliad ymbarél a oedd yn cynnwys Aneurin Leisure (Blaenau Gwent), Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, MonLife (Sir Fynwy), Newport Live ac Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen. Roedd cwsmeriaid oedd ag aelodaeth gydag un darparwr hamdden yn gallu mynychu eu campfeydd neu ganolfan hamdden leol tra oedd y cyfyngiadau symud lleol yn parhau.

## CRONFA CADERNID CHWARAEON AR WAITH

Roedd Halo Leisure, sy'n gweithredu'r gwasanaethau hamdden ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn un o'r naw ymddiriedolaeth hamdden i dderbyn cefnogaeth gan y Gronfa Cadernid Chwaraeon. Fe wnaethant ddefnyddio eu dyraniad o £55,000 i osod wi-fi mewn saith cyfleuster, sefydlu dosbarthiadau ffitrwydd ar-lein, addasu meddalwedd ar gyfer aelodaeth ar-lein, prynu tabledi ar gyfer mynediad ac archebu, ac i dalu am hyfforddiant staff. Defnyddiwyd yr arian hefyd i wneud y cyfleusterau'n ddiogel rhag Covid fel eu bod yn gallu ailagor.







# ASTUDIAETH ACHOS:

## PECYN CYLLIDO'N TARO DEUDDEG

Roedd Cronfa Cymru Actif yn achubiaeth i helpu clybiau i addasu eu cyfleusterau. Ymhlith y rhai a dderbyniodd gyllid roedd Clwb Bocsio Phoenix yn Llanrhymni, Caerdydd, a wariodd grant o £440 ar thermometr, arwyddion diogelwch Covid, masgiau wyneb, menig a rhaffau sgipio i sicrhau amgylchedd hyfforddi diogel gyda phawb yn gallu cadw pellter cymdeithasol.

Roedd y clwb yn hynod falch o ailagor gan fod llawer o bryderon am yr effaith roedd Covid-19 yn ei chael ar iechyd meddwl y bocswyr. Anogwyd yr aelodau i rannu eu baich os oeddent yn teimlo'n bryderus neu ar eu pen eu hunain a chawsant gynnig cwrs iechyd a lles y meddwl am ddim.

Dywedodd y Prif Hyfforddwr Tony Richards: *"Mae'n bwysig i ni ein bod yn rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned rydyn ni wedi tyfu i fyny ynddi. Mae amddifadedd mawr yma ac nid yw llawer o'r plant yn mynd i'r ysgol, sy'n dorcalonnus i'w gweld. 'Fydden ni ddim yn gallu cefnogi'r gymuned heb y buddsoddiad yma. Mae'n gwneud byd o wahaniaeth i fywydau pobl ifanc yn ein hardal ni."*

# NÔL MEWN BUSNES

## DYFARNWYD STATWS 'AA HYDERUS AM COVID' A 'BAROD AMDANI' I GANOLFAN GENEDLAETHOL CHWARAEON CYMRU A CHANOLFAN AWYR AGORED GENEDLAETHOL PLAS MENAI PAN WNAETHANT AILAGOR I ATHLETWYR A CHWSMERIAID.

Darparwyd hyfforddiant helaeth i'r staff a, gyda systemau unffordd, sgriniau, arwyddion newydd, gorsafoedd diheintio a mesurau eraill ar waith, roedd y ddwy ganolfan yn edrych yn wahanol iawn i'r cyfnod cyn y pandemig.

Yng Nghaerdydd, gwariwyd £100,000 ar gam olaf y rhaglen newid ffenestri, ac aeth £25,000 at ddarpariaeth arlwyo 'Grab n Go' newydd yn y dderbynfa (o'r enw Hwb Bach).

### AILAGOR Y GANOLFAN GENEDLAETHOL YNG NGHAERDYDD

Roedd y Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd ar gau am ychydig dros dri mis. Ar ôl iddi ailagor, dechreuodd athletwyr elitaidd o chwaraeon gan gynnwys bocsio, jiwdo, pêl rwyd, hoci, gymnasteg, tennis bwrdd, badminton, sboncen, boccia a saethu ddychwelyd i hyfforddi fesul cam. Yn y pen draw, roedd posib iddynt ddefnyddio'r ganolfan hyd at saith diwrnod yr wythnos, aros yn y llety a bwyta o gaffi Hwb.

Gwnaed gwaith sylweddol ar y campfeydd cyhoeddus i'w gwneud yn ddiogel rhag Covid, a chroesawyd aelodau'r cyhoedd yn ôl pan oedd y cyfyngiadau'n caniatáu. Parhaodd y mwyafrif helaeth o staff Chwaraeon Cymru i weithio gartref drwy gydol y flwyddyn gyfan.

Defnyddiodd staff y Ganolfan Genedlaethol y cyfnodau tawelach fel cyfle i nodi unrhyw feysydd i'w gwella yn yr adeilad. Er enghraifft, cafodd ystafelloedd gwely'r athletwyr eu hadnewyddu. Ym mis Chwefror 2021, derbyniodd Chwaraeon Cymru £250,000 ychwanegol o gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd hanner yr arian i gefnogi prosiectau yn y Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd, a defnyddiwyd hanner ym Mhlas Menai (manylion isod).

### AILAGOR CANOLFAN AWYR AGORED GENEDLAETHOL PLAS MENAI

Pan ddechreuodd Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Plas Menai ddychwelyd at weithgarwch fesul cam ddechrau mis Gorffennaf, gan ganolbwyntio i ddechrau ar grwpiau teuluol yn ymgymryd â nifer cyfyngedig o weithgareddau antur, roedd yr adborth gan gwsmeriaid yn rhagorol. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, aeth y cwsmeriaid ymlaen i fwynhau amrywiaeth o opsiynau gweithgarwch eraill, gan gynnwys gwersi nofio, cyn i'r ail gyfyngiadau symud cenedlaethol gael eu gorfodi.

Daeth staff y ganolfan o hyd i ffyrdd newydd o gyflwyno cyrsiau ar-lein, a gwnaed gwaith hefyd i wella cyfleusterau ac offer y ganolfan. Defnyddiwyd £125,000 o gyllid cyfalaf ychwanegol a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2021 i osod ail set o baneli solar yn y ganolfan, i brynu cerbyd trydan newydd, ac i osod tri phwynt gwefru cerbydau trydan yn eu lle, gan helpu Chwaraeon Cymru i gyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Roedd y staff hefyd yn cefnogi'r gymuned leol drwy wirfoddoli i glirio ardal wedi gordyfu mewn mynwent sy'n ffinio â'r ganolfan, a helpu Cyngor Gwynedd i gasglu rhoddion bwyd o bob rhan o'r ardal leol i gyflenwi banciau bwyd.

## *PLAS MENAI – Y DYFODOL*

Fel llawer o gyfleusterau eraill, roedd 2020 yn flwyddyn o ddechrau a stopio am yn ail i Blas Menai, ond mae llawer o optimistiaeth am y dyfodol. Yn dilyn cyfnod o adolygu, mae rhaglen waith ar y gweill i wella enw da Plas Menai fel canolfan awyr agored genedlaethol Cymru. Yn ogystal ag ymrwymiad i fuddsoddiad cyfalaf sylweddol, mae Chwaraeon Cymru wrthi'n ystyried amodau presennol y farchnad a modelau gweithredu amgen. Y nod yw sefydlu partneriaeth gyda sefydliad sy'n rhannu uchelgais a phenderfyniad Chwaraeon Cymru i wneud Plas Menai yn llwyddiant.





# TACHWEDD 2020 - CLYBIAU CHWARAEON YN EDRYCH TUA'R DYFODOL GYDA CHRONFA CYMRU ACTIF

***YN YR HYDREF, EHANGWYD CRONFA CYMRU ACTIF GYDA THRYDEDD FFRWD GYLLIDO – CYNNYDD – FEL BOD CLYBIAU Â'U LLYGAID AR Y DYFODOL YN GALLU DECHRAU GWNEUD CAIS AM GRANTIAU RHWNG £300 A £50,000 I'W HELPU I DDATBLYGU EU DARPARIAETH Y TU HWNT I'R ARGYFWNG.***

Wrth gyflwyno eu ceisiadau, gofynnwyd i glybiau fanylu ar sut gallai'r cyllid gefnogi uchelgeisiau i wella'r profiad i'w haelodau presennol ac, yn hollbwysig, gwella'r ymdrechion hefyd i ddenu aelodau newydd. Yn benodol, fe'u hanogwyd i edrych ar sut gallent ddenu pobl sydd wedi'u tangynrychioli mewn chwaraeon ar hyn o bryd ac sydd felly'n llai tebygol o fod yn gorfforol actif. Er enghraifft, gallai clybiau fod yn anelu at gynyddu cyfleoedd i gymunedau ethnig amrywiol, pobl ag anableddau, neu ferched a genethod.

Roedd elfen 'Cynnydd' y gronfa'n gyfle i gefnogi mwy o glybiau a oedd yn barod i feddwl am wneud pethau'n wahanol yn y dyfodol, naill ai drwy fabwysiadu dulliau newydd o ddarparu eu gweithgareddau, neu ailfeddwl am y mathau o weithgareddau maent yn eu cynnig.





# ASTUDIAETH ACHOS:

## CYLLID YN GWNEUD CLWB BOWLS YN FWY CYNHWYSOL

Mae Cymdeithas Bowls Dan Do Sir Faesyfed yn Llandrindod yn ymfalchïo yn ei dull cynhwysol o weithredu sy'n croesawu unrhyw un sy'n awyddus i chwarae.

Roedd o'r farn bod Cronfa Cymru Actif yn cynnig cyfle gwych i sicrhau cyllid i gael mwy o chwaraewyr â nam ar eu symudedd i gymryd rhan yn y gamp, felly gwnaeth gais llwyddiannus am grant o £3,627 i drosi cadair olwyn faniwal yn un fodur.

Meddai Paul Vaughan, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr: *"Bydd yn helpu'r aelodau sy'n defnyddio cadair olwyn i chwarae'n annibynnol, heb fod angen gwirfoddolwr i'w gwthio i fyny'r rinc. Wrth gwrs, mae hyn hefyd yn gwneud bywyd yn haws o ystyried y sefyllfa barhaus o ran y coronafeirws a'r cadw pellter cymdeithasol sy'n ofynnol. Bydd cael ail gadair olwyn fodur yn ein helpu i wneud ein rinc hyd yn oed yn fwy croesawgar i fowlwyr anabl."*

# ASTUDIAETH ACHOS:

## CLWB BEICIO ANABLEDD YN NEWID GÊR AR GYFER Y DYFODOL

O alw heibio Parc Jenner yn y Barri ar brynhawn Mercher neu Wener byddech, mewn cyfnod arferol, yn gweld nifer o feiciau wedi'u haddasu'n gwibio o amgylch y trac. Yn darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau difrifol a dwys, mae'r Clwb Rhyngsynhwyraidd yn achubiaeth i lawer.

Ac i helpu'r clwb i ddarparu cyfleoedd gwell fyth ar ôl Covid, gwnaeth gais llwyddiannus am grant o £20,000 o Gronfa Cymru Actif.

*Dywedodd y trysorydd a'r sylfaenydd Cliff Hayes: "Rydyn ni'n buddsoddi cyllid Chwaraeon Cymru mewn tri beic trydan newydd sbon wedi'u haddasu. Bydd yn trawsnewid yr hyn rydyn ni'n gallu ei wneud – byddwn yn gallu rhoi mwy o gyfleoedd i fwy o bobl. Mae'r clwb yn helpu i fagu hyder – fe welwch chi bobl yn dod yn fwy agored ac yn fwy cymdeithasol. Rydw i'n credu ei fod yn rhoi hwb i bobl oherwydd y teimlad bach hwnnw eich bod chi'n rhan o rywbeth."*



# ASTUDIAETH ACHOS:

## CLWB TAEKWONDO YN BAROD AM Y DYFODOL

Gan fod Taekwondo yn gamp gyswllt, mae Covid-19 wedi creu problemau amlwg i glybiau cymunedol ledled y wlad.

Ond eto mae clwb Little Mill Taekwondo Cymru yn Sir Fynwy wedi goresgyn yr her yma drwy ddod o hyd i ffyrdd arloesol o gyflwyno ei sesiynau. Ac mae wedi gwneud cais llwyddiannus am grant o £3,064 i Gronfa Cymru Actif i roi ei syniadau ar waith.

Sarah Farthing, sy'n rhedeg y clwb, sy'n egluro: *"Rydyn ni'n dysgu Taekwondo ar ffurf Olympaidd. Mae'n gamp gyswllt lawn sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ymladd ac mae'n rhyngweithiol iawn, felly mae cadw pellter cymdeithasol wedi gwneud hyn yn amhosibl! Mae ein haelodau ni wedi bod yn anhygoel ac wedi bod yn gweithio'n galed iawn ar eu ffitrwydd, ond heb y cyswllt maen nhw wedi teimlo bod y profiad yn ailadroddus a diflas. Yn y bôn, nid yw wedi bod yn adlewyrchiad cywir o'r gamp.*

Ychwanegodd Sarah: *"Fe wnaethon ni gais i Gronfa Cymru Actif i'n galluogi i fuddsoddi mewn cit newydd sbon, gan gynnwys bagiau ergydio, hyfforddiant golau adwaith a bocsys neidio. Gan ddefnyddio'r cymhorthion hyfforddi yma, rydyn ni'n gallu dylunio sesiynau cyffrous a deinamig gyda llawer o amrywiaeth. Rydyn ni'n gallu bod yn greadigol iawn gyda nhw. Er enghraifft, fe allwn ni wneud gorsafoedd hyfforddi bychain lle gall aelodau wneud ymarferion a rowndiau wedi'u hamseru. Mae'r cymhorthion hyfforddi yn rhagorol ar gyfer ymwrthedd hefyd - mae'n teimlo'n llawer mwy realistig i gicio bag ergydio yn hytrach na'r aer, ac mae'n fwy diogel hefyd.*

# ASTUDIAETH ACHOS:

## BYWYD NEWYDD I RWYDI CRICED

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Clwb Criced Pontarddulais ger Abertawe wedi gweld nifer y plant ar ei lyfrau'n cynyddu i'r fath raddau fel bod y clwb yn orlawn. Gyda'r holl chwaraewyr yma angen rhannu gofod rhwyd ymarfer dau fae, mae'r clwb yn ei chael yn anodd ymdopi.

Felly, gyda llygaid ar y dyfodol, gwnaeth y clwb gais llwyddiannus am grant Cymru Actif o £10,000 a bydd yn ei ddefnyddio i adnewyddu hen rwyd ymarfer tri bae segur fel ei fod yn cael bywyd newydd.

Dywedodd Ben Roberts, Ysgrifennydd y Clwb: *"Mae Covid wedi ein taro ni'n galed ond cyn iddo daro, roedden ni mewn lle gwych. Rydyn ni wedi mwynhau niferoedd mawr o blant - bechgyn a merched - eisiau cymryd rhan. Ond does dim unrhyw ffordd y gallwn ni ddarparu cyfleoedd i bawb heb uwchraddio'r hen gyfleuster ymarfer. Mae hwn yn brosiect cynaliadwy yn yr hirdymor i gymuned Pontarddulais."*

# ASTUDIAETH ACHOS:

## SYNIAD SYML YN GWNEUD BYD O WAHANIAETH

Weithiau, y pethau symlaf sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac roedd hyn yn sicr yn wir am gynlluniau Clwb Rygbi Llewod Caerdydd i ddefnyddio ei grant o Gronfa Cymru Actif.

Mae'r clwb yn y ddinas yn darparu lle diogel i ddynion hoyw, strêt a thraws chwarae rygbi. Fe'i sefydlwyd yn 2004 ac mae'r clwb yn croesawu tua 35 o chwaraewyr i hyfforddi bob wythnos. Fodd bynnag, nid oedd gan y clwb unrhyw ofod storio a oedd yn golygu bod yr offer, y pecynnau cymorth cyntaf ac, yn fwy diweddar, y cyflenwadau Covid o gyfarpar diogelu personol yn cael eu bwndelu i gar chwaraewr i'w storio yn ei gartref tan y sesiwn nesaf.

Diolch byth, camodd Chwaraeon Cymru i'r adwy gyda grant Cronfa Cymru Actif gwerth £3,652 a fydd yn galluogi'r clwb i brynu cynhwysydd storio i gadw ei offer. Dywedodd Mark Lewis Evans, Ysgrifennydd y Clwb: *"Bydd yn gwella'r hyfforddiant yn fawr. Mae'n golygu bod posib i ni baratoi ar gyfer sesiynau hyfforddi ar unwaith yn hytrach nag aros i'r chwaraewr sydd â'r offer gyrraedd. Mae hefyd yn golygu y bydd posib i ni brynu mwy o offer fel bagiau taclo a tharianau taclo, gyda grant Cymru Actif yn ein helpu gyda'r rhain hefyd."*

Yn ogystal â helpu i gyllido'r cynhwysydd storio a rhywfaint o offer ychwanegol, mae'r grant yn cael ei fuddsoddi hefyd mewn addysgu hyfforddwyr fel bod y clwb yn gallu cynyddu nifer ei Hyfforddwyr Cynorthwyol. Gyda'r clwb yn tyfu ac yn denu mwy o chwaraewyr, mae'r cyllid ar fin ei helpu i gynyddu ei allu i gynnig gwell hyfforddiant, cyfleoedd cymdeithasol a gemau i'r grwpiau hynny sydd wedi'u tangynrychioli y mae'n bodoli i'w cefnogi.



# CIPOLWG AR GRONFA CYMRU ACTIF *

**CYFANSWM NIFER Y CEISIADAU:** **1727**

**(323 DIOGELU, 844 PARATOI, 560 CYNNYDD)**

**CYFANSWM NIFER Y CEISIADAU A GEFNOGWYD:** **1081**

**(169 DIOGELU, 577 PARATOI, 335 CYNNYDD)**

**CYFANSWM Y GOFYNNWYD AMDANO: £12.6M**

**Y SWM Y GOFYNNWYD AMDANO AR GYFARTALEDD: £7,333**

**CYFANSWM A DDYFARNWYD: £3.6M**

**Y SWM A DDYFARNWYD AR GYFARTALEDD: £3,546**

## YR ARDALOEDD GYDA'R NIFER MWYAF O GEISIADAU LLWYDDIANNUS I GRONFA CYMRU ACTIF

**1. Caerdydd** – 114 cais llwyddiannus (£327,034 wedi'i ddyfarnu).
**2. Abertawe** – 94 cais llwyddiannus (£288,474 wedi'i ddyfarnu).
**3. Sir Benfro** – 78 cais llwyddiannus (£244,046 wedi'i ddyfarnu).
**3. Sir Gaerfyrddin** – 74 cais llwyddiannus (£279,094 wedi'i ddyfarnu).
**5. Powys** – 59 cais llwyddiannus (£138,786 wedi'i ddyfarnu).

**CAFODD POB AWDURDOD LLEOL YNG NGHYMRU O LEIAF 25 O GEISIADAU LLWYDDIANNUS**

## Y CHWARAEON GYDA'R NIFER MWYAF O GEISIADAU LLWYDDIANNUS I GRONFA CYMRU ACTIF

**1. Pêl Droed** – 392 cais llwyddiannus (£1,012,400 wedi'i ddyfarnu).
**2. Bowls** – 69 cais llwyddiannus (£127,917 wedi'i ddyfarnu).
**3. Rygbi'r Undeb** – 64 cais llwyddiannus (£385,660 wedi'i ddyfarnu).
**4. Criced** – 63 cais llwyddiannus (£382,669 wedi'i ddyfarnu).
**5. Gymnasteg** – 61 cais llwyddiannus (£252,236 wedi'i ddyfarnu).

(*ystadegau'n gywir hyd at 31/03/21)



# RHAGFYR 2020 - TRECHU ANGHYDRADDOLDEB HILIOL MEWN CHWARAEON

## YMUNODD CHWARAEON CYMRU Â CHYNGHORAU CHWARAEON Y GWLEDYDD CARTREF ERAILL AC UK SPORT YN HYDREF 2020 I DDECHRAU AR DDARN MAWR O WAITH SY'N CEISIO LLEIHAU POB MATH O ANGHYDRADDOLDEB DRWY GREU SYSTEM CHWARAEON SY'N ADLEWYRCHU CYMDEITHAS YN BRIODOL.

Ffocws cychwynnol y gwaith hwn oedd deall yn well y materion sy'n ymwneud ag anghydraddoldeb hiliol er mwyn llywio'r newidiadau sylweddol sydd eu hangen i allu dileu hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol mewn chwaraeon.

Lansiwyd dau brosiect ymchwil ledled y DU, gan gynnwys astudiaeth a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil y Diwydiant Chwaraeon ym Mhrifysgol Sheffield Hallam a oedd yn edrych ar y rhwystrau oedd yn atal cymryd rhan mewn chwaraeon yn ogystal â'r rhwystrau cynnydd gyrfaol i'r rhai sydd eisiau gweithio yn y byd chwaraeon.

Wedyn, ym mis Rhagfyr, drwy ymgynghoriaeth annibynnol AKD Solutions, gofynnwyd i'r cyhoedd gyfrannu a rhannu eu profiadau byw o anghydraddoldeb hiliol a hiliaeth mewn chwaraeon, boed fel cyfranogwyr, athletwyr, hyfforddwyr, gwirfoddolwyr neu rieni, fel rhan o'r ymgyrch **#RhannwchEichStori.**

Roedd cyfweliadau, fforymau ar-lein a phorthol ar-lein yn gyfleoedd i gasglu'r straeon hyn. Anogodd ymgyrch **#RhannwchEichStori** bawb i adrodd eu straeon i helpu i sicrhau newid cyson ac ystyrlon.

Disgwylir i'r canlyniadau llawn gael eu cyhoeddi yn haf 2021, ond amlygodd a chadarnhaodd yr arwyddion cynnar y meysydd lle dylai Chwaraeon Cymru ddechrau datblygu cynlluniau i wneud cynnydd y mae ei wir angen. Ochr yn ochr â chomisiynu cefnogaeth bellach gan ymgynghoriaeth AKD i ddeall a helpu i ddatblygu gwell perthnasoedd o fewn cymunedau ethnig amrywiol, mae cynlluniau wedi'u rhoi ar waith i weithio gyda sefydliadau cymunedol i neilltuo adnoddau'n gyflym i gymunedau sydd heb gael cyllid yn draddodiadol.

## TRECHU ANGHYDRADDOLDEB DRWY FUDDSODDIADAU WEDI'U TARGEDU

Er mwyn helpu i ddylanwadu ar raddfa'r cynnydd mae Chwaraeon Cymru eisiau ei weld, mae wedi newid y ffordd mae'n buddsoddi cyllid fel bod trechu anghydraddoldeb yn cael lle blaenllaw gan bartneriaid a chlybiau. Rhoddir mwy fyth o bwyslais ar gymryd camau cadarnhaol i leihau anghydraddoldeb a gwella'r cyfleoedd i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn chwaraeon ar hyn o bryd.

Gellir gweld enghreifftiau cynnar o'r dull cyllido newydd hwn sy'n arwain at newid cadarnhaol drwy Gronfa Cymru Actif. Nodwyd yn benodol gan dri deg wyth y cant o'r ceisiadau a wnaed i ffrwd 'Cynnydd' Cronfa Cymru Actif (ar 31/03/21) bod eu prosiectau'n ceisio targedu neu roi sylw i anghydraddoldeb.



# ASTUDIAETH ACHOS:

## CLYBIAU CRICED YN CANOLBWYNTIO AR GYMUNED ETHNIG AMRYWIOL

Ymhlith y clybiau chwaraeon sy'n defnyddio Cronfa Cymru Actif i'w helpu i ddenu mwy o gyfranogwyr o gymunedau ethnig amrywiol mae dau glwb criced – Clwb Criced Ynystawe a Chlwb Criced Llandaf.

Clwb Criced Ynystawe yw'r unig glwb criced yn Abertawe ar hyn o bryd i greu adran benodol sy'n diwallu anghenion pobl o gymunedau ethnig amrywiol yn well. Sefydlwyd 'Tawe Strikers' yn 2020 a chawsant gyfle i chwarae sawl gêm ar draws De Cymru pan oedd y cyfyngiadau'n caniatáu. Er mwyn helpu'r adran newydd i ddatblygu a sefydlu'n gadarn yn lleol, gwnaeth y clwb gais llwyddiannus am grant o £5,700 tuag at offer a chostau datblygiad personol.

Ar hyd yr M4 yng Nghaerdydd, mae Clwb Criced Llandaf yn cynllunio nifer o fentrau i gyflwyno merched o gefndiroedd ethnig amrywiol i griced a rhoi llwyfan iddynt maent yn teimlo'n gyfforddus ag ef. Yn 2020, sefydlwyd tîm pêl feddal poblogaidd i ferched gan y clwb, a bellach mae eisiau ysbrydoli cenhedlaeth newydd o ferched ifanc. Gwnaeth y clwb gais am £4,168 i'w roi tuag at offer, cymorth cyntaf, hyfforddiant a llogi lleoliadau, i helpu i adeiladu ar y diddordeb hwnnw.



# IONAWR 2021 – HELPU'R RHAI GAFODD EU TARO GALETAF GAN Y CYFYNGIADAU SYMUD

**WRTH I GYMRU DDECHRAU 2021 MEWN CYFNOD CLO, ROEDD YMGYRCH CYMRU ACTIF UNWAITH ETO'N AWYDDUS I GYNNIG YSBRYDOLIAETH I GAEL Y GENEDL I FOD YN ACTIF GARTREF, ER GWAETHA'R FFAITH BOD TYWYDD Y GAEAF YN HER YCHWANEGOL.**

Gyda chefnogaeth o bob rhan o'r sector, daeth yr hashnod **#CymruActif** ag ystod eang o awgrymiadau, syniadau ac adnoddau at ei gilydd i geisio gwneud bywyd ychydig yn haws, yn iachach ac yn fwy o hwyl.

Yn seiliedig ar ymchwil ComRes Savanta ym mis Mai 2020 a mis Hydref 2020, barnwyd ei bod yn debygol mai plant a phobl hŷn fyddai'n cael eu taro galetaf gan gyfyngiadau symud y Flwyddyn Newydd o ran faint o ymarfer corff roeddent yn ei gael. Felly, roedd Chwaraeon Cymru yn arbennig o awyddus i dynnu sylw at y gweithgareddau a gynigiwyd gan bartneriaid a oedd wedi'u hanelu at y grwpiau hynny o bobl.

I bobl ifanc, cafodd gwefan Chwaraeon Cymru ei hadnewyddu i rannu ystod eang o weithgareddau ac adnoddau yr oedd partneriaid wedi'u cynhyrchu i helpu i gadw plant yn actif tra oeddent yn cael eu haddysgu gartref. Cafodd manteision ymarfer corff eu hyrwyddo'n helaeth yn ystod Wythnos Iechyd Meddwl Plant hefyd, ddechrau mis Chwefror.

## FFOCWS AR BOBL HŶN

Yn ystod mis Ionawr hefyd cyhoeddwyd buddsoddiad o £1m gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o ddewisiadau i bobl dros 60 oed fwynhau ymarfer corff. Mewn ymgyrch i leihau anghydraddoldeb iechyd ac unigrwydd cymdeithasol fel rhan o Gynllun Gweithredu Pwysau Iach, Cymru Iach 2020-22 Llywodraeth Cymru, dyrannwyd y cyllid i Chwaraeon Cymru ac wedyn fe'i rhannwyd ymhlith pob un o'r 22 awdurdod lleol i'w ddefnyddio ar brosiectau hyd at fis Ebrill 2022.

Dechreuodd rhai awdurdodau lleol ddefnyddio'r cyllid i ehangu eu darpariaeth o ddosbarthiadau ar-lein i helpu pobl dros 60 oed i ymarfer gartref, ac aeth eraill ati i gynllunio sesiynau wyneb yn wyneb pwrpasol mewn canolfannau hamdden ynghyd â sesiynau awyr agored creadigol ar gyfer pan fydd y cyfyngiadau wedi codi a phwysau Covid-19 ar wasanaethau hamdden yn llai.

## YMWYBYDDIAETH O IECHYD MEDDWL

Mae pandemig Covid-19 yn cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a lles emosiynol poblogaeth Cymru. Gan fod gan chwaraeon a hamdden gorfforol rôl gref a chadarnhaol i'w chwarae o ran cefnogi iechyd meddwl a lles i bawb, ym mis Chwefror 2021 rhoddodd Chwaraeon Cymru bwrpas newydd i £209,000 o gyllid a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer prosiectau eraill (nad oeddent bellach yn bosibl oherwydd y pandemig) fel bod modd defnyddio'r arian yn lle hynny i gefnogi prosiectau iechyd meddwl. Defnyddiwyd yr arian i ddarparu mwy o fynediad at hyfforddiant iechyd meddwl i'r bobl hynny oedd eisoes yn ymwneud â'r sector chwaraeon, yn ogystal â gwaith ar godi ymwybyddiaeth o'r cysylltiadau cadarnhaol rhwng ymarfer corff ac iechyd meddwl da.

## CRONFA CYMRU ACTIF YN CEFNOGI POB OEDRAN

Yn gynnar yn 2021, parhaodd Chwaraeon Cymru hefyd i annog clybiau chwaraeon i ystyried sut gallent wneud cais i Gronfa Cymru Actif er mwyn gwella cyfleoedd i bobl iau a phobl hŷn yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw ddemograffeg arall.

# ASTUDIAETH ACHOS:

## TARGEDU ANTUR YNG NGHOETIROEDD NEWBRIDGE

Cyn bo hir, bydd ceiswyr antur ifanc yn gallu cael hwyl mewn canolfan chwaraeon targed newydd yn y coetiroedd uwch ben Newbridge, diolch i Gronfa Cymru Actif.

Bydd y rhai sy'n chwilio am antur debyg i Bear Grylls yn gallu rhoi cynnig ar saethu reiffl aer, saethyddiaeth, taflu tomahawk, yn ogystal â'r gamp gymharol newydd, Sbrint Targed, ym Mharc Gweithgarwch CRAI.

Gwnaeth Ardal Sgowtiaid CRAI gais llwyddiannus am grant o £13,486 sy'n cael ei ddefnyddio i brynu offer o ansawdd uchel. Dywedodd Dave Cook, sy'n gwirfoddoli i Sgowtiaid CRAI: *"Ein breuddwyd ni yw bod y lle'n ganolbwynt pwysig i'r gymuned, gan gynnig cyfle i bobl ifanc fwynhau chwaraeon nad ydyn nhw wedi rhoi cynnig arnyn nhw erioed o'r blaen."*

# ASTUDIAETH ACHOS:

## CHWARAEWYR HŶN YW FFOCWS CAE NEWYDD

Mae darn anniben o dir a oedd unwaith yn gartref i ambell gar a losgwyd yn achlysurol yn cael ei drawsnewid yn gae pêl droed a fydd yn gwasanaethu aelodau hŷn cymuned yn Abertawe.

Ddeunaw mis yn ôl, roedd gan Glwb Pêl Droed Waunarlwydd weledigaeth i helpu pobl hŷn lleol i gadw'n actif drwy sefydlu tîm feterans, ond nid oedd ganddo unrhyw le iddynt chwarae. Er bod y clwb wedi arwyddo prydles hirdymor ar gyfer gofod pedair erw yn y pentref, dim ond hanner ohono oedd yn addas ar gyfer pêl droed.

*"Doedd dim posib defnyddio hanner arall y gofod o gwbl,"* esboniodd Cadeirydd y Clwb, Dean Thomas-Welch. *"Roedd rhaid i chi fod yn ofalus iawn rhag sathru baw ci a bod yn onest. Ond roedden ni'n teimlo pe baem ni'n gallu atgyweirio'r draeniad a thacluso'r safle, fe allem greu ail gae newydd a byddai'n berffaith i'r feterans."*

Mae help wedi cyrraedd ar ffurf grant o bron i £4,000 o Gronfa Cymru Actif tuag at y prosiect. *"Rydyn ni wedi edrych ar y cyfleuster a'i droi'n rhywbeth cadarnhaol iawn i'r gymuned,"* meddai Dean.

*"Bydd y cae newydd yn golygu bod ein chwaraewyr hŷn ni'n gallu hyfforddi a chwarae gemau ar unrhyw ddiwrnod penodol ac ni fydd rhaid i ni ofyn iddyn nhw fynd i'w pocedi am yr arian ychwanegol i dalu am logi cyfleusterau. Gall cost fod yn broblem fawr gan fod llawer ohonyn nhw'n dibynnu ar fudd-daliadau fel eu hunig ffynhonnell o incwm. Mae llawer o'r chwaraewyr feteran wedi cael eu heffeithio'n ariannol yn ystod cyfyngiadau symud Covid felly mae arian yn brin ar gyfer gweithgareddau heb fod yn hanfodol fel pêl droed.*

Ychwanegodd Dean: *"Mae'r cyfyngiadau symud wedi bod yn galed ar bawb, ond mae llawer o'n chwaraewyr hŷn ni wedi gorfod gwarchod eu hunain. Mae pêl droed yn ffordd wych o drechu unigrwydd ac rydyn ni'n edrych ymlaen at adeg pan allwn ni fynd yn ôl allan a chwarae."*

# CHWEFROR 2021 – CEFNOGI GWEITHWYR LLAWRYDD A DARPARWYR PREIFAT

## CYHOEDDODD LLYWODRAETH CYMRU BECYN ADFER CHWARAEON A HAMDDEN GWERTH £14M YN HYDREF 2020 A OEDD YN GALLUOGI CHWARAEON CYMRU I GYNNIG CYMORTH ARIANNOL PELLACH I'W BARTNERIAID YN OGYSTAL Â GRWPIAU ERAILL YN Y SECTOR CHWARAEON YNG NGHYMRU NAD OEDDENT WEDI DERBYN CYMORTH ETO.

Erbyn mis Chwefror 2021, roedd yr arian hwn wedi cael ei ddefnyddio gan Chwaraeon Cymru i ddatblygu dwy gronfa newydd – Cronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon a Chronfa Darparwyr Preifat y Sector Chwaraeon. Roedd diogelu dyfodol chwaraeon drwy ddiogelu sefydliadau, cyfleusterau a swyddi'n parhau i fod yn bryder uniongyrchol i Chwaraeon Cymru. Dyma'r tro cyntaf i Chwaraeon Cymru gefnogi busnesau ac unigolion sy'n gwneud elw. Roedd y pecyn, er ei fod yn sylweddol, yn adnodd cyfyngedig ac roedd angen blaenoriaethu ar gyfer y rhai mwyaf anghenus neu'r rhai â'r gallu i gael yr effaith fwyaf ymhlith grwpiau targed.

### CRONFA GWEITHWYR LLAWRYDD CHWARAEON

Cynhaliodd y Gronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon ddau gylch ymgeisio – ym mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021 – gan gynnig cyllid ar gyfer gweithwyr hunangyflogedig a gweithwyr llawrydd yn y sector chwaraeon yr oedd eu gwaith yn cyflwyno gweithgareddau'n uniongyrchol i gyfranogwyr, fel hyfforddwyr chwaraeon, hyfforddwyr personol, hyfforddwyr ffitrwydd a hyfforddwyr dawns. Y gronfa oedd y gyntaf o'i bath yn y DU ar gyfer gweithwyr llawrydd chwaraeon.

Pan agorodd cam cyntaf y gronfa ym mis Tachwedd 2020, darparodd grant o £1,500 i 346 o unigolion. Ym mis Ionawr 2021, gyda'r cyfyngiadau symud yn rhoi mwy fyth o bwysau ar weithwyr llawrydd a oedd eisoes wedi colli incwm yn ystod 2020, cynyddwyd swm y grant i £2,500 ac ehangwyd y meini prawf mewn ymgais i helpu mwy fyth o bobl. Cafodd pawb a wnaeth gais llwyddiannus am £1,500 yn ystod y cam cyntaf y £1,000 ychwanegol hefyd.

Ar ôl i ail gam y gronfa gau ym mis Chwefror 2021, roedd y cyfanswm a ddyrannwyd yn y ddau gam yn £2.71m, gan gefnogi 1,084 o weithwyr hunangyflogedig a llawrydd.

### CRONFA DARPARWYR PREIFAT Y SECTOR CHWARAEON

Lai nag wythnos ar ôl i'r Gronfa Gweithwyr Llawrydd Chwaraeon gau, agorodd Cronfa Darparwyr Preifat y Sector Chwaraeon. Nod y gronfa hon oedd cefnogi'r ystod eang o fusnesau chwaraeon a hamdden masnachol sy'n helpu i gadw'r cyhoedd yng Nghymru yn actif.

Roedd campfeydd masnachol, stiwdios dawns a ffitrwydd, parciau trampolinio a chanolfannau dringo ymhlith y busnesau preifat a allai wneud cais am grantiau o £5,000 i £15,000 (yn dibynnu ar drosiant). Roedd y rhestr helaeth o fusnesau a allai fod yn gymwys i gael arian hefyd yn cynnwys canolfannau marchogaeth, gweithredwyr trawsffit, canolfannau chwaraeon dŵr a chyfleusterau 5 bob ochr.

Oherwydd y galw mawr am gymorth ariannol, sicrhawyd cyllid ychwanegol gwerth £1.3m gan Lywodraeth Cymru i ategu Cronfa Darparwyr Preifat y Sector Chwaraeon.

Cafwyd cyfanswm o 418 o geisiadau gan fusnesau masnachol i Gronfa Darparwyr Preifat y Sector Chwaraeon. O blith yr ymgeiswyr hynny, roedd 91% yn llwyddiannus, gan arwain at ddyrannu mwy na £4.28m i gefnogi 382 o fusnesau.

> **MAE'R GRONFA GWEITHWYR LLAWRYDD CHWARAEON YN RHYDDHAD ENFAWR, NID YN UNIG OHERWYDD EICH BOD YN GALLU HAWLIO RHYWFAINT O'R INCWM RYDYCH CHI WEDI'I GOLLI YN ÔL, OND HEFYD OHERWYDD BOD POSIB LLEDDFU RHYWFAINT AR Y PRYDER AM DDYFODOL ANSICR**

VERNON CORNISH, HYFFORDDWR FFITRWYDD SY'N GWEITHIO YNG NGHAERDYDD





# MAWRTH 2021 – GWNEUD CHWARAEON YN GRYFACH WRTH I GYMRU ADFER O'R PANDEMIG

**BYDD DULL BUDDSODDI NEWYDD BEIDDGAR YN GANOLOG I BOB MATH O FUDDSODDIAD FYDD CHWARAEON CYMRU YN EI DDYRANNU I WNEUD CHWARAEON YNG NGHYMRU YN GRYFACH WRTH I NI ADFER O'R PANDEMIG.**

Wrth ddatblygu strategaeth newydd Chwaraeon Cymru yn 2019/20, cydnabuwyd bod angen newid y ffordd mae adnoddau'n cael eu dyrannu er mwyn gwella lefelau cyfranogiad a dileu'r rhwystrau a oedd yn parhau ar gyfer grwpiau difreintiedig a lleiafrifol.

O ganlyniad, cynlluniwyd dull newydd o fuddsoddi, yn dilyn ymgysylltu helaeth â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, sy'n seilio penderfyniadau cyllido ar dair elfen allweddol:

- **DIRNADAETH, GWYBODAETH A DATA**
- **GALLU**
- **ATEBOLRWYDD**

Er nad yw'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn debyg i unrhyw un arall, mae'r egwyddorion craidd hyn wedi bod wrth wraidd y penderfyniadau buddsoddi mawr, yn fwyaf nodedig wrth ddyfarnu cyllid drwy Gronfa Cymru Actif.

O 2021/22 ymlaen, bydd Chwaraeon Cymru hefyd yn defnyddio'r dull buddsoddi newydd i benderfynu faint o arian fydd yn cael ei ddyrannu i'r partneriaid mae'n eu cyllido, gan ddechrau gyda Chyrff Rheoli Cenedlaethol. Cyflwynwyd dwy o'r elfennau – gallu ac atebolrwydd – eisoes yn ystod 2020/21 ar gyfer rhai partneriaid fel rhan o ddull gweithredu fesul cam.

## Y DEFNYDD O DDIRNADAETH

Bydd y partneriaid sy'n cael eu cyllido'n cael eu rhannu'n ddau grŵp. Bydd y rhai y mae eu ffigurau cyfranogiad a galw'n cael eu hadrodd yn yr Arolwg Chwaraeon Ysgol ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cael eu hystyried yn bartneriaid a 'sbardunir gan ddata'. Bydd yr adnoddau a ddyfernir iddynt yn cael eu mesur yn seiliedig ar yr wybodaewth a gasglwyd gan yr arolygon cenedlaethol hynny, a bydd partneriaid yn cael mwy o hyblygrwydd ac ymreolaeth wedyn i ddefnyddio cyllid lle mae eu gwybodaeth eu hunain yn awgrymu y bydd yn cael yr effaith fwyaf.

Cynigir dull sy'n seiliedig ar gais i ddarpar bartneriaid lle nad oes ystadegau swyddogol a data cenedlaethol ar gael.

## SEFYDLIADAU MWY MEDRUS AC ATEBOL SY'N CAEL EU HARWAIN GAN WYBODAETH

Yn allweddol, rhaid i bob partner posibl brofi eu bod yn gallu defnyddio arian cyhoeddus yn gyfrifol. Bydd angen iddynt fodloni gofynion penodol sy'n dangos eu gallu mewn meysydd gan gynnwys llywodraethu a diogelu.

Ynghyd â dirnadaeth a gallu, atebolrwydd yw'r drydedd elfen bwysig yn y model newydd. Anogir partneriaid i roi cyfrif gonest o'u gweithredoedd a sut byddant yn sbarduno gwelliant yn eu sefydliad ac ar draws y sector. Bydd sefydliadau mwy medrus ac atebol, sy'n cael eu harwain gan wybodaeth, hefyd yn ymgeiswyr llawer cryfach i gyllidwyr eraill posibl.

## DELIO Â LLAI NEU FWY O GYLLID

O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, gall dull buddsoddi newydd arwain at gynnydd / gostyngiad nodedig yn y symiau o gyllid mae partneriaid yn eu derbyn gan Chwaraeon Cymru.

Bydd partneriaid sy'n cael eu sbarduno gan ddata sydd i fod i gael cynnydd mewn cyllid o dan y dull buddsoddi newydd yn cael cynnydd graddol a fydd yn dibynnu ar eu gallu eu hunain i reoli mwy o fuddsoddiad. Byddant hefyd yn cael cymorth i wneud unrhyw welliannau gallu graddol sy'n ofynnol er mwyn iddynt gael mwy o arian.

I gydnabod y straen ariannol presennol a achosir gan Covid-19, bydd gan unrhyw bartneriaid sydd i fod i dderbyn llai o arian drwy'r dull buddsoddi newydd tan 2025 i drosglwyddo'n llawn i'w trefniadau cyllido newydd. Bydd hyn yn caniatáu i bartneriaid baratoi'n ddigonol ar gyfer y dyfodol.

## GOHIRIO'R AROLWG CHWARAEON YSGOL

Mae un o elfennau allweddol yr wybodaeth a ddefnyddiwyd yn y dull buddsoddi newydd – yr Arolwg Chwaraeon Ysgol – wedi'i ohirio o 2021 tan 2022 er mwyn caniatáu mwy o amser i ddeall effeithiau llawn pandemig Covid-19, gan gynnwys unrhyw newidiadau tymor hwy i gyfraddau galw a chyfranogi mewn chwaraeon ledled Cymru.

## DYSGU AR-LEIN CLIP

Er mwyn helpu sector chwaraeon Cymru i gael ei arwain fwy gan wybodaeth, mae'r Rhaglen Cyfathrebu, Dysgu a Dirnadaeth (CLIP) newydd wedi cael ei lansio ar wefan Chwaraeon Cymru. Wedi'i chynllunio i fod yn hwb dysgu, mae CLIP yn rhoi mynediad i gynnwys a digwyddiadau unigryw, yn ogystal â chyfleoedd rhwydweithio gyda chydweithwyr ar draws y byd chwaraeon yng Nghymru.









# DATBLYGIADAU ALLWEDDOL ERAILL YN 2020/21

# AMCANION Y CYNLLLUN BUSNES

Amlinellodd Cynllun Busnes Chwaraeon Cymru ar gyfer 2020/21 11 o brosiectau allweddol i ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn. Er gwaetha'r ffaith bod pandemig Covid-19 wedi amharu ar y cynlluniau hynny, cyflawnwyd y rhan fwyaf o'r amcanion. Nid oedd ambell un yn bosibl oherwydd digwyddiadau byd-eang.

- **Gweithredu'r model adnoddau newydd gyda'r holl bartneriaid.** Mae'r cyllid ar gyfer 2021/22 yn seiliedig ar y dull buddsoddi newydd.
- **Gweithredu Chwaraeon Gogledd Cymru fel y Bartneriaeth Chwaraeon gyntaf yng Nghymru.** Cymeradwywyd yr achos busnes yn ffurfiol ym mis Rhagfyr 2020. Bydd y bartneriaeth newydd yn dechrau gweithredu o fis Ebrill 2021 ymlaen.
- **Adolygiad strategol o rôl a phwrpas y ddwy Ganolfan Genedlaethol.** Parhaodd yr adolygiad drwy gydol y flwyddyn, gyda diweddariadau manwl yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Adolygu Cyfleusterau yn rheolaidd.
- **Datblygu diwylliant y sefydliad.** Mae cysylltiad agos rhwng hyn a'r ailgynllunio sefydliadol a gwblhawyd yn 2020/21 (edrychwch isod). Bydd y meysydd nesaf yn canolbwyntio ar barhau i ymgorffori gwerthoedd Chwaraeon Cymru ar draws y busnes ac esblygu'r prosesau rheoli perfformiad.
- **Cynnal adolygiad o swyddogaeth y Weithrediaeth i sicrhau ei bod yn ategu'r sefydliad wedi'i ailgynllunio ac yn cyd-fynd â'n strategaeth newydd.** Cwblhawyd hyn ym mis Chwefror 2021.
- **Edrych ar ddull o drawsnewid digidol sy'n galluogi Chwaraeon Cymru i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg.** Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu a chwmpasu cychwynnol fel bod posib creu map ffordd a fydd yn nodi sut manteisir ar bob cyfle i ymgorffori egwyddorion digideiddio ar draws holl feysydd allweddol gwaith Chwaraeon Cymru.
- **Ymateb i fentrau Llywodraeth Cymru fel Pwysau Iach, Cymru Iach, Lle i Chwaraeon a'r cwricwlwm.** Mae'r meysydd allweddol a weithredwyd (er eu bod wedi'u diwygio fel ymateb i gyfyngiadau COVID-19) yn cynnwys gwaith ar y buddsoddiad o £1m gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o ddewisiadau i bobl dros 60 oed i fwynhau ymarfer corff.
- **Creu Cynllun Materion Cyhoeddus ac Eiriolaeth yn y cyfnod cyn etholiadau Cynulliad Cymru 2021.** Ymgynghorwyd yn helaeth â staff a rhanddeiliaid allanol fel sail i safbwyntiau polisi clir ar draws ystod o feysydd.
- **Parhau â'r cynnydd tuag at ddatblygu hwb gwybodaeth chwaraeon.** Lansiwyd Athrofa Cymru ar gyfer Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon – cydweithrediad a oedd yn cynnwys Chwaraeon Cymru a'r wyth prifysgol yng Nghymru.
- **Paratoi athletwyr Cymru sy'n cymhwyso ar gyfer TeamGB a ParalympicsGB.** Oherwydd gohirio Gemau Tokyo 2020, ni ymgymerwyd â'r maes gwaith hwn.
- **Cynnal Hwb Dadansoddi Perfformiad ar gyfer TeamGB.** Oherwydd gohirio Gemau Tokyo 2020, ni ymgymerwyd â'r maes gwaith hwn.



## *AILGYNLLUNIO SEFYDLIADOL*

Mae Chwaraeon Cymru wedi profi llawer o newidiadau mewnol yn ystod 2020/21, ar ôl cwblhau ailgynllunio sefydliadol.

Cynhaliwyd yr ailgynllunio i sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru y strwythur, y swyddogaethau a'r bobl briodol i ddatblygu ei strategaeth a galluogi chwaraeon yng Nghymru i ffynnu. Roedd yr ailgynllunio yn hwyluso mwy o weithio trawsadrannol, gan alluogi i Chwaraeon Cymru ymateb yn hyblyg i bandemig Covid-19. Roedd mwy o ffocws hefyd ar les staff drwy gydol y flwyddyn i ailbwysleisio pwysigrwydd cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

# DADANSODDI PERFFORMIAD

## DATA'R AROLWG CENEDLAETHOL

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithio'n agos gyda thîm datblygu'r Arolwg Cenedlaethol yn yr adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni elfen Chwaraeon a Hamdden Awyr Agored Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae rhai o'r canfyddiadau'n helpu i fesur cynnydd tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r arolwg a gynhaliwyd yn 2019/20 yn dangos y sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn uniongyrchol cyn yr achosion o Covid-19 yng Nghymru.

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, arhosodd canran yr oedolion (dros 16 oed) a gymerodd ran mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith yr wythnos yn ddigyfnewid yn 32% (tua 808,000 o bobl). Hoffai 49% o'r holl oedolion (1,236,000 o bobl), wneud mwy o chwaraeon neu weithgarwch corfforol a hoffai Chwaraeon Cymru eu cefnogi i wneud hynny.

Un o'r newidiadau allweddol yng nghyfeiriad strategol newydd Chwaraeon Cymru yw sefydlu swyddogaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, y gobeithir y bydd yn hyrwyddo datblygu polisi unedig ar draws y Llywodraeth i sicrhau, os yw pobl yn segur, eu bod yn cael cyfle i fod yn actif, a bod y rhwystrau'n cael eu dileu gymaint â phosibl. Gwelodd Chwaraeon Cymru hefyd, drwy arolygon ComRes (ym mis Mai 2020, mis Hydref 2020 a mis Mawrth 2021) bod pobl yn teimlo bod cadw'n actif, yn enwedig yn ystod pandemig Covid, yn bwysig. Canfu'r arolwg hefyd bod nifer y bobl oedd eisiau gwirfoddoli mewn chwaraeon tua theirgwaith yn uwch na'r 10% a oedd yn wirfoddolwyr gweithgar mewn chwaraeon cyn i'r pandemig daro.

Roedd yr elfennau galluogi mwyaf cyffredin i bobl wneud mwy o chwaraeon yn cynnwys bod yn llai prysur yn y gwaith, bod yn iau, a bod â llai o ymrwymiadau teuluol.

Y gweithgaredd awyr agored mwyaf poblogaidd (yn ystod y pedair wythnos flaenorol) yn 2019/20 oedd cerdded mwy na dwy filltir (gan gynnwys crwydro neu gerdded bryniau / mynyddoedd), a nofio, campfa neu ddosbarthiadau ffitrwydd oedd y gweithgareddau dan do mwyaf poblogaidd.

Y flwyddyn nesaf, mae disgwyl i'r arolwg edrych yn wahanol iawn wrth i Chwaraeon Cymru weithio gyda thîm yr Arolwg Cenedlaethol i ailgynllunio'r adran chwaraeon i'w defnyddio mewn cyfweliadau dros y ffôn yn 2021-22, oherwydd Covid-19.[1]

## ATHROFA CYMRU AR GYFER GWEITHGARWCH CORFFOROL, IECHYD A CHWARAEON

Yn ystod 2020/21, sefydlwyd Athrofa Cymru ar gyfer Gweithgarwch Corfforol, Iechyd a Chwaraeon (WIPHAS) – cydweithrediad rhwng Chwaraeon Cymru a holl Brifysgolion Cymru – yn ffynhonnell ganolog ar gyfer casglu, comisiynu ac ymateb i anghenion ymchwil y sector. Bydd WIPHAS yn ceisio darparu tystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg i ymateb i'r meysydd diddordeb y tynnwyd sylw Chwaraeon Cymru atynt gan ei rwydwaith o bartneriaid.

## NEWIDIADAU I NOFIO AM DDIM

Cyn i'r pandemig atal gweithgarwch mewn pyllau nofio, diwygiwyd y fenter Nofio Am Ddim gyda'r nod o wella iechyd a lles pobl drwy gynyddu nifer y bobl sy'n mwynhau nofio neu weithgareddau dŵr eraill. Y grŵp targed blaenoriaeth oedd pobl ifanc o dan 16 oed o gymunedau difreintiedig. Er mwyn sicrhau bod y fenter yn cyflawni'r amcan newydd, helpodd Chwaraeon Cymru i gynllunio adnodd casglu data a thempled ar gyfer casglu astudiaethau achos.

1*Mae Chwaraeon Cymru yn gynhyrchydd Ystadegau Swyddogol ac, o'r herwydd, rydym yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, y llywodraeth a sefydliadau eraill bod y data rydym yn eu cynhyrchu o werth, o ansawdd uchel ac yn ddibynadwy.*

# CYLLID Y LOTERI AC YCHWANEGOLRWYDD

Mae'n ofynnol i holl ddosbarthwyr y Loteri adrodd ar eu polisïau a'u harferion.

Mae cyllid y Loteri'n wahanol i gyllid y Llywodraeth ac ni ddylai gymryd lle gwariant y Trysorlys. Os yw hynny'n briodol, gall ategu cyllid, rhaglenni a pholisïau'r Llywodraeth a chyllid, rhaglenni a pholisïau eraill.

Wrth i ni asesu ceisiadau am arian, rydym yn sicrhau bod ychwanegolrwydd yn cael ei ystyried. Rydym yn gweithio'n agos â sefydliadau blaengar er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni cyllido'n ychwanegu gwerth at gyllid y Llywodraeth a chyllid arall, ond heb gymryd ei le.

## ADOLYGU GWEITHGAREDDAU DOSBARTHU'R LOTERI GENEDLAETHOL

Yn ystod 2020/21 dosbarthodd Chwaraeon Cymru ddyfarniadau o dan nifer o raglenni grant a gyllidir gan y Loteri.

## GRANTIAU CYFALAF

Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan a gwella perfformiadau mewn chwaraeon a hamdden gorfforol yw prif nod y gronfa yn ei gweithgareddau. Cyflwynodd Chwaraeon Cymru ei gynlluniau ar gyfer dosbarthu arian y loteri i brosiectau cyfalaf fis Medi 1994. Defnyddir proses ymgeisio dau gam ar gyfer pob cais cyfalaf. Mae cam cyntaf y cais yn galluogi i'r ffocws gwreiddiol fod ar y manteision ychwanegol i chwaraeon ac ar yr amcanion, y nodau a'r rheolaeth arfaethedig sy'n berthnasol i'r prosiect. Mae'r ymgeiswyr yn ceisio cymeradwyaeth dros dro i'w cynllun cyn buddsoddi fel y bo angen er mwyn cyflwyno'r cais llawn, sef ail gam y broses.

Bodlonwyd cyfanswm o £2,190,000 (2019/20 £2,805,000) o gynigion grantiau cyfalaf yn ystod y flwyddyn. Bu gostyngiad o £615,000 yn y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer cytundebau wedi'u llofnodi ynghylch grantiau cyfalaf yn 2020/21 (gostyngiad o £850,000 yn 2019/20).

## GRANTIAU REFENIW

Roedd cyfanswm y cynigion grantiau refeniw a fodlonwyd yn ystod y flwyddyn yn £12,268,000 (2019/20 £10,399,000). Cynyddodd y swm a ddarperir yn y cyfrifon ar gyfer cytundebau wedi'u llofnodi ynghylch grantiau refeniw £1,869,000 yn 2020/21 (gostyngiad o £89,000 yn 2019/20).

## SYMUDIADAU YM MALANS Y LOTERI HYD AT 31 MAWRTH 2021

Mae'r tabl canlynol yn dangos y symudiadau ar bob balans sy'n cael eu dal yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn:

| Balans ar 1 Ebrill 2020 | Colled Heb ei Gwireddu | Incwm a Dderbyniwyd (Net) | Arian o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | Balans ar 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|---|
| (£000) | (£000) | (£000) | (£000) | (£000) |
| 15,027 | - | 16,334 | (18,550) | 12,811 |

Mae'r tabl yn dangos gostyngiad yn y balans sy'n cael ei ddal o £2.216 miliwn, o gymharu â chynnydd o £0.362 miliwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

# CANLYNIADAU ARIANNOL

Cyflwynir canlyniadau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr. Roedd cyfanswm yr incwm net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i £2,651,000 (cyfanswm incwm cynhwysfawr o £9,812,000 yn 2019/20). Trosglwyddwyd y swm yma i'r cronfeydd cadw.

Mae datganiad y sefyllfa ariannol ar gyfer 2020/21 yn dangos ffigur o £7,579,000 (2019/20 £10,230,000) ar gyfer cyfanswm yr asedau net.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol sy'n cymryd y bydd Chwaraeon Cymru yn parhau i weithredu yn y dyfodol rhagweladwy.

## CYNALIADWYEDD

Mae Chwaraeon Cymru yn mynd ati i sefydlu polisïau a mentrau sy'n ceisio lleihau effaith ei weithrediadau ar yr amgylchedd. Mae'r Strategaeth Amgylcheddol Gorfforaethol yn ei lle'n llawn ar ôl cael ei chymeradwyo'n flaenorol gan y Bwrdd. Targed Chwaraeon Cymru yw gostyngiad blynyddol o 3%. Oherwydd y pandemig a'r gofyniad i weithio gartref os gallwch chi, bu gostyngiad o 32% mewn allyriadau CO2 eleni. Fodd bynnag, nid yw'r data'n ystyried y defnydd o ynni yng nghartrefi cyflogeion wrth weithio gartref, a fyddai'n gwrthbwyso'r gostyngiad hwn.

Er nad yw wedi'i gofnodi yn y ffigurau hyn, bu gostyngiad sylweddol hefyd yn ein hôl troed carbon ehangach am nad oedd staff yn cymudo i'r swyddfa drwy gydol y pandemig. Mae rhai o'r gostyngiadau hyn yn debygol o barhau yn ystod y blynyddoedd i ddod, gan fod Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i agwedd gyfun tuag at yr amgylchedd gwaith yn y dyfodol gyda staff yn gallu rhannu eu hamser rhwng y cartref a'r swyddfa.

Yn ystod 2020/21, mae Chwaraeon Cymru wedi defnyddio Skype, Teams a Sharepoint yn llawn i gynnal busnes fel arfer.

Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn parhau i gynnig Cynllun Beicio i gyflogeion, er mwyn lleihau'r defnydd o geir. Gall cyflogeion hawlio lwfans milltiroedd o 20c y filltir ar gyfer pob taith fusnes a wneir ar feic.

Yn ystod mis Mawrth 2021, prynodd Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru drydydd car cronfa hybrid, felly mae pob car cronfa bellach yn gwbl hybrid, a fydd yn cyfrannu at ostyngiad pellach mewn allyriadau carbon yn y blynyddoedd i ddod. Mae'r cynlluniau ar gyfer 2021/22 yng Nghaerdydd yn cynnwys cynnig i osod dau bwynt gwefru EV yn eu lle.

Gostyngodd Sgôr Weithredol Perfformiad Ynni (DEC) Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru am y bedwaredd flwyddyn yn olynol ac mae'n parhau i fod ymhell islaw'r sgôr nodweddiadol ar gyfer y math o adeilad ac mae'r ganolfan yn parhau i weithredu yn unol â'r canllaw Hierarchaeth Gwastraff ac yn gweithredu System Rheoli Amgylcheddol .

Oherwydd cyfyngiadau Covid, roedd y math o wastraff a'r lefelau'n amrywio o gymharu â blwyddyn 'draddodiadol'. Roedd hyn oherwydd y gweithdrefnau a'r prosesau newydd gofynnol i gadw pobl yn ddiogel wrth ddefnyddio'r cyfleusterau yn y ganolfan. Cyfeirir at rai o'r newidiadau gofynnol isod:

- Defnydd cynyddol o bowlenni tafladwy ar gyfer bwyd (yn ystod y cyfyngiadau) wrth ei weini fel tecawê – planhigyn yw sail y bowlenni hyn ac maent yn compostio – byddant yn dadelfennu o fewn 12 wythnos os byddant yn mynd i safle tirlenwi.
- Wedi newid o saws potel i sachau un defnydd.
- Mae'r defnydd o olew wedi lleihau'n aruthrol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sy'n golygu bod yr olew sy'n cael ei ailgylchu wedi lleihau. Mae hwn fel arfer yn cael ei gludo o'r safle a'i droi'n fio-ddisel.

- Cafwyd gwared ar fygiau tsieina o'r ystafelloedd a'u newid am gwpanau tafladwy, ond unwaith eto mae'r rhain yn compostio ac yn dadelfennu os byddant yn mynd i safle tirlenwi.
- Cyflwynwyd pecynnau hylendid yn yr ystafelloedd, yn cynnwys jel llaw, cadachau diheintio (ar gyfer arwynebau) a chadachau gwrthfacteria i'r gwestai. Mwy o wastraff.

Er bod y gwastraff wedi cynyddu'n gyffredinol, roedd hyn yn ganlyniad i gasgliad gwastraff sylweddol o ddeunydd wedi'i ailgylchu o gymharu â 2019/20. Cafwyd gwared ar lawer iawn o wastraff gwyrdd oherwydd bod gwaith daear a thirlunio wedi'i gwblhau. Bu gostyngiad mewn mathau eraill o gasglu gwastraff gan gynnwys gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus i safleoedd tirlenwi o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol oherwydd gweithgarwch cyfyngedig yn y canolfannau cenedlaethol oherwydd cyfyngiadau Covid.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2020/21 mae Plas Menai wedi parhau i weithredu ei Gynllun Gwella Amgylcheddol ac mae'r gwaith adnewyddu parhaus ar yr adeilad wedi rhoi cyfleoedd pellach i uwchraddio i systemau mwy effeithlon o ran ynni. Yn dilyn y gwelliannau a'r buddsoddiadau a wnaed yn yr adeilad yn ystod y blynyddoedd blaenorol, gwelwyd gostyngiad pellach yn y sgôr / radd DEC, sydd bellach yn D, gyda sgôr o 89 yn cynnal y cynnydd da sydd wedi gweld y radd yn dod i lawr o F yn ystod y 4 blynedd diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn, mae Plas Menai wedi bod yn gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon ar ffyrdd o leihau ein hôl troed carbon ymhellach. Fel rhan o'r gwaith hwn, amcangyfrifir bellach bod 70% + o oleuadau'r ganolfan wedi'u huwchraddio i LED ynni isel, mae'r uwchraddio diweddar ar yr holl oleuadau awyr agored wedi ychwanegu at y ffigur hwn.

Ym mis Ebrill 2020, comisiynwyd y cyntaf o'r paneli solar 350MW. Fodd bynnag, nid yw budd llawn y paneli'n hysbys oherwydd bod y ganolfan ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn oherwydd y pandemig.

Yn ystod Mawrth 2021, gosodwyd ail banel solar 350MW yn y Ganolfan. Bydd hyn yn helpu i sicrhau arbedion lleihau ynni pellach, ynghyd â lleihau'r gost drydan. Mae'r 2 banel ar y toeau sy'n wynebu'r De a'r Gorllewin ym mlaen ac ochr yr adeilad. Rhagwelir y bydd y ddau banel yn cynhyrchu 50% o'r trydan a ddefnyddir ym Mhlas Menai yn y dyfodol.

Fel rhan o'r un prosiect, gosodwyd tri phwynt gwefru EV yn eu lle, mae dau ohonynt at ddefnydd cwsmeriaid ac un ar gyfer y ganolfan, ar ôl prynu cerbyd 7 sedd cwbl drydanol.

## CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Yn ystod 2021/22, bydd system wresogi newydd yn cael ei gosod yn ei lle. Gan weithio ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Carbon, nodwyd mai pwmp gwres, yn defnyddio dŵr, neu system ffynhonnell ddaear, fydd yn sicrhau'r budd gorau. Gan ddefnyddio Asiantaeth Caffael Cymru, mae gwaith ar droed ar hyn o bryd i ddod o hyd i gwmni i baratoi'r fanyleb dechnegol lawn. Yn dilyn hyn, disgwylir i'r gwaith ddechrau ym mis Hydref 2021, i'w gomisiynu'n llawn erbyn mis Mawrth 2022.

Mae elfennau eraill y prosiect hwn yn cynnwys ailosod y system wresogi o amgylch yr adeilad, gosod trydydd panel solar a system batri yn benodol ar gyfer llety'r ganolfan a chynorthwyo gyda thrydaneiddio'r gwres yn yr ystafelloedd gwely.

**SWYDDOG CYFRIFO: S POWELL**
**7FED GORFFENNAF 2021**

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

## ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

#### Y BWRDD

Yn ystod 2020/21, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol:

| | |
|---|---|
| Mr Lawrence Conway** | (Cadeirydd Penodwyd 01.09.2018) |
| Ms Pippa Britton** | (Is Gadeirydd Ailbenodwyd 01.10.2020) |
| Mr Ashok Ahir* | (Ailbenodwyd 01.10.2020) |
| Mr Ian Bancroft | (Ailbenodwyd 01.10.2020) |
| Ms Alison Thorne* | (Ailbenodwyd 01.10.2020) |
| Ms Judi Rhys MBE | (Penodwyd 01.09.2018) |
| Yr Athro Leigh Robinson | (Penodwyd 01.09.2018) |
| Mr Phil Tilley | (Penodwyd 01.09.2018) |
| Mr Martin Veale JP */** | (Penodwyd 01.09.2018) |
| Ms Rajma Begum | (Penodwyd 01.09.2019) |
| Mr Dafydd Trystan Davies | (Penodwyd 01.09.2019) |
| Ms Delyth Evans | (Penodwyd 01.09.2019) |
| Ms Nicola Mead-Batten* | (Penodwyd 01.09.2019) |
| Ms Hannah Murphy | (Penodwyd 01.09.2019) |

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Ms S Powell |
| Prif Weithredwr Dros Dro*** | Mr B Davies OBE (Yn weithredol rhwng 01.12.2019 a 28.06.2020) |

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
** Aelod o'r Pwyllgor Tâl
*** Prif Weithredwr Dros Dro yn ystod absenoldeb mabwysiadu'r Prif Weithredwr

### DATGAN BUDDIANNAU

Mae holl Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen yn manylu ar unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2020/21. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24, yn cael ei datgelu yn Nodyn 17 y cyfrifon hyn.

### DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae ei systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

### CANFOD A RHEOLI RISG

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 64.

### POLISI TALU CYFLENWYR A'R PERFFORMIAD A GYFLAWNWYD

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Deddf Llog 1998) ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu 100% o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y

flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021, talodd Chwaraeon Cymru 100% (2019/20 99%) o'i holl anfonebau gan gadw at delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn anelu at dalu i gyflenwyr, pan fo modd, o fewn 10 diwrnod yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Yn ystod 2020/21, talwyd 93% o'r trafodion o fewn yr amserlen hon.

## OFFERYNNAU ARIANNOL

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.10 y datganiadau ariannol.

## TÂL ARCHWILWYR

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio natur a maint y gwaith heb fod yn archwilio a wneir ganArchwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2020/21, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilwyr. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 8 yn y datganiadau ariannol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol.

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R PRIF WEITHREDWR

O dan y Siarter Brenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1974, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o faterion Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys ei wariant net, y newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- Cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol;
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd y gronfa'n parhau i weithredu; a
- Sicrhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn deg, cytbwys a dealladwy

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae fy nghyfrifoldebau perthnasol i fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys fy nghyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

**SWYDDOG CYFRIFO: S POWELL**
**7FED GORFFENNAF 2021**

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2020/2021

### CYFLWYNIAD

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

### LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### Y BWRDD

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Gweledigaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru. Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o drawsdoriad eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd.

Ni phenodwyd unrhyw aelodau newydd o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, ond ailbenododd Llywodraeth Cymru 4 aelod presennol o'r Bwrdd am dymor pellach hyd at fis Medi 2023. Yr aelodau hynny o'r Bwrdd yw Pippa Britton (Is Gadeirydd), Ashok Ahir, Ian Bancroft ac Alison Thorne.

Ers 31 Mawrth 2021, ailbenodwyd Lawrence Conway hefyd yn Gadeirydd am 12 mis arall hyd at fis Awst 2022. Penodwyd Sarah Powell, y Prif Swyddog Gweithredol, yn Brif Swyddog Gweithredol Gymnasteg Prydain a bydd yn gadael Chwaraeon Cymru ym mis Hydref. Mae Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cytuno y bydd y Cyfarwyddwr presennol, Brian Davies, yn cael ei benodi ar sail tymor penodol fel y Prif Weithredwr o fis Hydref ymlaen. Bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith y bydd Cadeirydd newydd yn ei swydd yn 2022 i ganiatáu i'r Cadeirydd newydd arwain unrhyw broses recriwtio yn y dyfodol. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru hefyd ailbenodi 4 aelod o'r Bwrdd yr oedd eu tymhorau gwasanaethu i ddod i ben ym mis Medi 2021 - Judi Rhys, yr Athro Leigh Robinson, Phil Tilley a Martin Veale YH.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ei Fwrdd, sydd bellach yn cynnwys cynrychiolaeth o 57% o ferched, 14% o bobl ethnig amrywiol ac mae 7% yn ystyried eu hunain fel unigolion ag anabledd.

Gwelir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn y tabl isod.

| **Aelod Bwrdd** | **Cyfarfod Bwrdd** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 5) | **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4) |
|---|---|---|
| Lawrence Conway (Cadeirydd) | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Pippa Britton (Is Gadeirydd) | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Ashok Ahir | 5 / 5 | 3 / 4 |
| Ian Bancroft | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Alison Thorne | 4 / 5 | 4 / 4 |
| Judi Rhys MBE | 4 / 5 | Amherthnasol |
| Yr Athro Leigh Robinson | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Martin Veale YH | 5 / 5 | 4 / 4 |
| Phil Tilley | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Rajma Begum | 3 / 5 | Amherthnasol |
| Dafydd Trystan Davies | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Delyth Evans | 5 / 5 | Amherthnasol |
| Nicola Mead-Batten | 5 / 5 | 4 / 4 |
| Hannah Murphy | 5 / 5 | Amherthnasol |
| **(Aelodau Annibynnol – Pwyllgor Archwilio yn unig)** | | |
| Gareth Jones | Amherthnasol | 4 / 4 |
| Robert Williams | Amherthnasol | 4 / 4 |
| **Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb** | **94%** | **96%** |

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae dau bwyllgor parhaol arall wedi'u sefydlu; Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Tâl.

### *POLISI CHWYTHU'R CHWIBAN*

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Yn ystod 2020/21, nid oedd Chwaraeon Cymru yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau a gofnodwyd. Rydym yn credu bod y polisi'n effeithiol ac mae gan y staff fynediad llawn iddo, os oes angen. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n achlysurol, gyda Llawlyfr y Staff.

### *Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD RISG*

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gefnogi gyda chyflawni ei gyfrifoldebau o ran risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli, yr archwiliadau a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol);
- Mae'r risgiau y tynnir sylw atynt yn cael eu neilltuo i Gyfarwyddwyr Corfforaethol a manylir ar gamau gweithredu i liniaru ar y gofrestr risg.

Yn ystod 2020/21, parhaodd Chwaraeon Cymru i ddefnyddio'r 'Fframwaith Sicrwydd' i ategu'r broses rheoli risg. Pwrpas y Fframwaith yw cofnodi lefel y sicrwydd, yn fewnol ac yn allanol, yn y prosesau busnes er mwyn darparu i'r Swyddog Cyfrifo a'r Bwrdd y sicrwydd gofynnol. Caiff hyn ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys hyd at saith aelod, gyda dau'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod annibynnol. Cyfarfu'r pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfradd bresenoldeb gyffredinol yr aelodau'n 96%.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Gweithredu ac effeithiolrwydd y fframwaith rheoli a sicrwydd risg;
- Adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- Yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'u fformat;
- Arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol;
- Cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol;
- Cydymffurfiaeth reoleiddio;
- Adolygu cyllid grant;
- Adolygu systemau ariannol craidd;
- Adolygu costau aelodau'r Bwrdd;
- Adolygu'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch;
- Cytuno ar gynllun archwilio mewnol y flwyddyn;
- Monitro perfformiad archwilio mewnol ac allanol ac adolygu'r cynllun archwilio allanol.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor y Cadeirydd Archwilio mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y Pwyllgor i'r Bwrdd. Mae'r systemau TG yn sicrhau bod rheolau llym mewn grym parthed diogelwch ffisegol data. Yn 2020/21, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth, gwendidau rheoli arwyddocaol na thwyll wedi'u canfod ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol.

### *Y PWYLLGOR TÂL*

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod unwaith y flwyddyn ac mae'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn bresennol yn y cyfarfod. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 68.

### *YR UWCH DÎM RHEOLI GWEITHREDOL*

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos fel rheol, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Cynhelir cyfarfodydd misol ffurfiol sy'n dilyn agenda a chedwir cofnodion i sicrhau ein bod yn cofnodi penderfyniadau ar lefel gorfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n chwarterol.

O ganlyniad i argyfwng pandemig Covid-19, roedd rhaid i'r Weithrediaeth wneud penderfyniadau y byddai disgwyl iddynt gael eu cyflwyno ger bron y Bwrdd efallai o dan amgylchiadau arferol. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn bosib oddi mewn i'r cyfyngiadau amser a orfodwyd gan yr argyfwng a'r dyddiadau yr oedd rhaid i'r Weithrediaeth a Llywodraeth Cymru gadw atynt, ac o dan yr amgylchiadau hynny, gwnaeth y Prif Weithredwr benderfyniadau ar ôl trafod gyda'r Cadeirydd.

Er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy wrth symud ymlaen, cytunodd cyfarfod mis Ebrill o'r Bwrdd i ffurfio 2 is-grŵp newydd o'r Bwrdd fel a ganlyn:

- Is-grŵp i ystyried y materion hynny yr oedd y Prif Weithredwr angen cytundeb brys iddynt, ac na allai aros nes cynnal cyfarfod llawn o'r Bwrdd ar gyfer cymeradwyaeth. Cynigiodd y Cadeirydd bod y grŵp hwn yn cynnwys y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a hyd at ddau aelod Bwrdd arall (a ddewisir ar sail ad hoc yn bennaf fel ymateb i'w hargaeledd).

- Is-grŵp yn gyfrifol am ystyried strategaeth adfer tymor hir ar gyfer y sefydliad a'r sector chwaraeon yn gyffredinol. Byddai'r grŵp hwn hefyd yn monitro perthnasedd ac addasrwydd y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon a strategaeth newydd Chwaraeon Cymru.

Yn ogystal â'r is-grwpiau hyn, cytunodd y Bwrdd ym Mhwyllgor mis Medi i ffurfio is-grŵp Amrywiaeth o'r Bwrdd i herio, cefnogi a goruchwylio gwaith Chwaraeon Cymru wrth gyflawni yn erbyn ei Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn fewnol ac o ran ei gefnogaeth i'r sector.

## EFFEITHIOLRWYDD Y BWRDD A'R PWYLLGOR

Fel ymateb i bandemig Covid-19, cynhaliwyd pob cyfarfod Bwrdd ac is-bwyllgor yn rhithwir yn 2020/21. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd adlewyrchu ar sut gellid gwella strwythur y cyfarfodydd hyn a chafodd newidiadau ymarferol eu hymgorffori i ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal yn fwy effeithiol.

Cynhaliwyd adolygiad effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn a chyflwynwyd nifer o newidiadau ymarferol o ran datblygu'r Bwrdd a datblygiad personol aelodau'r Bwrdd. Parhaodd aelodau'r bwrdd i gymryd rhan yn anffurfiol rhwng cyfarfodydd ac maent hefyd wedi'u cynnwys ar y rhestr ddosbarthu ar gyfer diweddariadau staff a phartneriaid gan y tîm Cyfathrebu a Digidol.

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn a chyflwynwyd nifer o newidiadau ymarferol. Hefyd cyflwynwyd nifer o sesiynau datblygu Bwrdd drwy gydol y flwyddyn ar bynciau'n amrywio o Drawsrywedd mewn Chwaraeon i'n dull o gynnal Ymchwil i Effaith Covid.

Cafodd cyfathrebu y tu allan i gyfarfodydd y Bwrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, ei ddatgan fel cyfle allweddol i helpu'r Bwrdd i gael gwybodaeth gyson a chadw mewn cysylltiad â'r sefydliad.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gefnogi'r Tîm Gweithredol a phenderfynodd yn ystod y flwyddyn enwebu aelodau unigol o'r Bwrdd i weithio'n agos gydag aelodau o'r Weithrediaeth ar bob prosiect mawr, er enghraifft y Prosiect Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol.

Mae'r Bwrdd yn fodlon ag ansawdd a maint yr wybodaeth a dderbynnir er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau doeth.

## RHEOLI RISG

**Pwrpas y system o reolaeth fewnol.**

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau'r Trysorlys. Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

Er bod rhaid addasu'r system o reolaeth fewnol i ymateb i'r pandemig a mwyafrif y staff yn gweithio o bell, nid yw hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol na gwendidau rheoli.

## Y GALLU I DDELIO Â RISG

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Rydym wedi cofnodi Polisi a Strategaeth Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut dylid canfod, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr neu gyfarwyddwr corfforaethol priodol a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu yn gyfrifoldeb y penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw cyfarwyddwr corfforaethol a / neu reolwr.

## *Y FFRAMWAITH RISG A RHEOLI*

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau busnes, ariannol a chyflwyno gwasanaeth yn deillio o nodau trefniannol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn ateb electronig sydd ar gael i reolwyr perthnasol drwy gyfrwng porthol ar-lein. Mae trefniadau rheoli risg Chwaraeon Cymru yn cael eu harchwilio'n fewnol yn flynyddol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan yr Uwch Reolwyr, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny. Mae'r Fframwaith Sicrwydd yn cael ei adolygu mewn ffordd debyg gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg.

## *MONITRO GRANTIAU*

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl. Er mwyn cefnogi'r sector drwy'r pandemig, cynyddodd cwantwm y grantiau a ddyfarnwyd yn sylweddol yn 2020/21. Cynhaliwyd mesurau rheoli priodol drwy gydol y cyfnod hwn a buom yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner i sicrhau nad oedd y rhai a oedd yn eu derbyn yn gallu defnyddio sawl ffynhonnell gymorth at yr un diben.

## *RISGIAU ALLWEDDOL*

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg, a gweithredir i'w lliniaru. Adolygir y Risgiau Corfforaethol a'r camau gweithredu i'w rheoli yn rheolaidd. Dylanwedir ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risg neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ym mhob cyfarfod pwyllgor ac yn trafod ac yn rhoi adborth i'r Weithrediaeth.

O edrych ymlaen, mae nifer o risgiau allweddol wedi cael eu datgan gan Chwaraeon Cymru ac maent wedi'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae risg sylweddol o hyd y bydd effaith ariannol a darparu pandemig Covid-19 ar bartneriaid a'r sector chwaraeon ehangach yn atal cynnydd Strategaeth Chwaraeon Cymru a'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru. Fel ymateb i'r risg hon, drwy gyfuniad o gyllid Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol sydd wedi cael pwrpas newydd, a chyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae Chwaraeon Cymru wedi darparu £17.5m o gefnogaeth i'r sector drwy gydol 2020/21. Wrth i ni symud i'r flwyddyn ariannol newydd, byddwn yn parhau i werthuso effaith Covid-19 ar bobl Cymru ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i deilwra'r ffrydiau cyllid cymunedol a'r adnoddau sefydliadol rydym yn eu darparu i'r sector a'r cyhoedd.

Er bod Chwaraeon Cymru yn eithriadol ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gyllideb gynyddol ar gyfer 2021/22, mae'r gost ariannol gynyddol o fodloni taliadau diffyg pensiwn, ynghyd â cholli incwm o gau ein dwy Ganolfan Genedlaethol yn ystod y cyfyngiadau symud, yn parhau i fod yn her enfawr wrth geisio cyflawni amcanion Chwaraeon Cymru.

Hefyd mae cyfyngiadau symud Covid-19 wedi arwain at darfu sylweddol ar weithrediadau a'n systemau TGCh arferol. Mae gan Chwaraeon Cymru systemau a dulliau rheoli cadarn yn eu lle fel bod staff yn gallu gweithio o bell, ond byddai tarfu sylweddol ar fusnes pe bai'r systemau hyn yn methu.

Mae'r risgiau eraill ar y gofrestr risg Gorfforaethol yn cynnwys methu cydymffurfio â phob deddfwriaeth, colli gwybodaeth sensitif o bosib, neu gysylltiad â gwybodaeth o'r fath, a methu gwneud y defnydd gorau posib o dechnoleg a data.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd gall a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau.
Y Bwrdd sy'n rheoli'r dyhead risg a chaiff ei adolygu'n flynyddol.
Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n effeithiol i'w rheoli ac yn ei gostwng i lefel ddiogel.
Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gynt yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, rydym yn edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni.
Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg doeth ac wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol, am y chweched flwyddyn yn olynol, wedi rhoi "sicrwydd sylweddol" cyffredinol i Chwaraeon Cymru fel gradd ar gyfer y flwyddyn. Hefyd maent wedi rhoi'r categori gradd uchaf i drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg Chwaraeon Cymru. Yn ystod y flwyddyn, roedd yr adroddiadau archwilio mewnol yn datgan cyfleoedd i wella'r systemau rheoli.

Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw fater risg "uchel" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 9 o argymhellion a 6 phwynt gweithredu. O blith yr argymhellion a wnaed, roedd 8 (89%) yn cael blaenoriaeth 'isel' c 1 (11%) yn cael blaenoriaeth 'ganolig'. Mae hyn yn welliant sylweddol ar berfformiad y llynedd.

O ran gweithredu dilynol, roedd 8 allan o'r 16 argymhelliad blaenorol a wnaed wedi cael eu gweithredu adeg yr archwiliad, ac roedd y 5 oedd yn weddill wedi cael eu gweithredu erbyn diwedd y flwyddyn. Ailaseswyd amserlenni'r 3 argymhelliad oedd yn weddill gan y Weithrediaeth oherwydd y pandemig a chafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wybod am y cynnydd.

## *RHEOLAETH FEWNOL*

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn sail i'm hadolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli Risg Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau hyn.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2019/20 gan Deloitte LLP, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol ac asesu risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

## *DATBLYGIADAU PARHAUS*

Er bod y system gyfredol o reolaeth fewnol yn un gref, ceir bob amser feysydd sydd angen neu a fydd yn elwa o welliannau.

Gan adeiladu ar waith y llynedd, eleni gwelwyd ffocws pellach ar fesurau rheoli gwybodaeth a seibrddiogelwch. Mae ailgynllunio sefydliadol wedi ychwanegu adnodd ychwanegol at y swyddogaeth hon, ac rydym wedi cynyddu ein galluoedd hyfforddi staff a chanfod bygythiadau yng ngoleuni'r ffaith bod ein gweithlu'n fwy gwasgaredig.

Rydym hefyd wedi darparu cymorth seibrddiogelwch a llywodraethu ychwanegol i'r sector yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gryfhau'r mesurau rheoli sydd ar waith i reoli'r risg sy'n gynhenid wrth fuddsoddi cyllid cyhoeddus mewn sefydliadau trydydd parti, tra hefyd yn cynyddu eu hatebolrwydd.

***SWYDDOG CYFRIFO: S POWELL***
***7FED GORFFENNAF 2021***

## ADRODDIAD TÂL A STAFF

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n anelu at sicrhau cynnal a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gydag Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Mae'r holl bolisïau'n cael eu gwirio o ran cydraddoldeb cyn cael eu gweithredu. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Hefyd rydym yn cadw at y 'Safon Cydraddoldeb ar gyfer Chwaraeon' a'r cynlluniau 'Positif am Anabledd'.

Ar ôl gweithredu'r strwythur tâl a graddfa newydd yn llwyddiannus o fis Medi 2019 ymlaen, mae gan y cyflogeion ddewis i naill ai aros gyda'r telerau cyfredol neu optio i mewn i'r strwyhtur newydd a chael mynediad at fanteision hyblyg uwch.

Yn ystod 2020/21, cynhaliodd Chwaraeon Cymru ailgynllunio sefydliadol, a arweiniodd at gyfran fawr o staff yn symud i rôl newydd ar draws y sefydliad. Rydym yn parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw gyda chyflog cychwynnol o £10.25 yr awr o leiaf. Dyfarnwyd dyfarniad tâl cost byw o 2.5% i'r holl staff yn ystod y flwyddyn.

## BUDDSODDI YN EIN POBL

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i gyflawni achrediad Buddsoddwyr Mewn Pobl ac mae'n parhau i adeiladu ar yr argymhellion a wnaed yn yr asesiad diwethaf (Gwanwyn 2019) wrth i ni ddiweddaru ein polisïau a gweithdrefnau.

## DATA ABSENOLDEB SALWCH

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2020/21 (2019/2020) fel a ganlyn:

| Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd | Cyfanswm y Cyflogeion (Cyfwerth ag Amser Llawn) | Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen |
|---|---|---|
| 520.84<br>(811.11) | 156.50<br>(160.70) | 3.33<br>(5.05) |

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2020/21 yw 1.70%. Mae hwn yn welliant ar gyfradd 2019/20 o 2.25%, a oedd yn is na chyfradd 2018/19 o 2.61% ac sy'n gymharol â'r cyfraddau diwethaf a gyhoeddwyd gan yr ONS (y Swyddfa Ystadegau Gwladol) ar gyfer y sector cyhoeddus, sef 1.8%.

O blith yr 1.70%, cafodd 1.42% eu dosbarthu fel tymor hir a 0.28% fel tymor byr. Fel rhan o ffocws parhaus ar reoli absenoldeb ac iechyd cyflogeion yn effeithiol, bydd polisi absenoldeb salwch Chwaraeon Cymru yn parhau i gael ei adolygu yn ystod 2021/22, gyda chefnogaeth gan yr Undeb Llafur cydnabyddedig (PCS).

Roedd trosiant y staff ar gyfer 2020/21 yn 9.17% (2019/20 12.61%), ac roedd 5.16% ohono oherwydd i gyflogeion adael yn dilyn diswyddo (2019/20 6.3%).

Mae'r Grŵp Ymgysylltu â Staff a sefydlwyd y llynedd wedi parhau i ddarparu cefnogaeth i'r Tîm Arweinyddiaeth ac mae lles staff ac ymgysylltu â hwy wedi bod wrth galon ein ffordd o feddwl, o ystyried y sôn mawr sydd wedi bod am effeithiau'r cyfyngiadau symud ar les corfforol a meddyliol. Mae'r mentrau penodol eleni wedi cynnwys Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, sesiynau Ymwybyddiaeth Straen, prynu staff Headspace gyda mynediad i'r holl staff eu defnyddio a dynodi amser lles ychwanegol i staff.

## CYNLLUN PENSIWN

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogeion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogai'n dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.6 a nodyn 18 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru yn cyfrannu 6.5% a'r cyflogeion yn cyfrannu 1.5%.

## POLISI TÂL

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisïau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan Senedd Cymru a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gefnogir gan gyflogai dirprwyedig Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru. Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr gan y Pwyllgor Tâl.

## CONTRACTAU GWASANAETH

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Mae gan y Cadeirydd hawl i gyfradd ddyddiol o £337 ac mae'n cael contract i weithio deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio tridiau y mis.

## CYFNOD RHYBUDD

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o dri mis o derfynu'r contract.

## AMSER CYFLEUSTER YR UNDEB LLAFUR

Mae Chwaraeon Cymru yn caniatáu i aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen undeb y PCS weithio ar faterion yr undeb, pan mae angen, yn ystod oriau gwaith a bydd y cyflogeion yn parhau i dderbyn eu hawl i gyflog llawn.

## CYFLOG Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

### TÂL

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr gyflog crynswth o £102,000 (2018/19 £97,400). Yn ystod y flwyddyn, y cyflog gwirioneddol a dderbyniwyd oedd £96,000 gan fod y Prif Weithredwr wedi bod ar absenoldeb mabwysiadu am ran o'r flwyddyn, gan dderbyn Tâl Mabwysiadu Statudol. Tra oedd y Prif Weithredwr ar absenoldeb mabwysiadu, penodwyd Brian Davies yn Brif Weithredwr Dros Dro yn weithredol o 1af Rhagfyr 2019 tan 28ain Mehefin 2020. Y cyflog crynswth oedd £102,000 tra oedd yn Brif Weithredwr dros dro. Yn ystod y flwyddyn y cyflog gwirioneddol a dderbyniwyd oedd £78,000. Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys am daliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

## MANTEISION MEWN NWYDDAU NEU GYNNYRCH

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

## HAWLIADAU CYFLOG A PHENSIWN

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am gyflog a phensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 74. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.

## NIFER Y STAFF A CHOSTAU CYSYLLTIEDIG (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn cysylltiedig ar gyfartaledd | 2020/21 | 2019/20 | 2020/21 | 2019 / 20 |
|---|---|---|---|---|
| | | | £'000 | £'000 |
| **Costau cyflog crynswth** | | | | |
| Cadeirydd L Conway* | 0.20 | 0.20 | 18 | 18 |
| Prif Weithredwr S Powell | 0.25 | 0.25 | 24 | 24 |
| Staff Eraill** | 51.62 | 50.03 | 2,774 | 2,658 |
| | | | 2,816 | 2,700 |
| Cyflogau a thâl | | | 2,066 | 1,918 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | | | 216 | 205 |
| Costau Pensiwn eraill | | | 687 | 620 |
| Addasiadau IAS19 | | | (153) | (43) |
| | | | 2,816 | 2,700 |

## DADANSODDIR COSTAU'R STAFF YMHELLACH, FEL A GANLYN:

| | 2020/2021 | 2019 / 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Gweinyddu | 1,143 | 1,194 |
| Cefnogaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon i Athletwyr | 1,673 | 1,506 |
| | 2,816 | 2,700 |

* Mae nifer y staff a gyflogir ar gyfartaledd i gyd yn staff contract parhaol. Penodir y Cadeirydd i weithio 2 ddiwrnod yr wythnos ac mae'n treulio 50 y cant o'r amser hwnnw ar weithgareddau'r loteri.

**Yn cynnwys Brian Davies yn gyfwerth ag amser llawn am y tri mis fel Prif Swyddog Gweithredol dros dro a naw mis fel Cyfarwyddwr.

## *TÂL (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)*

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri | Cyflog £000 | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2020/21<br>(2019/20) | 2020/21<br>(2019/20) | 2020/21<br>(2019/20) | 2020/21<br>(2019/20) |
| Mr Lawrence Conway | Cadeirydd | 50%<br>(50%) | 35-40<br>(35-40) | -<br>- | 35-40<br>(35-40) |
| Ms Pippa Britton | Is Gadeirydd | 50%<br>(50%) | 10 - 15<br>(10 – 15) | -<br>- | 10 - 15<br>(10 – 15) |
| Ms Sarah Powell | Prif Weithredwr | 25%<br>(25%) | 95 – 100<br>(95 – 100) | 35,000<br>(25,000) | 125 – 130<br>(120 –125) |
| Mr Brian Davies OBE[1] | Cyfarwyddwr Corfforaethol / Prif Weithredwr Dros Dro | 80%<br>(25%) | 75 - 80<br>(65 – 70) | 49,000<br>(37,000) | 125-130<br>(100 – 105) |
| Mr Paul Randle[2] | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 25%<br>(25%) | 65 – 70<br>(70 – 75) | 20,000<br>(23,000) | 90 – 95<br>(90 – 95) |
| Mr Graham Williams | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 25%<br>(25%) | 65 - 70<br>(60 – 65) | 47,000<br>(40,000) | 115 - 120<br>(100 – 105) |
| Mr Steven Morgan | Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai | 0%<br>(0%) | 55 - 60<br>(50 – 55) | 15,000<br>(19,000) | 65 - 70<br>(70 - 75) |
| Mr Craig Nowell[3] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Ganolfan Genedlaethol | (0%)<br>- | 40-45<br>- | 13,000<br>- | 55 - 60<br>- |
| Mr Malcolm Zaple[4] | Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | 0%<br>(0%) | 35 - 40<br>(60 – 65) | (12,000)<br>(14,000) | 20 – 25<br>(70 – 75) |
| Mr Richard Parks[5] | Aelod o'r Cyngor | -<br>(50%) | -<br>(0 – 5) | -<br>- | -<br>(0 – 5) |
| Ms Johanna Sheppard[6] | Aelod o'r Cyngor | -<br>(50%) | -<br>(0 - 5) | -<br>- | -<br>(0 –5) |
| Mr Ashok Ahir | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 – 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 – 10) |
| Mr Ian Bancroft | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 – 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 – 10) |
| Ms Alison Thorne | Aelod o'r Cyngor | 50%<br>(50%) | 5 - 10<br>(5 – 10) | -<br>- | 5 - 10<br>(5 – 10) |

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri | Cyflog £000 | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2020/21 (2019/20) | 2020/21 (2019/20) | 2020/21 (2019/20) | 2020/21 (2019/20) |
| Ms Judi Rhys MBE | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Yr Athro Leigh Robinson | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Mr Phil Tilley | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Mr Martin Veale JP | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 – 10) | - - | 5 - 10 (5 – 10) |
| Ms Rajma Begum[7] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 – 10 (0 – 5) | - - | 5 – 10 (0 – 5) |
| Mr Dafydd T Davies[7] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 – 10 (0 – 5) | - - | 5 – 10 (0 – 5) |
| Ms Delyth Evans[7] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 – 10 (0 – 5) | - - | 5 – 10 (0 – 5) |
| Ms Nicola Mead-Batten[7] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 – 10 (0 – 5) | - - | 5 – 10 (0 – 5) |
| Ms Hannah Murphy[7] | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 – 10 (0 – 5) | - - | 5 – 10 (0 – 5) |

1. Prif Weithredwr Dros Dro o 01.12.2019 tan 28ain Mehefin 2020. Cyfran y Loteri 80% fel Cyfarwyddwr / 25% fel Prif Weithredwr Dros Dro
2. Penodwyd 2il Ionawr 2019, ymddiswyddodd 28ain Chwefror 2021, band cyflog cyfwerth ag amser llawn 75k – 80k
3. Penodwyd 13eg Gorffennaf 2020, band cyflog cyfwerth ag amser llawn 55k – 60k
4. Gadawodd 30ain Mehefin 2020 a nawr yn aelod gweithredol o'r cynllun pensiwn, band cyflog cyfwerth ag amser llawn 60k – 65k
5. Ymddiswyddodd 7fed Gorffennaf 2019
6. Ymddeolodd 30ain Ebrill 2019
7. Penodwyd 1af Medi 2019

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/ gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

## BUDDIANNAU PENSIWN YR UWCH REOLWYR (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2020/21 | Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2021 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2021 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2020 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Ms Sarah Powell**<br>Prif Weithredwr | 0.0 – 2.5<br>(0.0 – 2.5) | 35 – 40<br>(40 – 41) | 547 | 495 | 42 |
| **Mr Brian Davies OBE**<br>Prif Weithredwr Dros Dro / Cyfarwyddwr Corfforaethol* | 2.5 - 5.0<br>(0.0 - 2.5) | 20 – 25<br>(15 – 20) | 371 | 242 | 122 |
| **Mr Paul Randle****<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol | 0.0 – 2.5<br>(0.0 – 2.5) | 0 – 5<br>(0 – 5) | 66 | 45 | 14 |
| **Mr Graham Williams**<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol | 2.5 – 5.0<br>(2.5 – 5.0) | 25 – 30<br>(35 – 40) | 494 | 432 | 57 |
| **Mr Steven Morgan**<br>Rheolwr Canolfan Chwaraeon Dŵr Plas Menai | 0.0 – 2.5<br>(0.0 – 2.5) | 5 - 10<br>(0 - 5) | 132 | 114 | 13 |
| **Mr Craig Nowell**<br>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru*** | 0.0 – 2.5<br>(0.0 – 2.5) | 0 – 5<br>(0 - 5) | 8 | 0 | 5 |
| **Mr Malcolm Zaple**<br>Rheolwr Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru**** | -0.0. - 2.5<br>(-0.0 - 2.5) | 30 - 35<br>(45 - 50) | 606 | 601 | 4 |

*Penodwyd Brian Davies yn Brif Weithredwr Dros Dro ar 01.12 2019 tan 28.06.2020, tra oedd Sarah Powell ar absenoldeb mabwysiadu. Unwyd dau bensiwn Caerdydd a'r Fro

**Ymddiswyddodd 28.02.2021

***Penodwyd 13.07.2020

**** Gadawodd 30ain Mehefin 2020 a nawr yn aelod gweithredol o'r cynllun pensiwn.

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun.

Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwarïau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

## GWIR GYNNYDD MEWN GWERTH TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## DATGELIADAU CYFLOG TEG (YN AMODOL AR ARCHWILIAD)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

| | Nifer 2020/2021 | Nifer 2019/2020 |
|---|---|---|
| Band Cyfanswm Tâl y Cyfarwyddwr sy'n cael y Tâl Mwyaf (£ '000) | 100 – 105 | 95 – 100 |
| Cyfanswm Tâl Canolrifol | 31,678 | 30,558 |
| Cymhareb | 3.2 | 3.2 |

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres sydd wedi cael eu defnyddio,
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon y Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Amrywiodd y tâl o £19,800 i £101,560 (amrywiodd tâl 2019/20 o £19,300 i £97,400)

## POLISI TRETH AR GYFER Y RHAI A BENODIR ODDI AR Y GYFLOGRES

Ar 31 Mawrth 2021, roedd 7 trefniant a oedd wedi bodoli (2019/20, 6 threfniant) ac yn eu lle am 4 blynedd neu fwy. Mae pob trefniant wedi cael eu hasesu ac wedi cael eu dosbarthu fel rhai'n gweithredu y tu allan i IR35. Mae Chwaraeon Cymru yn fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol.

## CYFANSODDIAD Y STAFF


Mae cyfansoddiad staff y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 75% gwryw a 25% benyw. O blith y cyflogeion parhaol sy'n weddill mae 48% yn wrywod a 52% yn fenywod.

**SWYDDOG CYFRIFO: S POWELL**
**7FED GORFFENNAF 2021**


***ATEBOLRWYDD SENEDDOL AC ADRODDIAD ARCHWILIO***

**Atebolrwydd Wrth Gefn o Bell (yn amodol ar archwiliad) -** Nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw atebolrwydd wrth gefn o bell.

Grantiau Cyfalaf





Costau Gweinyddu




**Tueddiadau gwariant tymor hir** – gwelir y tueddiadau gwariant tymor hir yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf isod:

Grantiau Refeniw




**Colledion, taliadau arbennig ac incwm sylfaenol (yn amodol ar archwiliad)** - Yn ystod 2020/21 ni wnaed unrhyw golledion, taliadau arbennig na rhoddion. Hefyd ni fu unrhyw ffioedd sylfaenol nac incwm ffioedd.

***SWYDDOG CYFRIFO: S POWELL***
***7FED GORFFENNAF 2021***

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR A'R ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R TAI SENEDDOL A'R SENEDD

### BARN AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Incwm Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llif Arian, y Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifo arwyddocaol. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifo sydd wedi'u datgan ynddynt.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifo Rhyngwladol fel y'i dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM.

Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth wedi'i harchwilio. Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2021 ac o'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- maent wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

### BARN AR REOLEIDD-DRA

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### SAIL Y FARN

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio (ISAs) (y DU) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n datgan ei bod yn ofynnol i mi a fy staff gydymffurfio â Safon Foesegol Adolygedig 2019 y Cyngor Adroddiadau Ariannol.

Rwyf wedi dewis defnyddio'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'r endidau a restrir. Rwyf yn annibynnol ar Gyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

### CASGLIADAU PERTHNASOL I FUSNES GWEITHREDOL

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod defnydd Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o o leiaf ddeuddeng mis o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol wrth ragweld y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

### *GWYBODAETH ARALL*

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel wedi'u harchwilio, y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi. Mewn perthynas â fy archwiliad ar y datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos wedi'i chamddatgan fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ôl yn y cyswllt hwn.

### *BARN AR FATERION ERAILL*

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud fel rhan o'r archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i gael eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol, a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993;
- mae'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

### *MATERION YR WYF YN ADRODD ARNYNT DRWY EITHRIAD*

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru a'i amgylchedd a sicrhawyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Perfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd. Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy staff yn ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i gael eu harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- nid yw rhai datgeliadau am dâl a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM wedi'u gwneud; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

### CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R SWYDDOG CYFRIFO AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae Cyngor Chwaraeon Cymru a'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am y canlynol:

- paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- mae angen mesurau rheoli mewnol fel y mae'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n penderfynu er mwyn galluogi paratoi datganiad ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiad sylfaenol, oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifo busnes gweithredol oni bai fod y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifo'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru yn parhau i gael ei ddarparu yn y dyfodol.

### CYFRIFOLDEBAU'R ARCHWILYDD AM ARCHWILIO'R DATGANIADAU ARIANNOL

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993. Fy amcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad sylfaenol, oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn sylfaenol os gellir yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu yn gyfan gwbl, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylfaenol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr, archwiliad mewnol Cyngor Chwaraeon Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n ymwneud â:
    - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; ac
    - y mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys mesurau rheoli Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n ymwneud â Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, y Siarter Brenhinol a Rheoli Arian Cyhoeddus.
- trafod ymhlith y tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabod refeniw a phostio cyfnodolion anarferol; a
- sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyfrif Dosbarthu'r Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru. Roedd y deddfau a'r rheoliadau

allweddol a ystyriais yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993, y Siarter Brenhinol, Rheoli Arian Cyhoeddus a Chyfraith Cyflogaeth.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- holi rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo'n arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Hefyd, cyfathrebais am ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm ymgysylltu, gan gynnwys arbenigwyr mewnol, a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad. Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

Hefyd mae'n ofynnol i mi sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad ac unrhyw ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol y dof ar eu traws yn ystod fy archwiliad.

### *ADRODDIAD*

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

***GARETH DAVIES***
***RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL***

Dyddiad:

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157–197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Chwaraeon Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

# CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2021

| | Nodyn | 2020/21<br>£'000 | 2019/20<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | |
| Cynigion grant a wnaed yn ystod y flwyddyn | 3 | 14,352 | 3,259 |
| Llai ymrwymiadau a ddaeth i ben neu a ddiddymwyd | 3 | (28) | (194) |
| Costau staff | 7 | 2,816 | 2,700 |
| Dibrisiant | 9 | 38 | 40 |
| Costau gweithredu eraill | 8 | 450 | 481 |
| **Cyfanswm Gwariant** | | 17,628 | 6,286 |
| **Incwm Crynswth** | | | |
| Elw o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | (16,488) | (16,133) |
| Enillion buddsoddi o Gronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | (10) | (77) |
| Adfer grantiau | | (2) | (20) |
| Incwm arall | 8 | (245) | (193) |
| **Cyfanswm Incwm** | | (16,745) | (16,423) |
| **Gwariant/(Incwm) Net o Weithgareddau cyn llog a threthiant** | | 883 | (10,137) |
| Llog derbyniadwy | | - | (7) |
| **Gwariant/(Incwm) Net cyn trethiant** | | 883 | (10,144) |
| Trethiant taladwy | 6 | - | 1 |
| **Gwariant/(Incwm) Net ar ôl trethiant** | | 883 | (10,143) |
| **Gwariant/(Incwm) Cynhwysfawr Arall** | | | |
| Cost cyllid pensiwn | 18 | 75 | 73 |
| Colled Actwaraidd ar Bensiwn | 18 | 1,693 | 258 |
| **Cyfanswm y Gwariant/(Incwm) Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021** | | 2,651 | (9,812) |
| Balans ar 1 Ebrill | | (10,230) | (418) |
| Balans ar 31 Mawrth | | (7,579) | (10,230) |

Mae'r holl enillion a'r colledion cydnabyddedig wedi cael eu cyfrif ar sail y gost hanesyddol ac wedi'u hadlewyrchu yn y datganiad uchod.

Mae'r holl weithgareddau'n parhau heb brynu na gwaredu eitemau. Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 106 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL FEL AR 31 MAWRTH 2021

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2021 £'000 | Ar 31 Mawrth 2020 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau Anghyfredol** | | | |
| Eiddo, peiriannau ac offer | 9 | 130 | 133 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill | 10 | 14 | 25 |
| Buddsoddiadau - balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 12,811 | 15,027 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 13 | 2,056 | 450 |
| **Cyfanswm yr Asedau Cyfredol** | | 14,881 | 15,502 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | 15,011 | 15,635 |
| **Atebolrwydd Cyfredol** | | | |
| Croniadau grant | 3 | (276) | (373) |
| Atebolrwydd cyfredol arall | 12 | (2,235) | (1,689) |
| **Cyfanswm yr Atebolrwydd Cyfredol** | | (2,511) | (2,062) |
| **Asedau Anghyfredol ac Asedau Cyfredol Net** | | 12,500 | 13,573 |
| **Atebolrwydd Anghyfredol** | | | |
| Croniadau grant | 3 | (29) | (66) |
| Atebolrwydd Pensiwn | 18 | (4,892) | (3,277) |
| | | (4,921) | (3,343) |
| **Asedau llai Atebolrwydd** | | 7,579 | 10,230 |
| **Cronfeydd:** | | | |
| Cronfa Incwm a Gwariant | | 12,471 | 13,507 |
| Cronfa Pensiwn | 18 | (4,892) | (3,277) |
| | | 7,579 | 10,230 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 106 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd a'u llofnodi ar ei ran gan;

**SWYDDOG CYFRIFO: S POWELL**
**7FED GORFFENNAF 2021**

## CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI DATGANIAD O LIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2021

| | Nodyn | 2020/21<br>£'000 | 2019/20<br>£'000<br>(Ailddatganwyd) |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| (Gwariant)/Incwm Net ar ôl trethiant | | (883) | 10,143 |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn elfennau derbyniadwy | 10 | 11 | (19) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn elfennau taladwy | 3,12 | 412 | (9,510) |
| Gostyngiad/(Cynnydd) yn y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | 11 | 2,216 | (362) |
| Llog a dderbyniwyd | | - | (7) |
| Dibrisiant offer a pheiriannau | 9 | 38 | 40 |
| Cost pensiwn | 18 | (153) | (43) |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu** | | 1,641 | 242 |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | - | 7 |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 9 | (35) | (10) |
| Ad-daliadau benthyciadau | 10 | - | 14 |
| **Trethiant** | | | |
| Treth gorfforaeth a dalwyd | | - | (1) |
| Mewnlif arian net ar gyfer y flwyddyn | 13 | 1,606 | 252 |
| **Cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod** | | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | | 450 | 198 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | | 2,056 | 450 |
| | | 1,606 | 252 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 106 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## DATGANIAD O NEWIDIADAU I ECWITI TRETHDALWYR AR GYFER CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI CYNGOR CHWARAEON CYMRU AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2021

| | Balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol | Balans yn CChC | Cronfa Pensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | 14,665 | (11,258) | (2,989) | 418 |
| **Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2019/20** | | | | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 16,133 | - | - | 16,133 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru | (15,700) | 15,700 | - | - |
| Adenillion Buddsoddi | 77 | 7 | - | 84 |
| Incwm Gweithredu Arall | - | 193 | - | 193 |
| Adfer grantiau | - | 20 | - | 20 |
| Gwariant yn ystod y flwyddyn | (148) | (6,182) | - | (6,330) |
| Cost Pensiwn | - | - | (288) | (288) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | 15,027 | (1,520) | (3,277) | 10,230 |
| **Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2020/21** | | | | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 16,488 | - | - | 16,488 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru | (18,550) | 18,550 | - | - |
| Adenillion Buddsoddi | 10 | - | - | 10 |
| Incwm Gweithredu Arall | - | 245 | - | 245 |
| Adfer grantiau | - | (2) | - | (2) |
| Gwariant yn ystod y flwyddyn | (164) | (17,613) | - | (17,777) |
| Cost Pensiwn | - | - | (1,615) | (1,615) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | 12,811 | (340) | (4,892) | 7,579 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 85 i 106 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# CYNGOR CHWARAEON CYMRU – CYFRIF DOSBARTHU'R LOTERI NODIADAU AR Y CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2021

## 1. POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 SAIL Y CYFRIFO

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd drwy brisio Eiddo, Peiriannau ac Offer drwy gyfeirio at gostau cyfredol, yn unol â'r cyfarwyddiadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gyda chaniatâd Trysorlys EM, yn unol ag Adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol ac ati 1993 (fel y'i diwygiwyd) a chaniatâd Gweinidogion Cymru. Gellir cael copi o'r cyfrifon ar gais drwy ysgrifennu at Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru), Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW. Heb gyfyngu ar yr wybodaeth a roddir, mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol ag IFRS Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2020/21 (FreM seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae cyfrifon ar wahân wedi cael eu paratoi ar gyfer gweithgareddau a gyllidir gan gymorth grant, yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Nid yw'n ofynnol i'r cyfrif hwn gael ei gyfuno â chyfrifon Chwaraeon Cymru.

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru roi cyfrif am ymrwymiadau grant tymor hir sy'n dod yn ddyledus i'w talu yn y cyfnodau cyfrifo dilynol, a gyllidir gan elw'r loteri yn y dyfodol.

### 1.2 INCWM O GRONFA DDOSBARTHU'R LOTERI GENEDLAETHOL

Cyllidir gweithgareddau dosbarthu swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru gan elw a neilltuir gan y Loteri Genedlaethol. Cedwir yr elw hwn mewn cronfa a weinyddir gan yr Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac mae ar gael i'w dynnu i lawr i gyfrif banc Loteri Chwaraeon Cymru pan fo angen.

Mae'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yn parhau o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Er hynny, dangosir cyfran y balans o'r fath y gellir ei briodoli i Chwaraeon Cymru yn y cyfrifon yn unol â gwerth y farchnad ac, ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae wedi cael ei ardystio gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fel balans sydd ar gael ar gyfer ei ddosbarthu gan Chwaraeon Cymru yng nghyswllt ymrwymiadau cyfredol ac yn y dyfodol.

Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol yw mwyafrif y Gronfa Incwm a Gwariant, gyda gweddill y balans wrth gefn yn cael ei ddal yn Loteri Chwaraeon Cymru. Gellir gweld mwy o fanylion yn nhabl y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar dudalen 84.

Nid yw'r balans ar 31 Mawrth 2021 yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol wedi cael ei archwilio oherwydd bod yr archwiliad o'r Gronfa'n anghyflawn. Bydd unrhyw addasiad sy'n codi o'r archwiliad hwnnw'n cael ei adlewyrchu yng nghyfrifon 2021/22 ac ni ddisgwylir iddo fod yn sylweddol. Ni addaswyd balans agoriadol y gronfa ar gyfer 2019/20.

### 1.3 EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

Mae Chwaraeon Cymru yn cyfalafu unrhyw eiddo, peiriannau ac offer gwerth mwy na £500 a ddefnyddir ar gyfer gweinyddu swyddogaeth y Loteri yn unig a chynhwysir yr offer yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng y gost hanesyddol a gwerth llyfr net cost gyfredol yr asedau hyn.

### 1.4 DIBRISIANT

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

| | |
|---|---|
| Offer - Cyfrifiaduron | 3 blynedd |
| Offer - Arall | 3 - 10 mlynedd |

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

### 1.5 COSTAU PENSIWN

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun budd pendant sy'n darparu seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Cynllun pensiwn cyfraniad pendant gyda Scottish Widows yw'r llall. Dywed IAS19 bod rhaid i ffigur sy'n cael ei gyfrif yn actwaraidd (cost gwasanaethu cyfredol a gorffennol) gael ei bennu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru.

Neilltuir unrhyw asedau neu atebolrwydd pensiwn rhwng y Loteri a Chwaraeon Cymru yn seiliedig ar gyfradd hanesyddol y neilltuo ar gostau staff, gweler 1.6.1. Neilltuir taliadau diffyg y gronfa bensiwn ar sail yr un gyfran â'r dyraniad diffyg pensiwn i gyfrif y Loteri. Ceir manylion pellach yn nodyn 7.

### 1.6 DYRANNU COSTAU

Cyfrifir dyraniadau costau'r staff a'r costau anuniongyrchol a drosglwyddir o Chwaraeon Cymru i gyfrif y Loteri ar y sail a ganlyn:

#### 1.6.1

Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas y Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn. Os yw staff yn gweithio, neu'n darparu gwasanaeth i gynlluniau loteri a thrysorlys, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n unol â'r amser a dreulir ar waith y Loteri. Mae unrhyw gostau diswyddo a dalwyd yn ystod y flwyddyn yn aros yn llawn yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru ac nid ydynt yn cael eu neilltuo i'r Loteri.

#### 1.6.2

Mae costau heb fod yn gostau staff yn cael eu neilltuo naill ai ar sail yr arwynebedd llawr a ddefnyddir gan staff y Loteri neu, os nad oes data arwynebedd llawr ar gael neu os nad yw'n cael ei ystyried yn briodol, dyrennir costau'n seiliedig ar gyfanswm amser staff y Loteri, a fynegir fel canran o gyfanswm amser y staff.

#### 1.6.3

Neilltuir tâl a chostau teithio Aelodau'r Cyngor ar sail 50/50.

### 1.7 POLISI AR GYFER CRONIADAU GRANT

Mae dyfarniadau grant yn cael eu cyfrif fel gwariant yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr a nes eu bod yn cael eu talu, fel croniadau grant yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol os ydynt yn bodloni'r diffiniad o atebolrwydd, y manylir arno yn Nodyn 3.

Nid yw dyfarniadau grant y penderfynwyd yn eu cylch yn ffurfiol ac nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o atebolrwydd yn cael eu cynnwys yn y gwariant ar y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr nac fel croniad yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Er hynny, maent yn cael eu datgelu fel atebolrwydd grant wrth gefn yn y Nodiadau ar gyfer y Cyfrifon.

### 1.8 INCWM ARALL

Yn berthnasol i incwm a gynhyrchir gan UK Sport at ddefnydd asedau a chyfleusterau Chwaraeon Cymru.

### 1.9 DEFNYDD O AMCANGYFRIFON A PHENDERFYNIADAU

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisïau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisïau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol:-

Nodyn 1.6.1 Mae costau staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio yn cyflawni gweithgareddau'r Loteri, gweler nodyn 1.6.1 am ragor o fanylion. Mae Nodyn 18 yn ymwneud â chostau pensiwn a neilltuir i'r Loteri ar sail dyraniad cyfartalog hanesyddol o gostau staff.

### 1.10 OFFERYNNAU ARIANNOL

#### 1.10.1

#### ASEDAU ARIANNOL

Nid yw masnach dderbyniadwy ac asedau cyfredol eraill yn dwyn unrhyw log ac maent yn cael eu datgan ar sail eu gwerth nominal, sy'n cael ei leihau yn unol â lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifol. Mae arian parod a chyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, blaendal tymor byr a buddsoddiadau tymor byr eraill hynod hylifol y gellir eu trosglwyddo'n rhwydd i swm penodol o arian parod ac sy'n amodol ar risg anarwyddocaol o newidiadau mewn gwerth.

#### 1.10.2

#### ATEBOLRWYDD ARIANNOL

Nid yw Taliadau Masnach ac atebolrwydd cyfredol arall yn dwyn llog ac maent yn cael eu datgan yn unol â'u gwerth nominal.

### 1.11 ADRODDIADAU SEGMENTU

Mae cofnodion rheoli Chwaraeon Cymru ar gyfer y Loteri'n darparu gwybodaeth berthnasol i ddosbarthu grantiau'r Loteri. Mae Chwaraeon Cymru o'r farn nad yw gofynion datgelu IFRS 8 Segmentau Gweithredu yn berthnasol i'r Cyfrifon Dosbarthu Loteri hyn. Ystyrir fod segment gweithredu unigol ar gyfer dosbarthu cyllid y loteri.

### 1.12 SAFONAU CYFRIFO WEDI'U CYHOEDDI O'R NEWYDD HEB FOD YN WEITHREDOL ETO

Llywodraethir y defnydd o unrhyw safonau IFRS newydd neu ddiwygiedig gan eu mabwysiadu gan yr FreM. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu newidiadau i safonau pan ddônt yn weithredol. Nid oes unrhyw effeithiau sylfaenol hysbys yn sgil newidiadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto ar y datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod o ddefnydd cychwynnol.

Oherwydd pandemig y Coronafeirws, mae Trysorlys EM wedi cytuno gyda'r Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i ohirio gweithredu IFRS 16 Prydlesau tan 1 Ebrill 2022 ar gyfer adroddiadau ariannol y sector cyhoeddus. Nid oes gan gyfrifon y Loteri unrhyw brydlesau, felly gallwch ddisgwyl i'r effaith fod yn amherthnasol yn seiliedig ar trefniadau prydlesu cyfredol.

Cyhoeddwyd IFRS 17 ym mis Mai 2017 a disgwylir iddo ddisodli'r safon adrodd ariannol gyfredol ar gyfer yswiriant (IFRS 4) o 1 Ionawr 2022 ymlaen. Gan nad oes gan y cyfrifon hyn rwymedigaethau contract yswiriant, nid oes unrhyw effaith ar y cyfrifon.

## *2. GRANTIAU A DALWYD* YN YSTOD Y FLWYDDYN*

| **Grantiau Refeniw** | **2020/2021**<br>£'000 | **2019 / 2020**<br>£'000 |
|---|---|---|
| Elite Cymru | 7,761 | 3,140 |
| Coach Cymru (wedi uno i Linell Elite Cymru) | - | 2,772 |
| Perfformiad Cenedlaethol (wedi uno i Linell Elite Cymru) | - | 985 |
| Hyfforddiant Cenedlaethol (wedi uno i Linell Elite Cymru) | - | 931 |
| Chwaraeon Anabledd | 552 | 552 |
| Y Gist Gymunedol | 214 | 1,689 |
| Twf y Loteri | 247 | 312 |
| Cronfa Cadernid Chwaraeon / Cronfa Cymru Actif | 3,456 | - |
| Arweinyddiaeth | 38 | 18 |
| Nodyn 3 | 12,268 | 10,399 |

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnwys swm o £61,397 (2019/20 £62,165) a dalwyd yng nghyswllt costau gweinyddu'r awdurdodau lleol, sy'n gweinyddu'r cynllun grantiau ar lefel leol.

| **Grantiau Cyfalaf** | **2020/2021**<br>£'000 | **2019 / 2020**<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cyfalaf | - | 29 |
| Grantiau Datblygu / Awdurdodau Lleol | 2,112 | 2,685 |
| Galw Am Weithredu | 78 | 91 |
| Nodyn 3 | 2,190 | 2,805 |

Mae'r ffigurau grant yn y nodiadau uchod yn cynnwys £261,647 o wariant uniongyrchol a wnaed ar ran y rhai a dderbyniodd grantiau (£309,309 yn 2019/20).

*Grantiau a dalwyd allan

### 3. CRONIADAU GRANT

| | Cyfalaf | Refeniw | Cyfanswm 2020/2021 | Cyfanswm 2019/2020 |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill | 327 | 112 | 439 | 10,578 |
| Cynigion grant a fodlonwyd yn ystod y flwyddyn | (2,190) | (12,268) | (14,458) | (13,204) |
| Cynigion grant heb eu derbyn | (5) | (23) | (28) | (194) |
| Cynigion grant a wnaed yn ystod y flwyddyn | 2,114 | 12,238 | 14,352 | 3,259 |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | (81) | (53) | (134) | (10,139) |
| Balans croniadau ar 31 Mawrth | 246 | 59 | 305 | 439 |
| **Dadansoddwyd fel:** | | | | |
| Symiau'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn | 217 | 59 | 276 | 373 |
| Symiau'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn | 29 | - | 29 | 66 |

| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y llif arian | Cyfanswm 2020/2021 | Cyfanswm 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2020/21 | - | 373 |
| Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2021/22 | 276 | 66 |
| Symiau'n ddyledus yn ystod Blwyddyn Ariannol 2022/23 | 29 | - |
| Balans ar 31 Mawrth 2021 | 305 | 439 |

| | Cyfanswm 2020/2021 | Cyfanswm 2019/20 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans rhyng-lywodraeth** | | |
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | - | - |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 48 | 52 |
| | 48 | 52 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 257 | 387 |
| | 305 | 439 |

### CRONIADAU GRANT (PARHAD)

Bydd Chwaraeon Cymru yn trin dyfarniadau Grant fel gwariant ac os nad ydynt wedi'u talu, fel croniad, os oes rhwymedigaeth adeiladol i wneud taliad. Daw dyfarniadau grant sy'n rhydd o unrhyw amodau arbennig ar grant yn rhwymedigaeth adeiladol pan mae'r cynnig ffurfiol o grant wedi cael ei anfon at dderbynnydd y grant.

Daw cynigion grant sydd ag amodau arbennig yn rhwymedigaeth adeiladol pan mae'r ymgeisydd wedi cydymffurfio â'r amodau arbennig yn y contract. Ni fydd dyfarniadau y penderfynwyd yn eu cylch ond sydd ag amodau grant heb eu cyflawni'n arwain at rwymedigaeth adeiladol ac ni fydd yn arwain at groniad grant; yn hytrach, bydd dyfarniadau o'r fath yn cael eu datgelu drwy gyfrwng nodyn fel atebolrwydd grant wrth gefn (gweler nodyn 4).

Bydd dyfarniadau grant yn cael eu trin fel cynnig ffurfiol ar ôl i'r derbynnydd gael hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol ar ffurf "llythyr cynnig". Ni fydd cyfathrebu ar lafar neu'n anffurfiol gan staff, nad yw'n rhwymo Chwaraeon Cymru mewn unrhyw ffordd, yn cael ei drin fel cynnig ffurfiol o grant.

Ni fydd Chwaraeon Cymru yn trin unrhyw rai o'r amodau canlynol fel rhai o dan eu rheolaeth:

- Y gofyniad i sicrhau caniatâd cynllunio neu unrhyw gymeradwyaeth reoleiddio arall;
- Y gofyniad i sicrhau arian cyfatebol o ffynonellau eraill;
- Amod cyffredinol perthnasol i argaeledd arian y loteri.

Fel rhan o strategaeth newydd Chwaraeon Cymru, roedd model buddsoddi newydd yn cael ei ddatblygu yn barod ar gyfer penderfyniadau cyllido o 2020/21 ymlaen. Felly, roedd 2019/20 yn flwyddyn bontio ar gyfer penderfyniadau cyllido, felly mae Chwaraeon Cymru wedi dewis ymestyn cynigion cyllido 2018/19 am 12 mis, i roi amser i weithio gyda phartneriaid yn ystod y flwyddyn bontio. Seiliwyd y cynnig ymestyn ar symiau llythyr cynnig 2018/19, gyda'r llythyrau cynnig ar eu newydd wedd yn cael eu cyhoeddi yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19. Oherwydd hyn, cynhwyswyd cynigion 2019/20 fel cynigion a wnaed yng nghyfrifon 2018/19.

Bydd y model cyllido newydd yn dod yn weithredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Felly, cafodd llythyrau cynnig 12 mis newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 eu cyhoeddi o fis Ebrill 2020 ymlaen.

### 4. ATEBOLRWYDD GRANT WRTH GEFN

| | 2020/2021<br>£'000 | 2019 / 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| Atebolrwydd Grant | 356 | 471 |
| | 356 | 471 |

### 5. YMRWYMIADAU CYFALAF

Ar 31 Mawrth 2021, nid oedd gan Gyfrif y Loteri unrhyw ymrwymiadau cytundebol ar gyfer Cyfalaf ac Eiddo, Peiriannau ac Offer (2019/2020 Dim).

### 6. TRETHIANT TALADWY

| | 2020/2021<br>£'000 | 2019 / 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| Treth daladwy ar log a dderbyniwyd ar gyfradd o 19% (2019/2020 - 19%) | - | 1 |

### 7. NIFER Y STAFF A'R COSTAU CYSYLLTIEDIG

Mae ffigurau costau'r staff a ddangosir yn y Cyfrif Gwariant Net yn ddyraniad o'r costau a achoswyd gan Chwaraeon Cymru ac maent yn seiliedig ar y canlynol:

| | Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn cysylltiedig ar gyfartaledd | | 2020/2021 | 2019 / 2020 |
|---|---|---|---|---|
| | 2020/21 | 2019/20 | £'000 | £'000 |
| **Costau cyflog crynswth** | | | | |
| Cadeirydd L Conway* | 0.20 | 0.20 | 18 | 18 |
| Prif Weithredwr S Powell | 0.25 | 0.25 | 24 | 24 |
| Staff Eraill** | 51.62 | 50.03 | 2,774 | 2,658 |
| | | | 2,816 | 2,700 |
| Cyflogau a thâl | | | 2,066 | 1,918 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | | | 216 | 205 |
| Costau Pensiwn eraill | | | 687 | 620 |
| Addasiadau IAS19 | | | (153) | (43) |
| | | | 2,816 | 2,700 |

* Mae nifer y staff a gyflogir ar gyfartaledd i gyd yn staff contract parhaol. Penodir y Cadeirydd i weithio 2 ddiwrnod yr wythnos ac mae'n treulio 50 y cant o'r amser hwnnw ar weithgareddau'r loteri.
**Yn cynnwys Brian Davies yn gyfwerth ag amser llawn am y tri mis fel Prif Swyddog Gweithredol dros dro a naw mis fel Cyfarwyddwr.

Mae'r costau Pensiwn eraill sy'n gyfanswm o £687,000 yn cynnwys cyfraniad cyfandaliad o £159,000 tuag at yr atebolrwydd pensiwn net (2019/20 £235,250). Y gweddill yw cost pensiwn y cyflogwr a neilltuir i'r loteri'n seiliedig ar ddyrannu amser cyflogeion unigol i waith y loteri.

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogeion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol a gorffennol) gael ei nodi yn y Datganiad o Incwm Net Cynhwysfawr (SoCNE). Ar gyfer 2020/21, roedd cyfraniad gwirioneddol y cyflogwr yn (£530,000) (25% o £2,120,000). Roedd y gost gwasanaeth bresennol a gorffennol a ddyrannwyd gan y Loteri ar gyfer 2020/21 yn gyfanswm o £377,500 (25% o £1,510,000), sy'n gorfod cymryd lle'r costau pensiwn gwirioneddol ar gyfer y cyflogwr yn y SoCNE.

Felly, yr effaith net oedd (£152,500) i gostau staff ar ôl tynnu cyfraniad y cyflogwr. Gan fod cost y gwasanaeth ar hyn o bryd yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dynnir o falans y Loteri. Mae rhagor o fanylion ar gael yn nodyn 18.

Cyfrifir y rhwymedigaeth net mewn perthynas â'r cynlluniau pensiynau budd pendant hyn drwy amcangyfrif faint o fudd mae cyflogeion wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau cyfredol a blaenorol. Gostyngir y budd i bennu ei werth presennol, a didynnir gwerthoedd teg asedau'r cynllun. Cydnabyddir enillion a cholledion actwaraidd sy'n codi yn y cyfnod y maent yn digwydd drwy Wariant Net Cynhwysfawr Eraill.

Mae costau diswyddo'r flwyddyn wedi cael eu talu'n llawn a'u hadlewyrchu yn y cyfrifon ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru. Nid oes unrhyw gostau diswyddo wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn.

Dadansoddir costau'r staff ymhellach, fel a ganlyn:

| | **2020/2021**<br>£'000 | **2019 / 2020**<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gweinyddu | 1,143 | 1,194 |
| Cefnogaeth Gwyddoniaeth Chwaraeon i Athletwyr | 1,673 | 1,506 |
| | 2,816 | 2,700 |

## 8. COSTAU GWEITHREDU ERAILL AC INCWM ARALL

| COSTAU | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Costau Uniongyrchol | 240 | 231 |
| Llety | 58 | 67 |
| Ymgynghoriaeth | - | 5 |
| Ffi Archwilio | 21 | 21 |
| Ailgodi tâl am Wasanaethau Chwaraeon Cymru | 131 | 157 |
| | 450 | 481 |

| INCWM | 2020/21 £'000 | 2019/20 £'000 |
|---|---|---|
| Grant UK Sport | 245 | 193 |
| | 245 | 193 |

## 9. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

| | Offer £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2020 | 489 | 489 |
| Ychwanegiadau | 35 | 35 |
| Gwaredu | (16) | (16) |
| Ar 31 Mawrth 2021 | 508 | 508 |
| | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2020 | (356) | (356) |
| Ffi ar gyfer y Flwyddyn | (38) | (38) |
| Gwaredu | 16 | 16 |
| Ar 31 Mawrth 2021 | (378) | (378) |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2021** | 130 | 130 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2020 | 133 | 133 |

## 9. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER (PARHAD)

| | Offer | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2019 | 479 | 479 |
| Ychwanegiadau | 10 | 10 |
| Gwaredu | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2020 | 489 | 489 |
| | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2019 | (316) | (316) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (40) | (40) |
| Gwaredu | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2020 | (356) | (356) |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2020** | 133 | 133 |
| Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2019 | 163 | 163 |

## 10. MASNACH DERBYNIADWY AC ASEDAU CYFREDOL ERAILL

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Dyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Eitemau derbyniadwy eraill | 14 | 25 |
| | | |
| **Dyledus o fewn mwy na blwyddyn** | | |
| Eitemau derbyniadwy eraill a rhagdaliadau | - | - |
| | 14 | 25 |

## *11. CRONFA DDOSBARTHU'R LOTERI GENEDLAETHOL*

| | Balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol £'000 |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2019 | 14,665 |
| | |
| **Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2019/20** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 16,133 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru | (15,700) |
| Adenillion Buddsoddi | 77 |
| Incwm Gweithredu Arall | - |
| Adfer grantiau | - |
| Gwariant yn ystod y flwyddyn | (148) |
| Cost Pensiwn | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | 15,027 |
| | |
| **Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr 2020/21** | |
| Incwm o'r Loteri Genedlaethol | 16,488 |
| Tynnwyd i lawr yn ystod y flwyddyn gan Chwaraeon Cymru | (18,550) |
| Adenillion Buddsoddi | 10 |
| Incwm Gweithredu Arall | - |
| Adfer grantiau | - |
| Gwariant yn ystod y flwyddyn | (164) |
| Cost Pensiwn | - |
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | 12,811 |

Mae'r balansau uchod yn cytuno â datganiad Cronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

## 12. MASNACH TALADWY AC ATEBOLRWYDD CYFREDOL ARALL

| | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Chwaraeon Cymru | 2,214 | 1,667 |
| Croniadau | 21 | 22 |
| | 2,235 | 1,689 |

## 13. DADANSODDI NEWIDIADAU MEWN ARIAN PAROD A CHYFWERTH AG ARIAN PAROD

| | 2020/2021 | 2019/2020 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Fel ar 1 Ebrill | 450 | 198 |
| Newid net mewn balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod | 1,606 | 252 |
| Fel ar 31 Mawrth | 2,056 | 450 |

Cedwir yr holl arian parod mewn cyfrifon banc masnachol.

## 14. ATEBOLRWYDD WRTH GEFN

Ac eithrio'r atebolrwydd grant wrth gefn, a ddatgelir yn Nodyn 4, nid oedd unrhyw atebolrwydd wrth gefn arall ar 31 Mawrth 2020 ac ar 31 Mawrth 2021 oedd angen ei ddatgelu.

### 15. ASEDAU WRTH GEFN

Mae gan y Llywodraeth gytundeb rhannu elw gydag Awdurdod Llundain Fwyaf. Mae'r cytundeb hwn yn rhoi hawl i'r Loteri Genedlaethol i hyd at £675m – y swm a gyfrannwyd tuag at gost cynnal Gemau Llundain 2012. Bydd yr arian a dderbyniwyd fel rhan o'r cytundeb rhannu elw yn cael ei ddychwelyd i'r Loteri Genedlaethol. Mae ad-dalu'r arian hwn yn dibynnu ar werthiant tir a sut bydd elw'n cael ei ddyrannu fel y nodir yn y cytundeb yn 2012 gydag Awdurdod Llundain Fwyaf.

### 16. OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae Safon Cofnodion Ariannol Rhyngwladol 7 : Offerynnau Ariannol yn dweud ei bod yn ofynnol datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i rôl.

### RISGIAU HYLIFEDD

Yn 2020/21, deilliodd £16,488,000 neu 98.5% o'r incwm o'r Loteri Genedlaethol (2019/20: £16,133,000 neu 98.2%). O'r incwm a oedd yn weddill, deilliodd £9,550 neu 0.1% o'r adenillion buddsoddi o'r balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, (2019/20 £77,000 neu 0.5%), a £247,000 neu 1.5% o incwm amrywiol (2019/20: £231,000 neu 1.3%). Nid yw Chwaraeon Cymru yn ystyried bod ei gronfa Loteri yn wynebu unrhyw risg hylifedd sylweddol ac mae'n fodlon bod y balans yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol a'r elw a ragwelir yn y dyfodol o'r Loteri yn ddigonol i fodloni ei ymrwymiadau caled.

### RISG CYFRADDAU LLOG

Buddsoddir asedau ariannol y Loteri yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol, sy'n buddsoddi mewn band cul o asedau risg isel, fel bondiau'r llywodraeth ac arian parod. Nid oes gan Chwaraeon Cymru unrhyw reolaeth dros fuddsoddi Cyllid yng Nghronfa Ddosbarthu'r Loteri Genedlaethol. Cedwir y balansau arian parod a dynnir i lawr o'r Gronfa, i dalu'r ymrwymiadau grant a'r costau gweithredu, mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol mynediad ar unwaith. Rhoddodd y cyfrif hwn gyfradd llog o 0.50% ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn (2019/20 0.50%). Roedd balans yr arian parod ar ddiwedd y flwyddyn yn £2,056,000 (2019/20 £450,000). Nid yw Chwaraeon Cymru yn ystyried bod ei swyddogaeth Loteri yn wynebu risg sylweddol o ran cyfraddau llog.

### RISG ARIAN TRAMOR

Nid yw swyddogaeth Loteri Chwaraeon Cymru yn wynebu unrhyw risg o ran arian tramor.

### 17. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

### CYRFF CYHOEDDUS

Cyllidir gweithrediadau Loteri Chwaraeon Cymru gan Gronfa'r Loteri Genedlaethol drwy gyfrwng yr Adran ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Mae'r Adran yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig.

### UNIGOLION

Talodd y Loteri grantiau yn ystod y flwyddyn i nifer o sefydliadau y bu i'r aelodau a'r uwch staff ddatgan diddordeb ynddynt ac mae'r rhai sy'n cael eu hystyried yn sylfaenol i'w gweld isod. Rhaid i unrhyw ddatgan buddiannau ar gyfer eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan gan yr unigolyn, a fydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer y rhan honno.

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| P Britton<br>Aelod o'r Cyngor | Cymdeithas Gyfeiriannu Cymru | 2 | Brawd yn Aelod Pwyllgor | - |
| I Bancroft<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 16 | Prif Weithredwr | - |
| P Tilley<br>Aelod o'r Cyngor | Cymdeithas Triathlon Cymru | 247 | Aelod | - |
| P Tilley<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Sir Fynwy | 22 | Aelod o Banel y Gist Gymunedol | - |
| P Tilley<br>Aelod o'r Cyngor | Newport Live | 55 | Ymddiriedolwr ac Aelod o'r Bwrdd | - |
| P Tilley<br>Aelod o'r Cyngor | All Afloat | 4 | Ymddiriedolwr | - |
| P Tilley<br>Aelod o'r Cyngor | Cymdeithas Rwyfo Cymru | 300 | Gwraig yn Aelod | - |
| P Tilley<br>Aelod o'r Cyngor | Clwb Hwylio Llandegfedd | 2 | Aelod Anrhydeddus | - |
| M Veale JP<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Sir Benfro | 19 | Aelod lleyg o'r Pwyllgor Archwilio | 22 |
| M Veale JP<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 72 | Aelod lleyg o'r Pwyllgor Safonau | - |
| M Veale JP<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 2 | Aelod o'r Pwyllgor Archwilio | - |
| S Powell<br>Prif Weithredwr | Clwb Hoci Abertawe | 2 | Aelod | 2 |
| B Davies OBE<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol / Prif Weithredwr Dros Dro | Gymnasteg Cymru | 879 | Cymar yn Hyfforddwr | - |
| B Davies OBE<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol / Prif Weithredwr Dros Dro | Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru | 195 | Cynrychiolydd Chwaraeon Cymru ar Fwrdd CGGC | - |
| B Davies OBE<br>Cyfarwyddwr Corfforaethol / Prif Weithredwr Dros Dro | Clwb Hoci Gwent | 2 | Merch yn Aelod | 1 |

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Ymrwymiadau heb eu bodloni eto £000 |
|---|---|---|---|---|
| G Williams Cyfarwyddwr Corfforaethol | Pêl Rwyd Cymru | 402 | Plant yn Aelodau | - |
| S Morgan Rheolwr, Plas Menai | Yr Urdd | 381 | Aelod Bwrdd Anweithredol – Rhaglen Chwaraeon a Phrentisiaethau | - |
| C Nowell Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | Clwb Pêl Droed Croesyceiliog Athletig | 1 | Aelod Pwyllgor a Hyfforddwr. Mab hefyd yn chwarae D15 | - |

Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor:

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiadau Tâl a Staff ar dudalennau 68 i 75.

## *18. PENSIYNAU*

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol Chwaraeon Cymru, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol y Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif y Loteri yn unol â nodyn 1.5. Ar gyfer 2019/20, mae hwn yn 25% i Gyfrifon y Loteri a 75% i Gyfrifon Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £2,120,000 o gyfraniad pensiwn yn 2020/21 (2019/20 £2,000,000). Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr o £1,325,000 sy'n cynrychioli 32.8% o gyflog pensiynadwy (2019/20 £1,059,000 24.2%)
- Roedd £159,000 o gyfraniadau uwch mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar yn ystod 2020/21 (2018/19 dim)
- Cyfraniad Cyfandaliad o £636,000 (25% wedi'i dalu gan y Loteri), (2019/20 £941,000 gyda 25% wedi'i dalu gan y Loteri)

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2020/21 ymlaen fydd 32.8%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2019. Mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwarïau, sy'n gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl cyfrannu £2,090,000 at y gronfa yn 2021/22, sy'n cynnwys cyfraniad tuag at ddiffyg pensiwn o £716,000. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar gronfa" hefyd.

Y gost pensiwn lawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £300,000 gyda £225,000 (2019/20 £218,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £75,000 (2019/20 £73,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri.

Y gost actwaraidd lawn ar bensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £6,770,000 gyda £5,077,000 (2019/20 colled o £773,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig, gyda'r gweddill o £1,693,000 (2019/20 colled o £258,000) wedi'i ddyrannu i'r loteri.

Yr atebolrwydd pensiwn llawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £20,490,000, gyda £15,598,000 (2019/20 £10,754,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £4,892,000 (2019/20 3,277,000) wedi'i ddyrannu i'r Loteri.

Mae atebolrwydd pensiwn y Loteri wedi'i addasu £231,000 i ganiatáu ar gyfer effaith net newidiadau hanesyddol wrth ddyrannu costau staff i gyfrif y Loteri gyda'r £231,000 o iawn wedi'i ddyrannu i'r atebolrwydd pensiwn yng nghyfrifon cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru.

### *PRIF RAGDYBIAETHAU ARIANNOL*

| | 31 Mawrth 2021<br>% | 31 Mawrth 2020<br>% | 31 Mawrth 2019<br>% |
|---|---|---|---|
| Cyfradd Gostyngiad | 2.1 | 2.3 | 2.4 |
| Chwyddiant – CPI | 2.7 | 1.9 | 2.2 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau | 2.7 | 1.9 | 2.2 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig | 2.7 | 1.9 | 2.2 |
| Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau | 3.7 | 2.9 | 3.2 |
| **Rhagdybiaethau Marwoldeb:** | **Mlynedd** | **Mlynedd** | **Mlynedd** |
| Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo) | | | |
| - Dynion | 22.3 | 22.2 | 22.4 |
| - Merched | 24.7 | 24.6 | 24.8 |
| Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo) | | | |
| - Dynion | 23.3 | 23.2 | 23 |
| - Merched | 26.1 | 26 | 25.9 |

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol.

Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2021.

## DADANSODDIAD O SYMUDIADAU'R GWARGED (DIFFYG) YN YSTOD Y FLWYDDYN

| | 31 Mawrth 2021 £m | 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r gronfa | 54.14 | 44.37 |
| Gwerth presennol yr atebolrwydd | 74.63 | (58.40) |
| (Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | (20.49) | (14.03) |

## DADANSODDIAD O'R SWM A GODWYD MEWN PERTHYNAS Â CHOSTAU GWEITHREDU

| | 31 Mawrth 2021 £m | 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1.35 | 1.57 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.16 | 0.26 |
| Cost llog | 0.30 | 0.29 |
| Treuliau wedi'u cydnabod | 1.81 | 2.12 |

## AILFESUR SYMIAU CYDNABYDDEDIG MEWN GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL

| | 31 Mawrth 2021<br>£m | 31 Mawrth 2020<br>£m |
|---|---|---|
| Adenillion ar asedau cynllun (mwy)/llai na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net | (7.54) | 5.10 |
| Colledion/(enillion) actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau ariannol | 14.89 | (2.52) |
| (Enillion) actwaraidd oherwydd y newid i ragdybiaethau demograffig | 0.00 | (0.79) |
| (Enillion) actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd | (0.58) | (0.76) |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall | 6.77 | 1.03 |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig | 8.58 | 3.15 |

## NEWIDIADAU I WERTH PRESENNOL Y RHWYMEDIGAETH BUDDIANNAU PENDANT YN YSTOD Y CYFNOD CYFRIFO

| | 31 Mawrth 2021 £m | 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddiannau pendant agoriadol | 58.40 | 59.97 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1.35 | 1.57 |
| Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant | 1.33 | 1.43 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.28 | 0.31 |
| Colledion/(enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol | 14.89 | (2.52) |
| (Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig | 0.00 | (0.79) |
| (Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd – profiad | (0.58) | (0.76) |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.20) | (1.07) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad) | 0.16 | 0.26 |
| Rhwymedigaeth buddiannau pendant wrth gloi | 74.63 | 58.40 |

## NEWIDIADAU I WERTH TEG YR ASEDAU YN YSTOD Y FLWYDDYN

| | 31 Mawrth2021 £m | 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | 44.37 | 47.09 |
| Incwm llog ar asedau | 1.03 | 1.14 |
| Ailfesur enillion/(colledion) ar asedau | 7.54 | (5.10) |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 2.12 | 2.00 |
| Cyfraniadau gan y cyfranogwyr | 0.28 | 0.31 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.20) | (1.07) |
| Gwerth teg yr asedau wrth gloi | 54.14 | 44.37 |

## ADENILLION GWIRIONEDDOL AR ASEDAU

| | 31 Mawrth 2021 £m | 31 Mawrth 2020 £m |
|---|---|---|
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 1.03 | 1.14 |
| Enillion/(colledion) actwaraidd ar asedau | 7.54 | (5.10) |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau | 8.57 | (3.96) |

## HANES GWERTHOEDD YR ASEDAU, GWERTH PRESENNOL Y RHWYMEDIGAETH BUDDIANNAU PENDANT A DIFFYG

| | 31 Mawrth 2021 £m | 31 Mawrth 2020 £m | 31 Mawrth 2019 £m | 31 Mawrth 2018 £m | 31 Mawrth 2017 £m | 31 Mawrth 2016 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwerth teg yr asedau | 54.14 | 44.37 | 47.09 | 42.87 | 40.34 | 31.35 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau pendant | (74.63) | (58.40) | (59.97) | (56.52) | (53.03) | (41.36) |
| (Diffyg) | (20.49) | (14.03) | (12.88) | (13.65) | (12.69) | (10.01) |

## DADANSODDIAD SENSITIFRWYDD

| **Rhwymedigaeth Budd Pendant a Gyllidwyd £74.63m** | **+0.1% y flwyddyn** | | **-0.1% y flwyddyn** | |
|---|---|---|---|---|
| **Newid mewn Rhagdybiaethau ar Werth Presennol y rhwymedigaeth budd pendant a gyllidwyd** | **£m** | **% Cynnydd / Gostyngiad i Atebolrwydd Cyflogeion** | | **£m** |
| Addasiad i'r gyfradd Ostyngiad | 72.99 | -2.2% | 2.3% | 76.35 |
| Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Cyflog | 74.85 | 0.3% | -0.3% | 74.41 |
| Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Pensiwn | 76.12 | 2.0% | -1.9% | 73.21 |
| | **-1 blwyddyn** | | **+1 blwyddyn** | |
| Addasiad i'r gyfradd Marwolaethau | 77.39 | 3.7% | -3.6% | 71.94 |

## 19. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD YN ÔL

Awdurdodwyd y cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

ISBN 978-1-5286-2237-0